

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

SOCIAL RESEARCH NUMBER:

98/2023

PUBLICATION DATE:

17/10/2023

# Rhaglen Gydgysylltu Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad - Adroddiad Theori Newid

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.



© Hawlfraint y Goron

ISBN Digidol 978-1-83504-849-8

Teitl: Rhaglen Gydgysylltu Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad -  
Adroddiad Theori Newid

Awdur(on):

Athro Cysylltiol Jennifer Maher (Prifysgol De Cymru)

Dr Paolo Baffero (Prifysgol De Cymru)

Adroddiad ymchwil llawn - dyfyniad: Maher, J. and Baffero, P. (2023). Rhaglen Cydgysylltu Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad - Adroddiad Theori Newid . Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 98/2023.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/rhaglen-gydgysylltu-troseddau-cefn-gwlad-bywyd-gwyllt-damcaniaeth-newid>

Nid barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw'r farn hon o reidrwydd yn cyd-fynd â barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Aimee Marks

Uwch Swyddog Ymchwil

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: [ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru](mailto:ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru)

## Tabl o gynnwys

Rhestr o dablau.....	2
Rhestr o ffigurau .....	3
Rhestr termau .....	4
1. Cyflwyniad a Chefndir .....	8
2. Methodoleg .....	18
3. Canfyddiadau .....	25
4. Casgliadau .....	74
5. Argymhellion .....	82
Cyfeirnodau.....	85
Atodiad A .....	88
Atodiad B .....	89

## **Rhestr o dablau**

Tabl 1: Crynodeb o Ddulliau, Sampl a Gyflawnwyd ac Amcanion.....	22
Tabl 2: Gweithgareddau Cydgysylltydd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (WRC)...	51
Tabl 3: Dangosyddion a data ar gyfer monitro Allbynnau .....	68

## Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Trosolwg o Raglen Gydgysylltu Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (WRC)...9	
Ffigur 2: Enghraifft o Ddiagram Model Rhesymeg Theori Newid a ddefnyddir mewn Grwpiau Ffocws .....	19
Ffigur 3: Model Rhesymeg .....	33

## Rhestr termau

### Acronym/Allwedd Diffiniad

#### air

Allbynnau	Canlyniadau diriaethol neu fesuradwy gweithgaredd a gyflawnir gan Raglen Gydgysylltu WRC. Gall y rhain gynnwys cynhyrchion, gwasanaethau, adroddiadau a phethau eraill y gellir eu cyflawni.
Budd-ddeiliaid	Mae budd-ddeiliad yn barti sydd â diddordeb yng nghanlyniadau Rhaglen Gydgysylltu WRC, gallant naill ai effeithio ar y Rhaglen neu gael eu heffeithio gan y Rhaglen (e.e. cymunedau, grwpiau buddiant). At ddiben yr adroddiad hwn, mae hyn hefyd yn cynnwys partneriaid allweddol, megis gorfodi, sy'n darparu'r Rhaglen.
Canlyniadau	Effeithiau ehangach yn deillio o'r allbynnau a gynhyrchwyd gan weithgareddau Rhaglen Gydgysylltu WRC. Gallant gynnwys newidiadau mewn ymddygiad, agweddau, neu wybodaeth, a datblygiadau ym maes troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad.
CJS	System Cyfiawnder Troseddol
CPS	Gwasanaeth Eryl y Goron
CU	Y Cenhedloedd Unedig
Cydgysylltydd WRC	Cydgysylltydd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad [Cymru-gyfan]. Rôl a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddatblygu Rhaglen Gydgysylltu Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (WRC) yng Nghymru.
Effaith	Newidiadau neu fuddion ehangach a thymor hwy sy'n deillio o gyflawni canlyniadau Rhaglen Gydgysylltu WRC. Gall hyn gynnwys gwelliannau mewn llesiant a gostyngiad mewn troseddu.
Gweithgareddau	Camau a gymerwyd neu brosesau a gyflawnwyd yn y Rhaglen Gydgysylltu Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (WRC), gan ddefnyddio mewnbynnau i gynhyrchu allbwn. Mae'r rhain yn

cynnwys cynllunio, dylunio, adeiladu a darparu cynnyrch neu wasanaeth.

DU	Y Deyrnas Unedig
ISA	Cytundeb Rhannu Gwybodaeth
LIC	Llywodraeth Cymru
LoRaWAN	Rhwydweithiau Ardal Eang Ystod Hir
Mewnbynnau	Adnoddau a ddefnyddir gan Raglen Gydgysylltu WRC i gyflawni gweithgaredd neu gynhyrchu allbwn. Gall y rhain gynnwys arian, offer, data, deunyddiau ac adnoddau dynol.
MOU	Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth
NGO	Sefydliad anllywodraethol
NPCC	Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu
NRCU	Uned Troseddau Gwledig Cenedlaethol (NRCU)
NRW	Cyfoeth Naturiol Cymru
NWCU	Uned Troseddau Bywyd Gwyllt Cenedlaethol (NWCU)
PDG	Grŵp Datblygu'r Flaenoriaeth [DU] neu Grŵp Cyflawni'r Flaenoriaeth [Cymru]
PG	Grŵp Blaenoriaeth
PND	Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu
PWCO	Swyddog Troseddau Bywyd Gwyllt yr Heddlu, term a ddefnyddir yn gyfnewidiol â WCO
Rhaglen Gydgysylltu WRC	Rhaglen Gydgysylltu Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. Rhaglen waith a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys menter bartneriaeth rhwng Heddlu Gogledd Cymru, Heddlu Dyfed-Powys, Heddlu Gwent, Heddlu De Cymru, Llywodraeth Cymru, a budd-ddeiliaid eraill o Gymru. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i fynd i'r afael â throseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad yng Nghymru drwy wella'r cydgysylltu, cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau gorfodi'r gyfraith a budd-ddeiliaid

eraill. Defnyddir Strategaeth WRC Cymru i gyflawni nodau'r Rhaglen.

Strategaeth WRC Cymru  
Strategaeth Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru. Strategaeth wedi'i dylunio i fynd i'r afael â throseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn amlinellu'r blaenoriaethau, y nodau a'r dulliau o fynd i'r afael â throseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad a hyrwyddo ymdrechion cadwraeth mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru.

Swyddog WRC  
Swyddog Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. Hefyd yn cael ei alw'n Swyddog Troseddau Bywyd Gwyllt neu Swyddog Troseddau Cefn Gwlad. Swyddog gorfodi'r gyfraith arbenigol sy'n gyfrifol am ymchwilio, atal a chodi ymwybyddiaeth o droseddau sy'n ymwneud â bywyd gwyllt a throseddau sy'n digwydd mewn ardaloedd cefn gwlad.

Tîm WRC  
Tîm Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. Unedau arbenigol o fewn asiantaethau gorfodi'r gyfraith sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â throseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad a'u brwydro. Mae'r timau hyn yn ymroddedig i ymchwilio i droseddau sy'n ymwneud â bywyd gwyllt, adnoddau naturiol, ac sy'n digwydd mewn ardaloedd cefn gwlad.

ToC  
Theori Newid. Fframwaith sy'n mapio'r mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effaith disgwylidig Rhaglen Gydgysylltu WRC gan gynnwys drwy rôl y Cydgysylltydd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, ochr yn ochr â'r prif dybiaethau sy'n sail iddynt, a dangosyddion i gefnogi monitro cynnydd y rôl.

ToC LM  
Model Rhesymeg Theori Newid. Cynrychioliad gweledol o'r camau a'r perthnasoedd rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effaith a ddisgrifir yn y ToC.

Trosedd bywyd gwyllt  
Gweithgareddau troseddol sy'n ymwneud â masnachu anghyfreithlon, lladd, neu ecsbloetio rhywogaethau o anifeiliaid



neu blanhigion a warchodir neu sydd mewn perygl, neu eu rhannau neu gynhyrchion. Mae hyn yn cynnwys potsio, cwrso, hela, gwenwyno, masnachu mewn bywyd gwyllt, masnachu anghyfreithlon mewn cynhyrchion anifeiliaid, a dinistrio cynefinoedd.

Trosedd Cefn  
Gwlad

Gweithgareddau troseddol sy'n digwydd yng nghefn gwlad, yn hytrach nag ardaloedd metropolitan. Mae sawl ffordd o ddiffinio 'cefn gwlad', ac mae'r adroddiad hwn yn mabwysiadu dosbarthiad Ystadegau Gwladol o'r math o setliad a'r cyd-destun (Llywodraeth Cymru, 2008 – gweler Atodiad A). Mae troseddau cefn gwlad yn cyfeirio at droseddau sy'n digwydd mewn cyd-destunau gwledig (Ceccato ac Abraham 2022). Gall y rhain fod yn droseddau arferol (e.e. delio cyffuriau neu linellau cyffuriau, cam-drin domestig neu fyrgleriaeth) neu droseddau sy'n benodol i'r cyd-destun gwledig (e.e. troseddau fferm, amaethyddol, ceffylau, treftadaeth neu amgylcheddol).

WCO

Swyddog Troseddau Bywyd Gwyllt o fewn yr heddlu, gellir defnyddio'r term yn gyfnewidiol â PWCO

WRC

Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.  
Gweithgareddau troseddol sy'n digwydd mewn cyd-destunau gwledig, sy'n cynnwys unrhyw weithgaredd sy'n mynd yn groes i'r ddeddfwriaeth sy'n gwarchod cymunedau gwledig a bywyd gwyllt a'u cynefinoedd. Mae'n cwmpasu ystod eang o droseddau cyffredin (e.e. trais domestig, lladrad) a'r rhai sy'n fwy unigryw i ardaloedd gwledig (e.e. troseddau bywyd gwyllt, troseddau ceffylau, poeni da byw, tipio anghyfreithlon).


## 1. Cyflwyniad a Chefnidir

- 1.1 Yn 2021, creodd Llywodraeth Cymru (LIC, 2023) rôl Cydgysylltydd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (WRC), y gyntaf o'i fath yn y DU. Oherwydd yr effaith gadarnhaol a briodolwyd yn uniongyrchol i'r rôl yn ystod treial 12 mis estynnodd y Gweinidogion y cyllid ar gyfer y rôl yn ddiweddar tan 2025. Mae hyn yn rhan o fuddsoddiad LIC mewn adnoddau i fynd i'r afael â Throseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (WRC) ac i wella partneriaethau amlasiantaethol. Er enghraifft, hyfforddi a dyrannu swyddogion penodol o fewn asiantaethau gorfodi yng Nghymru, megis Swyddogion Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Swyddog WRC) a Thimau Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Tîm WRC).
- 1.2 Yn 2023, cyhoeddodd LIC 'Strategaeth Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru 2023-2025' (Y Strategaeth/Strategaeth WRC Cymru o hyn ymlaen), sydd â'r nod o sefydlu ymateb cynhwysfawr ac effeithlon i WRC ledled Cymru. Ffocws y Strategaeth hon yw datblygu ymhellach ymateb cydgysylltiedig ac effeithiol Cymru-gyfan i WRC, sydd wedi'i deilwra i anghenion Cymru. Ei nod yw cefnogi plismona a'i bartneriaid i atal trosedd, erlid y rhai sy'n ei gyflawni, ac amddiffyn y rhai yr effeithir arnynt fwyaf ganddo. Mae'r cymunedau, unigolion, cynefinoedd, anifeiliaid a bywyd gwyllt sydd fwyaf mewn perygl o niwed yn ganolog i'r Strategaeth hon.
- 1.3 Mae'r Strategaeth hon yn dwyn ynghyd ymdrechion partneriaid gorfodi a budd-ddeiliaid amrywiol i fynd i'r afael â'r materion sy'n cael yr effaith fwyaf ar gymunedau ac anifeiliaid cefn gwlad. I ddechrau, nododd Cydgysylltydd WRC y blaenoriaethau yng Nghymru, a gafodd eu dilysu wedyn drwy ymgynghoriadau â'r pedair ardal blismona, LIC, a budd-ddeiliaid allweddol eraill (LIC, 2023). Yn cyd-fynd â Strategaeth Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) 2022-2025 (2022), mae Strategaeth Cymru yn amlinellu amcanion strategol i'w dilyn. Mae'r rhain yn cynnwys:
- meithrin partneriaethau,
  - gwella hyfforddiant gorfodi a chyfleoedd datblygu strategol,
  - gwella cudd-wybodaeth a rhannu gwybodaeth,
  - defnyddio technoleg,
  - cydweithio â'r System Cyfiawnder Troseddol (CJS) i wella deddfwriaeth ac adrodd am droseddau,

- cynyddu ymdrechion atal trwy gyfathrebu, ymwybyddiaeth ac addysg.

1.4 Mae rôl y Cydgysylltydd yn rhan o Raglen Gydgysylltu Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Rhaglen Gydgysylltu WRC), sydd wedi'i strwythuro i wella cydweithrediad ac ymatebion i WRC ymhlith partneriaid a budd-ddeiliaid ledled Cymru. Mae Ffigur 1 yn rhoi trosolwg o'r strwythur hwn. Mae partneriaid statudol, megis yr heddlu, yn ganolog i'r Rhaglen, sy'n anelu at gefnogi strategaethau ardaloedd heddlu unigol, gwella gallu a galluoedd Swyddogion y Cyngor a Thîm y WRC, a gwneud y gorau o arfer gorau. Ymhellach, mae'r Rhaglen yn ceisio datblygu partneriaethau effeithiol rhwng partneriaid statudol a budd-ddeiliaid i gefnogi nodau'r Strategaeth. Mae budd-ddeiliaid yn cynnwys cyrff anllywodraethol, grwpiau buddiant a'r cyhoedd. Mae'r Rhaglen, er ei bod yn mynd i'r afael â'r heriau a'r anghenion penodol yng Nghymru, hefyd yn ei hanfod yn cysylltu ag asiantaethau a strategaethau troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad ehangach y DU, sy'n gweithio tuag at flaenoriaethau tebyg. Amlygir strategaethau yn Ffigur 1 mewn gwyrdd.

**Ffigur 1: Trosolwg o Raglen Gydgysylltu Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (WRC).**



1.5 Mae'r Rhaglen yn cyfrannu at nodau ehangach Llywodraeth Cymru a'u rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol sy'n helpu i ddiogelu cymunedau gwledig, anifeiliaid, a bioamrywiaeth. Mae'n alinio, er enghraifft, â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) ar gyfer cymunedau Cymreig cydlynol lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac am Gymru gydnerth sy'n gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol y gellir ei addasu i newid. Mae Rhaglen Gydgysylltu WRC yn cefnogi nodau'r Rhaglen Lywodraethu (LIC, 2021): gwneud dinasoedd, trefi a phentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt; ac i ymgorffori'r ymateb i argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wna LIC. Yn yr un modd, drwy ymateb i droseddau bywyd gwyllt, fferm ac amgylcheddol, mae'n dileu rhwystrau i adnoddau naturiol cynaliadwy ac yn sicrhau canlyniadau gwell i bobl a chymunedau, fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016). Mae Rhaglen Gydgysylltu WRC yn cefnogi darnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n ceisio mynd i'r afael yn benodol neu'n gyffredinol â llesiant anifeiliaid a chymunedau gwledig, er enghraifft:

- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Rhaglen Lywodraethu 2021
- Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006
- Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017
- Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
- Deddf Plâu 1954 a Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Amrywio) (Cymru) 2021
- Bil Amaethyddiaeth (Cymru) 2022
- Deddf Lles Anifeiliaid 2006
- Deddf Hela 2004
- Deddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953
- Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985
- Deddf Mamaliaid Gwyllt (Amddiffyn) 1996
- Deddf Dwyn 1968
- Deddf Dwyn 1978

## **Nodau ac Amcanion yr Ymchwil**

- 1.6 I ddechrau, nod yr ymchwil hwn yn fras oedd datblygu Theori Newid (a elwir o hyn allan yn ToC) a oedd yn mapio'r mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau disgwylidig rôl Cydgysylltydd WRC. Fodd bynnag, i gydnabod y nod cyffredinol i gyflwyno rhaglen waith drwy'r rôl hon, mae'r astudiaeth wedi ehangu i edrych ar Raglen Gydgysylltu WRC yn ei chyfanrwydd yn hytrach na deiliad y swydd yn benodol. Ymhellach, mae hyn yn cyfleu dibyniaeth y Rhaglen ar gyfraniad gwirfoddol partneriaid a budd-ddeiliaid i gyflawni ei nodau. Felly, cyfeirir at yr ymchwil yma ymlaen fel datblygu Theori Newid Rhaglen Gydgysylltu WRC. Cyflawnir y nod hwn drwy bedwar amcan ymchwil:
- tynnu ar ddogfennaeth bresennol sy'n ymwneud â Rhaglen Gydgysylltu WRC i ddeall y cyd-destun, y tybiaethau, a rhediad a pherfformiad blaenorol y Rhaglen,
  - penderfynu ar fewnbynnau allweddol, gweithgareddau, allbynnau, a chanlyniadau disgwylidig Rhaglen Gydgysylltu WRC i ddatblygu Model Rhesymeg drafft (ToC LM),
  - cydweithio â'r budd-ddeiliaid allweddol sy'n gyfrifol am gyflawni Rhaglen Gydgysylltu WRC i ddatblygu a thrafod y ToC LM drafft, nodi tybiaethau a metrigau sylfaenol i fonitro perfformiad yn y dyfodol,
  - datblygu ToC LM a dangosyddion i gefnogi monitro cynnydd y rhaglen gan ddefnyddio'r mewnwleidiadau a gafwyd trwy gasglu data.
- 1.7 Mae'r adran hon yn cyflwyno problem troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad a'i gorfodaeth yng Nghymru. Mae'n ystyried ymchwil ar droseddau cefn gwlad a throeddau bywyd gwyllt ar wahân yn ogystal â WRC ar y cyd – cefndir perthnasol i egluro'r rhesymeg dros, a diben yr ymchwil i ddatblygu ToC a ToC LM cysylltiedig, sy'n cefnogi datblygu, monitro a gwerthuso Rhaglen Gydgysylltu WRC yn y dyfodol.

## Ymchwil sy'n bodoli eisoes ar Droseddau Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad sy'n berthnasol i Gymru

### *Effeithiau a chostau WRC*

- 1.8 Mae troseddau bywyd gwylt a chefn gwlad yn cael effaith negyddol ar ardaloedd mawr o Gymru (Heddlu Gogledd Cymru, 2023; NFU Mutual, 2022; Y Cenhedloedd Unedig). Mae'r troseddau sy'n digwydd mewn cyd-destunau gwledig yn amrywiol; maent yn cynnwys troseddau confensiynol (e.e. byrgleriaeth, troseddau treisgar) a throseddau sy'n fwy unigryw i ardaloedd cefn gwlad, megis troseddau amaethyddol, ceffylau, amgylcheddol, treftadaeth a bywyd gwylt. Er bod nifer y troseddau mewn ardaloedd cefn gwlad fel arfer yn is nag mewn ardaloedd trefol (Adran yr Amgylchedd, Ffermio a Materion Gwledig (DEFRA, 2022), mae hefyd yn llai tebygol o gael ei ganfod, ei adrodd, a'i gofnodi'n gywir (NPCC, 2018). O ganlyniad, mae tystiolaeth yn dangos bod effaith troseddau gwledig yn cael ei thanamcangyfrif ac yn cyflwyno heriau unigryw i'r rhai sy'n ymateb iddo.
- 1.9 Yn gyd-destunol, datgelodd arolwg y Rhwydwaith Troseddau Gwledig Cenedlaethol<sup>1</sup> (2018) fod 69 y cant o ffermwyr a busnesau cefn gwlad yn benodol wedi dioddef trosedd yn ystod y 12 mis blaenorol. Canfu arolwg Troseddau Fferm a Chefn Gwlad Cymru (Norris a Morris, 2022) fod dros hanner yr ymatebwyr (55 y cant) wedi dweud eu bod wedi dioddef trosedd<sup>2</sup>. Ar ôl cwmp mewn troseddau gwledig yn y DU (y Deyrnas Unedig) yn ystod pandemig Covid-19, mae amcangyfrifon o gost troseddau cefn gwlad yn dychwelyd i lefelau cyn-bandemig. Yn seiliedig ar adroddiadau gan NFU Mutual (2023) yn unig<sup>3</sup>, costiodd troseddau gwledig yn y DU a Chymru, yn y drefn honno, £49.5m a £2.3m yn 2022. Mae'r ffigurau hyn yn cyfateb i gynnydd o 22 y cant a 73 y cant ar y flwyddyn flaenorol. Gwelodd yr Alban, yn unig, ostyngiad, gyda throseddau gwledig bron yn haneru yn 2022.
- 1.10 Nid oes data tebyg ar raddfa a chost troseddau bywyd gwylt yng Nghymru ar gael oherwydd cyfyngiadau data (gweler y drafodaeth ar gyfyngiadau data isod). Fodd bynnag, nododd adroddiad Link (2021), sy'n coladu ac yn adrodd am ddigwyddiadau troseddau bywyd gwylt a gofnodwyd gan sefydliadau anllywodraethol ac erlyniadau

<sup>1</sup> Data yn seiliedig ar ymatebwyr o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn unig.

<sup>2</sup> Roedd yr arolwg yn adeiladu ar y canfyddiadau a'r ymchwil a gynhaliwyd yn ardal Dyfed Powys yn 2020. Yn bwysig, roedd yn cipio safbwyntiau ffermwyr lleol, mentrau, a thrigolion cefn gwlad ac fe'i lluniwyd ar y cyd â'r timau heddlu gwledig a'r Cydgysylltydd.

<sup>3</sup> Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar ystadegau hawlio yswiriant NFU Mutual UK yn unig, nid ydynt yn cynnwys troseddau gwledig nad ydynt yn adroddadwy i NFU Mutual, sy'n cael eu hadrodd i yswirwyr eraill, neu'r rhai sy'n mynd heb eu canfod neu heb eu hadrodd.

ledled Cymru a Lloegr, batrymau tebyg o gynnydd mewn troseddau bywyd gwyllt yn dilyn gostyngiad yn ystod y pandemig. Mae'n anodd pennu gwerth a mesur effaith helaeth y troseddau hyn ar fywyd gwyllt, yr amgylchedd, a chymunedau. Mae adroddiadau cadwraeth yn pwysleisio effaith y dirywiad parhaus ym mywyd gwyllt a bioamrywiaeth y DU, sydd wedi golygu bod y DU yn parhau i fod yn un o'r gwledydd lleiaf bioamrywiol ledled y byd (Cenhedloedd Unedig, 2021). Arweiniodd hyn at y Senedd yn datgan 'argyfwng natur' yn 2021 ( Noebels et al., 2021).

### *Rôl partneriaethau'r heddlu gyda chymunedau a budd-ddeiliaid cefn gwlad*

- 1.11 Mae ymchwil blaenorol wedi pennu effaith troseddau gwledig ymhlith cymunedau gwledig, a adroddodd lefelau uchel o ofn trosedd a lefelau isel o ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu (Rhwydwaith Troseddau Gwledig Cenedlaethol, 2018; NFU Cymru a NFU, 2017). Dywedodd ychydig dros chwarter (27 y cant) o ymatebwyr cefn gwlad yn adroddiad y Rhwydwaith Troseddau Gwledig Cenedlaethol (2018) fod yr heddlu yn dda, o gymharu â mwy na hanner (52 y cant) o'r boblogaeth gyffredinol yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2022). Adroddwyd am ddrwgdybiaeth yn yr heddlu fel ffactor allweddol o ran troseddau gwledig yn mynd heb eu hadrodd, gan fod ymatebwyr yn teimlo nad oedd yr heddlu a'r CJS yn deall y materion nac yn ymateb yn ddigonol iddynt. Er gwaethaf y cysylltiad sefydledig rhwng troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad a throseddau trefniadol, mae llawer o droseddau'n ymwneud â dioddefwyr anifeiliaid bregus a'r amgylchedd, a all gael eu gweld yn anghywir gan asiantaethau gorfodi a chymunedau fel troseddau 'dioddefwyr' (Cenhedloedd Unedig, 2021).
- 1.12 Mae'r dystiolaeth uchod yn dangos pwysigrwydd gweithio'n agos gyda'r gymuned i feithrin ymddiriedaeth a deall materion lleol. Yn ôl yr NPCC (2018), mae ymgysylltu â chymunedau a phartneriaid gwledig yn hanfodol i wella'r ymateb a'r cudd-wybodaeth am WRC. Tynnodd Asesiad Strategol yr Uned Troseddau Bywyd Gwyllt Cenedlaethol (NWCU, 2022) sylw at waith Uned Troseddau Cefn Gwlad Heddlu Gogledd Cymru, a oedd, yn ôl pob sôn, wedi lleihau 80 y cant o'r achosion o droseddau bywyd gwyllt a adroddwyd yn lleol trwy ymgysylltu mwy â chymunedau gwledig lleol. Cydnabuwyd hefyd y defnydd o gyfryngau, cyfryngau cymdeithasol, a thechnoleg (e.e. apiau ffôn clyfar) ac ymgysylltu mewn digwyddiadau cymunedol, i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd ac annog adrodd am WRC i'r heddlu.

- 1.13 Nodwyd effaith partneriaethau heddlu-cymuned hefyd yn arolwg Troseddau Fferm a Chefn Gwlad Cymru (Norris a Morris, 2022). Er bod y canfyddiadau'n dangos gostyngiad mewn adrodd am droseddau dioddefwyr ledled Cymru, roedd hefyd yn nodi cynnydd cadarnhaol yng nghanfyddiadau'r cyhoedd o'r heddlu (yn enwedig o ran eu ffocws cynyddol ar droseddau fferm a gwledig) dros amser. Fodd bynnag, roedd y canfyddiadau'n adleisio pryder sylweddol a nodwyd mewn astudiaethau eraill (Cenhedloedd Unedig, 2021) ynghylch y diffyg gweithredu canfyddedig yn arwain at erlyniadau ac euogfarnau WRC.
- 1.14 Awgrymwyd partneriaethau aml-asiantaeth a dulliau aml-strategaeth i atal ac ymchwilio i droseddau bywyd gwyllt hefyd mewn ymchwil gan yr NWCU (2017 a 2022). Roedd strategaeth NWCU yn argymhell cydweithredu â budd-ddeiliad trwy Grwpiau Cyflawni'r Flaenoriaeth (PDGs), gweithgorau a gweithrediadau cenedlaethol. Pwysleisiodd eu hymchwil yr angen am ddull partneriaeth gydgyssylltiedig rhwng cyrff statudol ac anstatudol yng Nghymru. Felly, mae cydweithio â budd-ddeiliaid a phartneriaid ledled Cymru a'r DU yn ganolog i ddiogelu, atal a lleihau WRC. At hynny, mae asiantaethau gorfodi a phartneriaid y DU, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi cydnabod nodweddion cyffredin mewn troseddau bywyd gwyllt a gwledig ac, o ganlyniad, y manteision o uno eu hymatebion i'r troseddau hyn (NPCC, 2022; NFU Cymru ac NFU, 2017).

*Hyfforddiant gorfodi a gofynion gwybodaeth i gefnogi mynd i'r afael â WRC*

- 1.15 Mae llawer o flaenoriaethau cystadleuol ar gyfer yr heddlu a'u partneriaid. Roedd ymchwil NWCU (2017) yn cydnabod effaith cyfyngiadau ariannol a blaenoriaethau croes ar allu WCOs (Swyddogion Troseddau Bywyd Gwyllt) i ddod o hyd i ddigon o amser i ymateb i ddigwyddiadau troseddau bywyd gwyllt. Canfuwyd bod swyddogion yn aml yn cyflawni eu dyletswyddau gorfodi bywyd gwyllt yn ychwanegol at eu swydd amser llawn o fewn yr heddlu, ac yn aml yn cael eu penodi heb fawr o ddealltwriaeth o droseddau bywyd gwyllt. Roedd hyn yn effeithio ar allu swyddogion i ymdrin â throeddau bywyd gwyllt ac arweiniodd at drosiant staff uchel yn y rolau hyn. Yn ei dro, arweiniodd y diffyg parhad at ddweud wrth fudd-ddeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, nad oedd digwyddiadau troseddau bywyd gwyllt yn fater i'r heddlu, gan leihau hyder yn y dull gorfodi.



1.16 Fel y gwelwyd yn adroddiad y Cenhedloedd Unedig (2021), mae ymateb i droseddau bywyd gwyllt yn gofyn am hyfforddiant a sgiliau penodol, ond hefyd gallu economaidd a sefydliadol sy'n galluogi asiantaethau gorfodi i gwmpasu ardaloedd daearyddol mawr. Galwodd Asesiad Strategol NWCU (2022) ac ymchwil (2017) am gyrsiau achrededig cenedlaethol cyson, pecynnau ymwybyddiaeth troseddau bywyd gwyllt ar gyfer gweithwyr prawf a hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar gyfer y rhai sy'n delio â galwadau'r heddlu a staff yr ystafell reoli.

### *Cyfyngiadau gyda data WRC*

- 1.17 Mae cyfyngiadau data gweinyddol (a gesglir gan gyrff statudol, gan gynnwys y CJS) ar WRC wedi'u cofnodi'n dda mewn ymchwil sy'n bodoli eisoes (Cenhedloedd Unedig, 2021; NWCU, 2022; NPCC, 2022). Mae data cywir ar nifer yr achosion a natur y troseddau hyn yn cael ei rwystro gan: y nifer cyfyngedig o droseddau bywyd gwyllt sy'n gofnodadwy ac yn hysbysadwy<sup>4</sup>, cyfraddau canfod ac adrodd isel am droseddau, manylder data cyfyngedig yn y data a gofnodwyd, troseddau yn cael eu colli o fewn ystadegau troseddau cyffredin, arferion cofnodi a dadansoddi gwahanol rhwng gwahanol ardaloedd heddlu, arferion cofnodi ac adrodd gwael ac anghydnaws ymhlith cyrff statudol ac asiantaethau cyfiawnder troseddol<sup>5</sup>, a hygyrchedd data a chronfeydd data i'w dadansoddi. Mae ymchwil yn aml yn troi at ddata cyrff anllywodraethol<sup>6</sup> neu fusnesau i ddarparu cofnod mwy cyflawn o ddigwyddiadau, fodd bynnag, cwestiynwyd cywirdeb a defnyddioldeb y data hyn i gyrff statudol, ac mae rhwystrau i rannu data yn effeithiol (Cenhedloedd Unedig, 2021).
- 1.18 Mewn ymateb i'r heriau hyn, argymhellodd ymchwil presennol ar droseddau bywyd gwyllt y dylid gwneud troseddau bywyd gwyllt yn gofnodadwy ac yn hysbysadwy, hyfforddiant i sicrhau cysondeb wrth adrodd a chofnodi'r troseddau hyn, datblygu cronfa ddata ganolog a phwrpasol ar gyfer troseddau bywyd gwyllt, gosod cyfrifoldebau cyfreithiol ar gyrff statudol i gofnodi ac adrodd yn flynyddol ar

---

<sup>4</sup> Mae gan drosedd statws hysbysadwy pan fo'n rhaid i'r heddlu hysbysu'r Swyddfa Gartref am ddigwyddiadau a gofnodwyd trwy lenwi ffurflen adrodd am drosedd at ddibenion ystadegol. Nid yw troseddau a ddiffinnir fel mân (e.e. nid yw'n dod gyda dedfryd o garchar) yn cael eu cofnodi ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Mae rhestr fer a luniwyd gan yr NWCU a Link (2021) yn awgrymu 24 o droseddau bywyd gwyllt cychwynnol y dylid eu gwneud yn hysbysadwy [Shortlist of wildlife crimes to be made notifiable 18.02.21.pdf \(wcl.org.uk\)](#).

<sup>5</sup> Er enghraifft, gallai cynigion sydd gerbron Llywodraeth yr Alban, i ymestyn pwerau presennol SPCA yr Alban i ymchwilio i droseddau bywyd gwyllt (Llywodraeth yr Alban 2023), gael effaith sylweddol ar ganfod troseddau bywyd gwyllt a data troseddau dilynol yn yr Alban, o gymharu â Chymru.

<sup>6</sup> Mae nifer sylweddol o droseddau yn ymwneud â bywyd gwyllt yn cael eu gorfodi gan gyrff anllywodraethol yng Nghymru a Lloegr

ddigwyddiadau a chanlyniadau, gwell rhannu data a chudd-wybodaeth trwy 'Gytundebau Rhannu Gwybodaeth'.

### *Ymchwil blaenorol ar Gydgysylltydd a Strategaeth WRC*

- 1.19 Ym mis Rhagfyr 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru a Chydgysylltydd WRC ymgynghoriad wedi'i dargedu â budd-ddeiliad i lywio Strategaeth WRC Cymru 2023-2025 (LIC, 2023). Roedd hyn yn cynnwys adborth gan swyddogion heddlu WRC, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, sefydliadau statudol, a chyrrff anllywodraethol sy'n cynrychioli dioddefwyr troseddau ac yn gwarchod bywyd gwyllt, anifeiliaid eraill a'r amgylchedd.
- 1.20 Canfu adroddiad ymgysylltu LIC (2023) fod naw deg y cant o'r ymatebwyr yn cydnabod y manteision uniongyrchol a'r manteision sy'n deillio o rôl y Cydgysylltydd. Roedd tri chwarter yr ymatebwyr yn cydnabod yn uniongyrchol effaith gadarnhaol rôl Cydgysylltydd WRC o ran meithrin gwell perthnasoedd ymhlith budd-ddeiliaid WRC. Soniodd mwyafrif yr ymatebwyr am rywfaint o ryngweithio â'u Swyddogion Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad lleol, ond mynegwyd awydd hefyd am fwy o ymgysylltu.
- 1.21 Datgelodd yr adroddiad ymgynghori hefyd fod holl dimau'r heddlu wedi defnyddio'r amryw gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd yn ystod 18 mis cychwynol Rhaglen Gydgysylltu'r WRC, ac roedd y rhain wedi codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd WRC ymhlith yr heddlu yng Nghymru.
- 1.22 O ran data cywir a hygyrch ar WRC, datgelodd adroddiad ymgynghori Llywodraeth Cymru nad oedd gan yr holl fudd-ddeiliaid a arolygwyd ddata yn ymwneud â WRC. Fodd bynnag, mynegodd llawer (62 y cant) a wnaeth, barodrwydd i'w rannu o fewn ffiniau arferion rhannu data cyfrifol. Mae'r anghysondeb o ran cofnodi data ac argaeledd wedi'i nodi fel pryder sylweddol, yn bennaf oherwydd ei fod yn rhwystro asesiad cywir o wir raddfa ac effaith gweithgareddau troseddol mewn ardaloedd gwledig, a'r adnoddau sydd eu hangen i'w hatal (LIC, 2023).
- 1.23 I grynhoi, mae ymchwil bresennol yn tynnu sylw at yr heriau a'r cyfleoedd wrth ymateb i WRC yng Nghymru. Yn amlwg, ni all Llywodraeth Cymru ac asiantaethau statudol fynd i'r afael â'r rhain ar eu pen eu hunain. Mae'r llenyddiaeth yn cefnogi'r angen am gydgysylltydd penodedig (Cydgyssylltydd WRC) a rhaglen waith (Rhaglen Gydgysylltu WRC) sy'n hwyluso cydweithredu, rhannu data ac adnoddau ar draws

asiantaethau gorfodi, partneriaid statudol a budd-ddeiliaid. At hynny, mae'n dangos bod ymateb effeithiol a chynaliadwy yn golygu bod angen mwy o gapasiti a sgiliau ac ymgysylltu â budd-ddeiliad. Er mwyn cefnogi datblygiad, monitro a gwerthuso'r Rhaglen a rôl y Cydgysylltydd yn y dyfodol, nodwyd yr angen am ToC gan LIC.

### **Trosolwg o'r Adroddiad**

- 1.24 Mae'r adroddiad nawr yn amlinellu'r fethodoleg sy'n sail i'r ymchwil, gan egluro cwmpas a ffocws y ToC yn Adran dau. Mae adran tri yn archwilio canfyddiadau'r ymchwil, gan gyflwyno'r ToC a'r ToC LM cysylltiedig, a'r cyd-destun, y rhesymeg a'r rhagdybiaethau sylfaenol yn ei ddatblygiad. Mae adran pedwar yn rhoi crynodeb cloi o ganfyddiadau'r ymchwil, ac yna'r argymhellion allweddol yn Adran pump.

## 2. Methodoleg

- 2.1 Mae'r adran hon yn rhoi manylion y fethodoleg ymchwil. Mae hyn yn cynnwys egluro cwmpas y Theori Newid (ToC), manylu ar y casgliad data empirig a dadansoddi cynnwys y ddogfen a ddefnyddiwyd i hysbysu'r ToC, rheoli moeseg a data a chyfyngiadau methodolegol.
- 2.2 Mabwysiadodd yr ymchwil strategaeth ymchwil dull cymysg ansoddol i gyflawni'r nod a'r amcanion a nodir uchod. Daeth y dull dull cymysg â ffynonellau data lluosog (h.y. triongli methodolegol) ynghyd i wella dilysrwydd a hygrededd y canfyddiadau (Copes a Miller, 2015). Roedd y strategaeth ymchwil yn ystyried yr amserlen fer a'r adnoddau sydd ar gael i ymgysylltu â budd-ddeiliaid. Roedd dull ansoddol yn bennaf yn galluogi dealltwriaeth fanwl o gyd-destun diwylliannol ac unigol ehangach y rhaglen ac i archwilio'r tybiaethau sy'n sail i safbwyntiau budd-ddeiliad ar fewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau'r Rhaglen Gydgysylltu ar gyfer troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad (WRC) (Wincup, 2017). Roedd y strategaeth ymchwil yn cynnwys (1) dadansoddiadau cynnwys o ddogfennaeth bresennol y Rhaglen; a (2) ymchwil ansoddol empirig gydag ugain o fudd-ddeiliaid allweddol ar ffurf un cyfweiliad a thri grŵp ffocws. Amlinellir y dulliau dan sylw isod ac maent yn gysylltiedig â'r amcanion allweddol a nodwyd.


### Theori Newid (ToC)

- 2.3 Roedd datblygu Model Rhesymeg Theori Newid (ToC LM) yn ganolog i fethodoleg yr ymchwil. Pwrpas ToC yw datblygu disgrifiad a darluniad cynhwysfawr o sut a pham y disgwylir i newid dymunol ddigwydd mewn cyd-destun ac ymyriad penodol. Mae'n nodi'n glir y gweithgareddau, yr amodau a'r rhagdybiaethau sydd eu hangen i alluogi newid trwy fynegi'r broses newid o fewn ymyriad i gyflawni ei allbynnau a'i ganlyniadau.
- 2.4 Mae ToC yn ddeinamig, a bwriedir eu haddasu drwy gydol y broses casglu a dadansoddi data. Roedd datblygu'r ToC yn broses ailadroddol, a oedd yn gofyn yn gyntaf am ymgynghori â'r rhai a hysbysodd a gweithredu datblygiad y Rhaglen (cyfweiliad a grŵp ffocws un) ac yn ail am ymgynghori â budd-ddeiliaid allweddol ar ToC ddrafft (grwpiau ffocws dau a thri) i adlewyrchu ar sut y gallai'r Rhaglen achosi newid. Mae ymgysylltu ag aelodau o'r tîm gweithredu a budd-ddeiliaid allweddol, yn

gynnar yn natblygiad y rhaglen, yn gyson ag arfer gorau wrth ddatblygu ToC (De Silva a Lee, nd).

2.5 Mae'r ToC LM yn darlunio cydrannau rhaglen yn graffigol ac yn rhoi cipolwg ar sut y bydd yr ymyriad ToC yn cyflawni ei nodau. Mae'r ToC yn cefnogi'r Model Rhesymeg trwy gysylltu canlyniadau a gweithgareddau, i egluro sut a pham y disgwylir i'r newid a ddymunir ddigwydd. Mae Ffigur 2 yn manylu ar y broses ToC a fabwysiadwyd gyda chyfranogwyr<sup>7</sup> y grwpiau ffocws i egluro sut roedd y ToC yn gweithio a sut y gellid ei gymhwyso i Raglen Gydgysylltu WRC.

**Ffigur 2: Enghraifft o Ddiagram Model Rhesymeg Theori Newid a ddefnyddir mewn Grwpiau Ffocws**



<sup>7</sup> Mae ToC fel arfer yn gweithio o Fewnbnw i Ganlyniadau yn unol â Ffigur 3, fodd bynnag, cafodd y gorchymyn hwn ei wrthdroi i hwyluso trafodaethau mewn grwpiau ffocws.

## **Dadansoddiad cynnwys o ddogfennaeth bresennol**

2.6 Er mwyn mynd i'r afael â dau amcan cyntaf y prosiect, dechreuodd yr ymchwiler drwy adolygu dogfennaeth strategol ac allbynnau o Raglen Gydgysylltu WRC trwy ddadansoddi cynnwys<sup>8</sup>. Roedd y dogfennau'n cynnwys yr holl ddogfennau cyfredol a hanesyddol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) a'r Cydgysylltydd fel rhai sy'n darparu cyd-destun ar gyfer datblygu rôl y Rhaglen a'r Cydgysylltydd, a gweithgareddau ac allbynnau cyfredol. Darparodd y dadansoddiad hwn fewnwelediad i berthnasedd a chadernid y rhagdybiaethau a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu Rhaglen Gydgysylltu'r WRC, ac i asesu'r rhesymeg. Llwythwyd dau ddeg pedwar dogfen yn ymwneud â Rhaglen Gydgysylltu WRC i NVIVO 12 i'w dadansoddi. Roedd y cynllun codio'n cynnwys dadansoddi'r data ar gyfer y themâu canlynol: diffiniad, natur a ffocws y rhaglen, mewnbynnau Rhaglen Gydgysylltu WRC presennol a disgwylidig, gweithgareddau, allbynnau, a chanlyniadau, ac argaeledd data i werthuso a chefnogi'r rhaglen. Defnyddiwyd y canfyddiadau i ffurfio amserlenni casglu data, a thrawswirio data o'r cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws.

## **Ymchwiler empirig gyda budd-ddeiliaid allweddol**

2.7 Er mwyn mynd i'r afael ag Amcanion Dau, Tri a Phedwar y prosiect, roedd yn hanfodol casglu data (empirig) newydd. Roedd hyn yn cynnwys cyfweiliad ansoddol lled-strwythuredig a thri grŵp ffocws, a gafodd eu recordio a'u trawsgrifio'n broffesiynol ar gyfer dadansoddiad thematig yn NVIVO 12.

### *Cyfweiliad ansoddol lled-strwythuredig gyda Chydgysylltydd WRC*

2.8 Crybwyllwyd profiad Cydgysylltydd WRC o ddatblygu ei rôl a dealltwriaeth o nodau allweddol, heriau, cyflawniadau, a chyfeiriad y rôl yn y dyfodol yn y cyfweiliad. Roedd yn bwysig nodi cymhlethdod profiad a chanfyddiadau'r Cydgysylltydd yn uniongyrchol, nad oedd yn bosibl mewn lleoliad grŵp ffocws. Ehangodd y cyfweiliad y data a gasglwyd yn y dadansoddiad o'r cynnwys a'i roi yn ei gyd-destun a llywiodd

---

<sup>8</sup> Defnyddir dadansoddi cynnwys i nodi a dadansoddi patrymau a dehongli ystyr o ddogfennau a chyfryngau cyfathrebu eraill (Bryman, 2021; Braun a Clarke, 2006).

amserlenni'r grwpiau ffocws a'r sampl o recriwtio cyfranogwyr. Cynhaliwyd y cyfweiliad ar-lein ar Microsoft Teams.

### *Grwpiau ffocws*

- 2.9 Cynhaliodd y tîm ymchwil dri grŵp ffocws, yn cynnwys ugain o gyfranogwyr o boblogaeth o 65 o unigolion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a Chydgysylltydd WRC fel budd-ddeiliaid yn y Rhaglen. Wrth samplu'r <sup>9</sup>boblogaeth hon yn bwrpasol, nodwyd budd-ddeiliaid a oedd yn cynrychioli amrywiaeth o safbwyntiau, rolau, sefydliadau a rhanbarthau, a'r materion amrywiol yn ymwneud â'r ddau WRC. Casglodd y grwpiau ffocws ddata ansoddol cyfoethog ar ddealltwriaeth budd-ddeiliaid o Raglen Gydgysylltu WRC, ymgysylltu â hi a'u disgwyliadau ohoni, a sut y gellid mapio'r rhain i'r ToC. Pennwyd niferoedd y grwpiau ffocws i rhwng chwech a naw o gyfranogwyr er mwyn sicrhau y byddai amrywiaeth o safbwyntiau'n cael eu clywed, tra hefyd yn caniatáu trafodaeth fanwl ar y Rhaglen a'r ToC o fewn grŵp ffocws dwy awr.
- 2.10 Er bod canllawiau pwnc wedi'u datblygu ar gyfer pob grŵp ffocws ymlaen llaw i sicrhau bod y materion allweddol yn cael eu hystyried, roedd y dull hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd angenrheidiol i gyfranogwyr amlygu ac ehangu ar faterion sy'n bwysig iddynt. Pwysleisiodd pob grŵp wahanol bynciau yn unol â'u rôl, eu profiadau, eu diddordebau a'u blaenoriaethau. Roedd y fformat hwn yn hwyluso datblygiad ToC a oedd yn gynhwysol, ac yn gytbwys wrth ystyried blaenoriaethau cystadleuol y grŵp amrywiol o fudd-ddeiliad. Cyfarwyddwyd y cyfranogwyr i ganolbwyntio ar Raglen Gydgysylltu WRC yn hytrach na deiliad rôl y Cydgysylltydd. Roedd hyn yn cydnabod y rhaglen waith ehangach sydd ar waith a'r rôl ganolog sydd gan bartneriaid a budd-ddeiliaid wrth gyflawni'r rhaglen.
- 2.11 Mae Tabl 1 yn rhoi trosolwg o'r dulliau ymchwil a'r sampl a gyflawnwyd, ac yn cysylltu'r rhain ag amcanion yr ymchwil. Y sail resymegol dros wahanu cyfranogwyr gorfodi a chyfranogwyr nad oeddent yn ymwneud â gorfodi oedd hwyluso ymgysylltiad agored a meithrin trafodaethau effeithiol â ffocws. Er y nodwyd bod grŵp ffocws ar-lein yn well ar gyfer cyfranogwyr gorfodi er mwyn osgoi amharu ar eu dyletswyddau, trefnwyd grŵp ffocws wyneb yn wyneb ar gyfer budd-ddeiliaid nad

---

<sup>9</sup> Mae samplu bwriadol yn ddull samplu nad yw'n debygolrwydd sy'n targedu grŵp penodol o gyfranogwyr yn seiliedig ar nodweddion penodol. Yn yr achos hwn, defnyddiwyd dull heterogenaidd i ddethol cyfranogwyr â nodweddion amrywiol i gynrychioli'r amrywiaeth o randdeiliaid a ymatebodd i WRC.

ydynt yn ymwneud â gorfodi. Er mwyn hwyluso cyfranogiad, gwahoddwyd budd-ddeiliaid nad oeddent yn ymwneud â gorfodi a fynychodd gynhadledd flynyddol WRC i gymryd rhan yn y grŵp ffocws ar ôl y digwyddiad.

**Tabl 1: Crynodeb o Ddulliau, Sampl a Gyflawnwyd ac Amcanion**

Dull	Poblogaeth	Sampl	Llinell Amser	Amcan Ymchwil
Dadansoddi cynnwys	Dogfennau presennol Rhaglen Gydgysylltu WRC	24 ffynhonnell	Chwefror	Un, dau
Cyfweliad lled-strwythuredig	Deiliad rôl Cydgysylltydd WRC	Un	Mawrth	Dau, tri, pedwar
Grŵp ffocws un (ar-lein)	Budd-ddeiliaidd Llywodraeth Cymru <i>Yn cynnwys: Cydgysylltydd WRC a gweithwyr LIC sy'n gyfrifol am weithredu'r Rhaglen</i>	Pump	Mawrth	Dau, tri, pedwar
Grŵp ffocws dau (wyneb yn wyneb)	Budd-ddeiliaid nad ydynt yn ymwneud â gorfodi <i>Yn cynnwys: mudiadau trydydd sector a chyrrff anllywodraethol sy'n cynrychioli'r gymuned ffermio, dioddefwyr troseddau a chymorth iechyd meddwl a'r rhai sy'n ymateb i droseddau morol, bywyd gwyllt, treftadaeth ac amgylcheddol</i>	Naw	Ebrill	Dau, tri, pedwar
Grŵp ffocws tri (ar-lein)	Budd-ddeiliaid gorfodi <i>Yn cynnwys: ardaloedd heddlu Cymru ac asiantaethau gorfodi sydd â chylch gwaith ehangach yn y DU</i>	Chwech	Ebrill	Dau, tri, pedwar



## **Moeseq a Rheoli Data**

- 2.12 Dilynwyd yr egwyddorion a amlinellwyd yng nghanllawiau moeseq y Gymdeithas Ymchwil Gymdeithasol (2021) ac arweiniad proffesiynol GSR (Ymchwil Cymdeithasol y Llywodraeth, 2021). Rhoddwyd gwybodaeth i'r cyfranogwyr am ddiben y gwaith a sut y byddai eu data'n cael ei gadw. Defnyddiwyd data dienw yn yr adroddiad hwn a dim ond y sefydliad, y sector ehangach neu rolau swyddi cyfranogwyr ymchwil sydd wedi'u cynnwys er mwyn osgoi nodi cyfranogwyr. Gwnaethpwyd y penderfyniad hwn gan fod llawer o fudd-ddeiliaid mewn perygl o gael eu hadnabod trwy gyfuniad o'u sefydliad, rôl swydd a'r wybodaeth eu bod yn gweithio'n agos gyda Chydgyssylltydd WRC.

## **Cyfyngiadau'r Ymchwil**

- 2.13 Er gwaethaf y fethodoleg gadarn a roddwyd ar waith, mae cyfyngiadau ar yr ymchwil, gan gynnwys y derminoleg a ddefnyddir, ymgysylltu â budd-ddeiliad ac adnoddau. Yn ystod y grwpiau ffocws, daeth yn amlwg bod terminoleg, megis Rhaglen Gydgyssylltu WRC, yn ddryslyd i rai cyfranogwyr (gweler Canfyddiadau – Cyd-destun). Hynny yw, nid oedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn deall yn benodol yr hyn yr oedd y Rhaglen yn ei gwmpasu. Anogodd hyn drafodaethau hir a phwysig yn y grwpiau ffocws, ond yn dilyn hynny, roedd llai o amser yn weddill i drafod agweddau eraill ar y ToC. Yn ystod y cyfnod casglu data, rhyddhawyd y Strategaeth, a oedd yn golygu bod rhai budd-ddeiliaid wedi mynegi barn a hysbyswyd gan y datblygiad hwn, tra nad oedd eraill yn gwneud hynny.
- 2.14 Roedd yr ymchwil yn rhoi blaenoriaeth i ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid a oedd â dealltwriaeth a gwybodaeth fanwl am WRC ac ymatebion yng Nghymru a'r DU. Mae'r Strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â chymunedau gwledig, fodd bynnag, nid oedd o fewn cwmpas y prosiect i gynnwys y cymunedau hyn yn yr ymchwil. Byddai ymchwil yn y dyfodol (h.y. gwerthuso Rhaglen) yn elwa o gasglu safbwyntiau cymunedau gwledig.
- 2.15 Nid oedd yr holl fudd-ddeiliaid a oedd â diddordeb yn yr ymchwil yn gallu cymryd rhan, oherwydd cyfyngiadau sampl grŵp ffocws a chyfyngiadau rôl. Er enghraifft,

mynegodd rhai budd-ddeiliaid gorfodi ddi-ddordeb ond ni allent fynychu'r gweithdy a drefnwyd. Gan fod y ToC yn fodel ailadroddol, mae'r tîm ymchwil yn awgrymu chwilio am gyfleoedd pellach ar gyfer mewnbwn budd-ddeiliad trwy grwpiau ffocws ychwanegol.

- 2.16 Er bod ymchwil yn nodi y gall grwpiau ffocws ar-lein ac wyneb yn wyneb gynhyrchu data o'r un ansawdd, mae manteision i ymgysylltu wyneb yn wyneb (Bozkurt, 2018). Yn yr ymchwil hwn, roedd manteision defnyddio dulliau ar-lein (e.e. llai o amser i fudd-ddeiliaid i ffwrdd o'r gwaith) yn drech na'r manteision posibl (e.e. defnyddio cyfathrebu di-eiriau, gwell deinameg grŵp). Serch hynny, gydag adnoddau ychwanegol gallai'r prosiect fod wedi elwa o ymgysylltu personol pellach.

### 3. Canfyddiadau

- 3.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r canfyddiadau sy'n deillio o ddadansoddiad thematig o ddogfennau'r Rhaglen a data cyfweiliadau a grwpiau ffocws. Caiff y canfyddiadau hyn eu llywio'n llwyr gan y dadansoddiad data sy'n deillio o'r ymchwil hwn. Ceir trafodaeth bellach ar sut mae'r rhain yn berthnasol i'r cyd-destun a'r llenyddiaeth ehangach yn yr adran olaf.
- 3.2 Cafwyd trafodaeth yn gyntaf ar y diffiniad o Raglen Gydgysylltu Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (WRC) a WRC i egluro ffocws y Theori Newid (ToC). Dilynir hyn gan werthusiad o'r rhwystrau i gyflawni canlyniadau Rhaglen Gydgysylltu WRC. Yna caiff y ToC ei gyflwyno'n weledol fel Model Rhesymeg (ToC LM), ac archwilir pob adran yn ei thro, gan ddechrau gyda'r canlyniadau. Yna archwilir y risgiau a'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r ToC. Mae'n werth nodi bod rhai themâu yn gyffredin ar draws yr adran hon (e.e. cyfyngiadau data troseddau).
- 3.3 Cyflwynir dyfyniadau o'r data yma i ddangos tystiolaeth o'r drafodaeth, gyda dynodwyr yn gysylltiedig â'r cyfranogwyr perthnasol. Mae'r cyfranogwyr yn cael eu hadnabod yn ôl eu sector a/neu rôl fel a ganlyn: budd-ddeiliad Llywodraeth Cymru (LIC) (yn gysylltiedig â chyfweiliad un a grŵp ffocws un), budd-ddeiliad gorfodi'r DU neu Gymru (yn gysylltiedig â grŵp ffocws dau) a'r math o fudd-ddeiliad nad yw'n ymwneud â gorfodi (yn gysylltiedig â grŵp ffocws tri). Cyfeirir at ddogfennau yn ôl eu teitl a'u dyddiad (e.e. Cydgysylltydd Troseddau Cefn Gwlad Cymru, 2022).
- 3.4 Defnyddir y term 'cyfranogwr/cyfranogwyr' i nodi data o'r un cyfweiliad a'r tri grŵp ffocws er symlrwydd.<sup>10</sup> Pan fynegir y farn gan un neu ychydig o unigolion, caiff hyn ei egluro.

#### **Cyd-destun**

- 3.5 Nodwyd pedwar is-gategori cyd-destun wrth ddatblygu'r ToC, mae'r rhain yn cyfeirio at yr heriau o ddiffinio cylch gwaith Rhaglen Gydgysylltu'r WRC, rhwystrau i gapasiti polisi a Rhaglen, rhwystrau i bobl a phrosesau, a rhwystrau i adnoddau a data. Mae'r canfyddiadau'n dangos y ffactorau mewnol ac allanol sy'n dylanwadu ar ddatblygiad y Rhaglen a amlygwyd mewn dogfennau a chan gyfranogwyr.

---

<sup>10</sup> Bydd dyfyniadau sy'n ymwneud â'r dulliau gwahanol hyn yn dal i fod yn amlwg yn y dynodwyr a ddarperir.

### *Diffinio cylch gwaith Rhaglen Gydgysylltu WRC*

- 3.6 Wrth i rôl y Cydgysylltydd ehangu gyda datblygiad Strategaeth ffurfiol a rhwydwaith o fudd-ddeiliaid sy'n tyfu'n gyflym, mae'r ymateb i WRC wedi'i fframio gan LIC fel rhaglen waith (Rhaglen Gydgysylltu WRC). Cefnogwyd nod strategol trosfwaol Strategaeth WRC Cymru gan yr holl gyfranogwyr ymchwil a oedd yn gyfarwydd â rôl Cydgysylltydd WRC a'r rhai a gyflwynwyd yn ddiweddar i'r Strategaeth. Bu lansio'r Strategaeth (LIC, 2023) yn gymorth i fynegi ffocws y Rhaglen fel hybu datblygiad ymateb cydgysylltiedig ac effeithiol i Gymru gyfan i WRC. Mae'r Rhaglen wedi'i theilwra'n benodol i anghenion Cymru; cefnogi'r heddlu a'u partneriaid i atal trosedd, erlid y rhai sy'n ei gyflawni, ac amddiffyn y rhai yr effeithir arnynt fwyaf ganddo. Roedd hefyd yn canolbwyntio'n ganolog ar y cymunedau, unigolion, cynefinoedd a bywyd gwyllt sydd fwyaf mewn perygl o niwed.
- 3.7 Ar y cyfan, roedd diffyg eglurder ynghylch cylch gwaith, gweledigaeth a phwrpas Rhaglen Gydgysylltu WRC yn ôl y rhan fwyaf o gyfranogwyr (gan gynnwys swyddogion y llywodraeth a gorfodi). Roedd yn ymddangos bod dryswch y cyfranogwr yn gysylltiedig ag ehangiad cyflym y Rhaglen a newidiadau i rôl a gweithgareddau Cydgysylltydd WRC, ynghyd â'r derminoleg newidiol a ddefnyddiwyd (e.e. 'cydgysylltydd heddlu bywyd gwyllt a chefn gwlad Cymru', 'Cydllynydd troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad Cymru', 'Cydgysylltydd WRC'). O ganlyniad, mae'r ToC yn rhan o'r broses o egluro ffocws a nodau'r Rhaglen. Cydnabu'r cyfranogwyr a fu'n ymwneud â gweithredu'r Rhaglen mai cylch gorchwyl cyffredinol Rhaglen Gydgysylltu'r WRC i ddechrau oedd datblygu ymateb gorfodi mwy cydgysylltiedig a gwybodus i WRC drwy ddatblygu rôl Cydgysylltydd a Strategaeth. Ac eto, fel y daeth un cyfranogwr i'r casgliad, gyda mewnbwn Cydgysylltydd WRC, mae hyn wedi ehangu'n sylweddol yn y flwyddyn beilot:
- “Ac yn ganolog iddo [Rhaglen Gydgysylltu WRC] mae'r timau troseddau gwledig a'r hyfforddiant. Mae hynny'n ganolog oherwydd dyna oedd ei angen arnom, rhywun i gydgysylltu hynny i gyd, ond yr holl ychwanegion hyn, nid oeddem yn gwybod beth yr oeddem ei eisiau, ond roeddem yn gwybod ein bod am gael rhywun ag arbenigedd i'n harwain yn yr hyn sy'n ofynnol” (budd-ddeiliad LIC).
- 3.8 Er bod cylch gorchwyl trosfwaol y Rhaglen i ganolbwyntio ar fywyd gwyllt a throseddau gwledig gyda'i gilydd eisoes wedi'i sefydlu a bod y cyfranogwyr yn ei ddeall, cwestiynwyd y penderfyniad hwn gan rai. Er gwaethaf cydnabod gorgyffwrdd rhwng y troseddau hyn, nododd rhai cyfranogwyr fod cyfuno'r ymateb yn golygu na

fyddai pob math o drosedd yn cael yr un sylw, gyda throseddau gwledig yn cael eu blaenoriaethu dros fywyd gwyllt neu i'r gwrthwyneb. Nododd un cyfranogwr gorfodi yn y DU fod bywyd gwyllt yn aml mewn partneriaeth â throseddau amgylcheddol a chadwraeth mewn gwledydd eraill, a hynny'n llwyddiannus.

- 3.9 Nodwyd materion hefyd gyda diffiniad WRC a'r mathau o droseddau y dylai'r Rhaglen eu cwmpasu. Roedd y cyfranogwyr yn dadlau bod troseddau bywyd gwyllt yn haws i'w diffinio na throseddau gwledig, a dywedwyd eu bod wedi'u diffinio'n eang ac yn amrywiol. Nid oedd troseddau treftadaeth, er enghraifft, yn cyd-fynd yn daclus gydag un cyfranogwr arbenigol yn dweud ei fod mor gyffredin mewn ardaloedd trefol ag ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, cydnabuwyd ei bod yn bwysig ei chynnwys yng nghylch gorchwyl y WRC gan na fyddai'r heddlu yn mynd i'r afael ag ef fel arall. Yn fwy cyffredinol, cwestiynodd y cyfranogwyr a oedd troseddau cyffredin, megis trais domestig, wedi'u cynnwys yn niffiniad y WRC a blaenoriaethau'r Strategaeth (gweler blaenoriaethau Strategaeth WRC Cymru isod). Nododd y cyfranogwyr nad ydynt yn ymwneud â gorfodi a'r rhai sy'n ymwneud â gorfodi ei bod yn ofynnol i bob ardal heddlu ymateb i droseddau prif ffrwd<sup>11</sup>. Er bod budd-ddeiliaid LIC a'r Strategaeth<sup>12</sup> yn cydnabod bod angen i gymunedau gwledig dderbyn ymateb effeithiol i droseddau arferol, nid oedd yn glir i gyfranogwyr eraill pam y byddai Swyddog WRC yn arwain neu'n blaenoriaethu'r ymateb hwn. Yn ei hanfod, rhybuddiodd cyfranogwyr yn erbyn defnyddio diffiniad 'cyffredin' gan fod cylch gwaith Swyddogion Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Swyddogion WRC) eisoes yn sylweddol, o ystyried yr amrywiaeth o droseddau sy'n unigryw i WRC a'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i ymateb iddynt.
- 3.10 Fel rhan o'r trafodaethau diffiniad hyn, cwestiynwyd y rhesymeg dros gynnwys gwahanol fathau o droseddau ym meysydd blaenoriaeth y WRC a nodir yn y Strategaeth gan rai hefyd. Mae'r meysydd blaenoriaeth hyn yn dylanwadu'n uniongyrchol ar weithgareddau a ffocws y Rhaglen. Cafodd Strategaeth WRC Cymru ei llywio gan asesiad risg a oedd yn cynnwys adborth o ymgynghoriadau budd-ddeiliad, data ymchwil i droseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad a strategaeth NPCC. Roedd mwyafrif yr adborth o'r ymgynghoriad yn nodi bod budd-ddeiliaid yn cefnogi'r chwe grŵp blaenoriaeth (PGs): troseddau fferm, cynefinoedd, mamaliaid a

---

<sup>11</sup> Er enghraifft, mae gan y rhan fwyaf o orsafoedd heddlu Unedau Trais Domestig neu Unedau Diogelwch Cymunedol gyda swyddogion sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i ymdrin â thrais a cham-drin domestig yn ôl tasglu VAWDASV Plismona yng Nghymru.

<sup>12</sup> Mae'r Strategaeth yn cyfeirio at amodau unigryw mewn ardaloedd gwledig sy'n arwain at y troseddau a'r atebion hyn.

rhywogaethau a warchodir gan Ewrop, troseddau adar, goruchwylwyr gwledig heddlu Cymru ac iechyd meddwl a thrais domestig. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr gorfodi a rhai nad oeddent yn ymwneud â gorfodi yn dymuno cael mwy o dryloywder o ran y ffordd yr oedd y PGs yn cael eu nodi, eu hasesu, a dangos tystiolaeth o'r rhesymeg dros eu cynnwys. Roedd un sylw a adleisiwyd gan ymatebwyr eraill yn cwestiynu a oedd y blaenoriaethau'n bodoli

“...oherwydd angen gwirioneddol, neu ydyn ni jyst yn mynd i wahanol gyfeiriadau oherwydd ffocws personol?” (budd-ddeiliad gorfodi yn y DU).

- 3.11 Arweiniodd y drafodaeth ar PGs Strategaeth at gwestiynau ar gwmpas daearyddol Rhaglen Gydgysylltu WRC a pha mor gydnaws oedd y PGs â strategaethau WRC presennol y DU. Gan fod troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad yn mynd y tu hwnt i ffiniau gwledydd, dadleuodd y cyfranogwyr fod yn rhaid cael ymateb effeithiol hefyd. Nodwyd bod angen cysondeb o ran blaenoriaethau a dulliau gweithredu ar draws y DU. Mae asesiad strategol NWCU (2022) a PGs Strategaeth NPCC (2022) yn gymaradwy<sup>13</sup>, fodd bynnag mae eu ffocws a'u categorïau'n amrywio o PGs Strategaeth WRC Cymru (gweler Atodiad B). Yn benodol, nid yw Rhaglen Gydgysylltu WRC yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau troswaol o seiber-alluogi neu droseddau difrifol a threfniadol a amlygwyd yn strategaethau presennol y DU. Roedd yr holl gyfranogwyr yn cydnabod yr angen i bob strategaeth blaenoriaethu'r hyn sy'n berthnasol i'w cwmpas (e.e. nid yw'r NWCU yn canolbwyntio ar droseddu gwledig) a rhanbarth daearyddol a chymunedau (e.e. heddluoedd de-ddwyrain Lloegr yn blaenoriaethu ffermydd cŵn bach), ac eto mae'r diffyg am synergedd hefyd yn cael ei gwestiynu. Roedd rhai'n dadlau bod methu â chysylltu blaenoriaethau Cymru â strategaethau ehangach y DU, ac i'r gwrthwyneb, yn peri risg o anghytgord, gan arwain at ymateb anghyson a rhwystrau i gydweithio, partneriaeth, a rhannu data.
- 3.12 Roedd y cyfranogwyr yn llwyr gefnogi gweledigaeth Rhaglen â ffocws Cymru Gyfan. Eto i gyd, dadleuodd gorfodi (yn arbennig) na all hwn fod yn ddull unigol; nododd un budd-ddeiliad gorfodi yn y DU fod angen i'r “pethau hanfodol” neu'r rhannau craidd fod yn gyson ac wedi'u hysbysu gan arferion gorau ledled y DU er mwyn osgoi dyblygu a gwneud y mwyaf o adnoddau. Nododd eraill fod gan gymunedau

---

<sup>13</sup> Mae'r blaenoriaethau troseddau bywyd gwyllt yn strategaeth NPCC (2022) yn cael eu hysbysu gan yr asesiad strategol a gynhaliwyd gan NWCU (2022), felly mae'r blaenoriaethau troseddau bywyd gwyllt yr un fath yn y ddwy strategaeth. Gan nad oes asesiad cyfatebol gan NWCU ar gyfer troseddau gwledig, asesodd PGs troseddau gwledig yn annibynnol yr NPCC.

gwledig, a thrwy hynny heddluoedd, eu heriau a'u hanghenion eu hunain, gan fynnu ymateb hylifol. Mae Strategaeth WRC Cymru yn cydnabod yr angen am synergedd a hyblygrwydd, ond roedd cyfranogwyr yn amau sut y bydd cysoni o'r fath yn cael ei gymhwyso'n ymarferol.

- 3.13 Eglurodd cyfranogwyr LIC fod Rhaglen Gydgysylltu WRC wedi datblygu o gyllid ar raddfa fach a syniadau elfennol, a brofwyd yn ystod y flwyddyn beilot. Mae'r dadansoddiad o ddogfennau wedi dangos bod ffocws allweddol y Rhaglen wedi cynnwys cefnogi ymateb mwy cadarn a chydweithredol i WRC ar gyfer llawer o fudd-ddeiliaid. Yn fwy penodol, mae'n amlwg o'r data bod y Rhaglen yn llwyddo i hwyluso ymateb cydgysylltiedig Cymru gyfan, sy'n cefnogi asiantaethau gorfodi a phartneriaid statudol i ddarparu ymateb effeithiol a chynaliadwy, wedi'i deilwra i ddiogelu cymunedau, cynefinoedd ac anifeiliaid gwledig Cymru. Ychwanegodd y cyfranogwyr, y dylai rôl allweddol partneriaid a budd-ddeiliaid wrth gyflwyno'r Rhaglen (e.e. holl asiantaethau'r CJS) fod yn ffocws canolog hefyd. At hynny, dylai gweledigaeth y Rhaglen gydnabod sut y gall gyfrannu at newid gwleidyddol, sefydliadol a diwylliannol ehangach wrth flaenoriaethu, ac ymatebion ac agweddau tuag at WRC<sup>14</sup>. Nododd rhai budd-ddeiliaid nad oedd yr awgrymiadau hyn o reidrwydd o fewn gallu Llywodraeth Cymru (e.e oherwydd pwerau heb eu datganoli a dylanwadau allanol) a rhybuddiwyd bod yn rhaid i'r weledigaeth adlewyrchu hyn hefyd.
- 3.14 Tynnodd trafodaethau â budd-ddeiliad sylw at rai o'r heriau wrth ddiffinio cwmpas Rhaglen Gydgysylltu WRC, a oedd yn gysylltiedig â'r rhwystrau o ran cyflawni'r Rhaglen yr eir i'r afael â hwy isod.

#### *Rhwystrau i Ddarparu Polisi a Rhaglenni*

- 3.15 Mae troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad yn cynnwys cyfrifoldebau datganoledig a heb eu datganoli yng Nghymru. Mae plismona a chyfiawnder troseddol yng Nghymru yn rhan o gylch gwaith llywodraeth y DU, tra bod gan Lywodraeth Cymru bwerau datganoledig yn ymwneud â'r amgylchedd, treftadaeth a bywyd gwyllt. Nododd budd-ddeiliaid y gallai hyn, ochr yn ochr â gwahaniaethau diwylliannol ymhlith sefydliadau statudol yn eu hymateb i WRC, arwain at newid ac aneglur o

---

<sup>14</sup> Mae hyn yn cyfeirio at y ddealltwriaeth eang nad yw WRC yn cael ei flaenoriaethu'n ddigonol ymhlith y llywodraeth ac asiantaethau statudol.

gyfrifoldeb ac anghysondeb wrth ymgysylltu â'r Rhaglen. Mae WRC yn drosedd gymhleth a thrawsffiniol, sy'n cefnogi dadl cyfranogwyr dros bartneriaethau cryf rhwng Cymru a sefydliadau'r DU, ac ar draws adrannau'r llywodraeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen.

- 3.16 Nododd yr holl gyfranogwyr fod cyfathrebu yn ganolog i gyflawni nodau'r Rhaglen. Er enghraifft, mae Cydgysylltydd WRC yn darparu dogfennau cyfathrebu fel Cylchlythyrau i fudd-ddeiliaid i'w hysbysu a'u cynnwys. Eto i gyd, dadleuodd llawer o gyfranogwyr hefyd y gallai'r ddealltwriaeth gyfyngedig o weledigaeth y Rhaglen a'r rhesymeg dros y meysydd ffocws strategol â blaenoriaeth (h.y. PGs) arwain at fudd-ddeiliaid yn gwrthsefyll y newid a ddymunir yn y Rhaglen. Ymhellach, fe awgrymon nhw y byddai gor-gamu (e.e. i feysydd heb eu datganoli), gorymestyn (e.e. ffocws, gweithgareddau, a nodau) a methiant i roi tystiolaeth o ganlyniadau hefyd yn effeithio ar gynaliadwyedd y Rhaglen. Yn y bôn, ystyriodd budd-ddeiliaid fod cydbwysu blaenoriaethau cystadleuol cynifer o randdeiliaid (y DU a Chymru) a chyrraedd eang troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad, â'r pwerau a'r adnoddau sydd ar gael, a chyfyngiadau data, yn cynrychioli rhwystrau allweddol i gyflawni polisiau a rhaglenni.

#### *Rhwystrau i Bobl a Phrosesau*

- 3.17 Dangosodd dadansoddiad data fod trosiant staff uchel ymhlith swyddogion WRC wedi arwain at golli arbenigedd a rhwydweithiau yn rheolaidd. Oherwydd cymhlethdod WRC, mae angen cryn amser i ailsefydlu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon. Roedd budd-ddeiliaid gorfodi a budd-ddeiliaid nad ydynt yn ymwneud â gorfodi yn cydnabod bod y Rhaglen yn rhan o etifeddiaeth o asiantaethau CJS nad ydynt yn deall, yn blaenoriaethu nac yn ymateb yn effeithiol i WRC. Awgrymodd y cyfranogwyr fod diffyg blaenoriaethu ar bob lefel o'r CJS yn lleihau cefnogaeth rheolwyr, ymrwymiad i gydweithredu, rhannu adnoddau a datblygu rolau ac arbenigedd penodol, sy'n hanfodol i'r Rhaglen.
- 3.18 Nododd y cyfranogwyr hefyd y byddai diffyg cyfranogiad gweithredol a manteision cilyddol i fudd-ddeiliaid yn rhwystro'r Strategaeth, gan na all asiantaethau gorfodi yn unig ei chyflawni. Mae'n rhaid i'r Rhaglen allu cynrychioli ac ymgysylltu â'r nifer fawr a'r mathau amrywiol o fudd-ddeiliaid sy'n gysylltiedig, pob un ohonynt yn mynegi gwahanol anghenion a blaenoriaethau. Fodd bynnag, bydd ceisio cyflawni'r



anghenion amrywiol hyn yn effeithio ar ffocws ac adnoddau'r Rhaglen. Mae hyn yn cynnwys y gefnogaeth a ddymunir gan gymunedau gwledig. Fodd bynnag, gall diffyg hyder y cyhoedd yn yr heddlu a phrosesau, fel y nodwyd yn yr ymchwil presennol, fod yn rhwystr i ymgysylltu o'r fath.

- 3.19 Mae tystiolaeth o'r ddogfennaeth a'r cyfranogwyr yn dangos bod datblygu a gweithredu'r Rhaglen yn dibynnu i raddau helaeth ar rôl Cydgysylltydd WRC. Mae'r sawl sy'n cymryd rhan yn cydnabod bod deiliad presennol y swydd wedi dod â phrofiad, arbenigedd, gwybodaeth, perthnasoedd cadarnhaol, rhwydweithiau, carisma ac egni i Raglen Gydgyssylltu'r WRC. Gall newidiadau i ddeiliad y swydd felly effeithio ar gynaliadwyedd y Rhaglen.

#### *Rhwystrau i Adnoddau a Data*

- 3.20 Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod adnoddau annigonol ar gyfer y Rhaglen yn effeithio ar rôl Cydgysylltydd WRC ac amcanion Strategaeth WRC Cymru. Nododd cyfranogwyr LIC yr angen am adnoddau i gefnogi rôl y Cydgysylltydd. Ni nododd cyfranogwyr eraill ar gyfer beth y dylid defnyddio'r cyllid, ond cytunwyd bod yr ystod o weithgareddau Rhaglen a amlygwyd (gweler Gweithgareddau isod) yn angenrheidiol a phwysleisiwyd na fyddai canlyniadau'r Rhaglen yn gyraeddadwy heb ragor o gyllid.
- 3.21 Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr o'r farn mai data dibynadwy a hygyrch oedd conglfaen llwyddiant Rhaglen Gydgyssylltu WRC. Ymhlith y safbwyntiau a ddarparwyd:
- mae ymatebion gorfodi yn dibynnu ar y gallu i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata,
  - mae angen mesuriadau cywir i ddangos tystiolaeth o effaith WRC a'r ymatebion sydd ar waith,
  - rhaid i flaenoriaethau'r Strategaeth fod yn seiliedig ar ddata
  - rhaid i ganlyniadau rhaglenni fod yn fesuradwy.


Er hynny, roedd pawb yn ystyried bod cyfyngiadau data yn broblematig, a rhai yn rhwystr "anorchfygol" (budd-ddeiliad cyrff anllywodraethol anifeiliaid). Roedd cyfyngiadau data gweinyddol yn gyson â'r rhai a drafodwyd uchod (gweler 1.17) yn

yr ymchwil presennol (e.e. adrodd a chofnodi anghywir o WRC). Yn ogystal, nodwyd cyfyngiadau dadansoddi data oherwydd data perthnasol a gedwir gan asiantaethau amrywiol ac mewn gwahanol gronfeydd data, rhwystrau i rannu data ymhlith fudd-ddeiliaid, ac absenoldeb ymchwil ysgolheigaidd i wella data gweinyddol.

### **Model Rhesymeg ToC**

- 3.22 Cyflwynir y ToC LM yn weledol yn Ffigur 3, a chaiff pob adran, wedi hynny, ei hegluro yn ei thro, gan ddechrau gyda'r canlyniadau, allbynnau, gweithgareddau, a mewnbynnau.

**Ffigur 3: Model Rhesymeg**



#### 4. Data a Chudd-wybodaeth

Canfyddiadau o ymgynghoriad Strategaeth WRC Cymru gyda budd-ddeiliaid

Adnabyddiaeth, cofnodi a dadansoddi dibynadwy a chyson o ddigwyddiadau WRC gan heddluoedd a CJS

Data WRC hygyrch, wedi'i goladu, gan fudd-ddeiliaid ac ymchwil ysgolheigaidd

#### Allwedd Lliwiau

Gwyrdd – yn bodoli  
Coch – ddim yn bodoli eto

#### Allwedd Acronymau

CJS - System Cyfiawnder Troseddol  
ISA - Cytundeb Rhannu Gwybodaeth  
MOU - Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth  
NPCC - Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu  
NWCU - Uned Troseddau Bywyd Gwyllt Cenedlaethol  
PG - Grŵp Blaenoriaeth  
DU - Deyrnas Unedig  
LIC - Llywodraeth Cymru  
WRC - Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad  
Cydgysylltydd WRC - Cydgysylltydd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad  
Rhaglen Gydgysylltu WRC - Rhaglen Gydgysylltu Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad  
Strategaeth WRC Cymru - Strategaeth Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru

#### 3. Capasiti ac Adnoddau

Datblygu a hwyluso pecyn hyfforddiant WRC a chyfleoedd hyfforddiant ar gyfer swyddogion gorfodi

Gwaith partneriaeth sy'n cefnogi cudd-wybodaeth, arbenigedd a rhannu adnoddau ymysg swyddogion a budd-ddeiliaid

#### 4. Data a Chudd-wybodaeth

Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd data WRC cywir a hygyrch ar draws y CJS a sefydliadau partner

Mapio budd-ddeiliaid a data i adnabod cyfleoedd i rannu data

Hwyluso arferion cofnodi, adrodd, dadansoddi a rhannu data WRC cadarn ar draws heddluoedd Cymru

Casglu data monitro dibynadwy, dilys ac amserol ar Raglen Gydgysylltu WRC gan ddefnyddio prosesau sefydledig lle bo'n bosib

Gwella data WRC gydag ymchwil ysgolheigaidd

Grwpiau blaenoriaeth arbenigol, wedi'u seilio ar feysydd blaenoriaeth WRC, yn cynrychioli amrywiaeth ac arbenigedd budd-ddeiliaid, sy'n cwrdd yn rheolaidd ac yn gweithio tuag at gyflawni amcanion a bennwyd

Partneriaethau budd-ddeiliaid gyda gwell gwybodaeth ac adnoddau

#### 3. Capasiti ac Adnoddau

Cefnogaeth ac adnoddau addas ar gael i fudd-ddeiliaid fodloni nodau Strategaeth WRC Cymru

Mwy o gapasiti, hyfforddiant arbenigol a rhannu adnoddau ymhlith asiantaethau gorfodi

Codi proffil WRC ymhlith asiantaethau gorfodi, hwyluso recriwtio a dargadw swyddogion a phersonél WRC

Holl asiantaethau CJS yn cydweithio ar yn gweithio tuag at nodau Rhaglen Gydgysylltu WRC

#### 4. Data a Chudd-wybodaeth

Strategaeth casglu data Rhaglen Gydgysylltu WRC wedi'i hysbysu gan ymarfer mapio data o ddata budd-ddeiliaid ac ysgolheigaidd a rhannu data mewn modd cyfrifol

Safoni casglu data WRC a strategaethau dadansoddi ar draws asiantaethau gorfodi

Monitro data Rhaglen Gydgysylltu WRC yn gadarn

#### 3. Capasiti ac Adnoddau

Swyddogion gorfodi WRC a budd-ddeiliaid yn meddu ar fwy o gapasiti a gallu i gyflwyno Strategaeth WRC Cymru

Swyddogion a thimau gorfodi WRC yn hyderus, yn hysbys ac yn wydn

#### 4. Data a Chudd-wybodaeth

Dealltwriaeth gynhwysfawr a gwaelodlin gywir o natur a chyffredinrwydd WRC a'r canlyniadau

MOUs ac ISAs yn hwyluso partneriaethau agosach rhwng budd-ddeiliaid a rhannu data

Strategaeth casglu data gwell wedi'i hysbysu gan ddata gweinyddol, budd-ddeiliaid ac ysgolheigaidd

Cudd-wybodaeth WRC yn hysbysu gweithrediadau strategol, yn enwedig y rhai yn targedu'r troseddau cyfundrefnol amlaf a mwyaf difrifol

## Canlyniadau

- 3.23 Mae canlyniadau'n cyfeirio at effeithiau hirdymor a thymor byr y Rhaglen a'r newidiadau sy'n deillio o'r allbynnau. Tynnodd dadansoddiad o ddogfennau a data empirig sylw at effeithiau hirdymor a thymor byr dymunol. Manylir ar y rhwystrau i gyflawni'r canlyniadau hyn uchod.

### *Canlyniadau – tymor hir (fair+ blynedd)*

- 3.24 Mae'r canlyniadau hyn yn cyfeirio at effeithiau'r Rhaglen hirdymor a'r newidiadau sy'n deillio o'r allbynnau. Yn unol â chyllid ar gyfer rôl Cydgysylltydd WRC, mae canlyniadau hirdymor yn edrych y tu hwnt i'r cyfnod o dair blynedd ac yn canolbwyntio ar effeithiau cymdeithasol, polisi, arfer ac amgylcheddol ehangach. Mae'n bwysig nodi, yn hytrach na bod y Rhaglen yn effeithio'n uniongyrchol ar y canlyniadau hyn, y bydd yn cyflawni'r nodau ehangach hyn yn anuniongyrchol drwy hwyluso'r arbenigedd a'r amodau ar gyfer ymateb gorfodi a chydweithredol mwy cadarn.

### Effeithiau Cymdeithasol

- 3.25 Yn ôl y rhai sy'n cymryd rhan, dylai Rhaglen Gydgysylltu'r WRC anelu at gael effaith barhaol drwy **gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o fywyd gwylt a throseddau gwledig.**

“Rwy'n meddwl bod ymwybyddiaeth yn hollbwysig. Mae'n hollbwysig” (budd-ddeiliad corff anllywodraethol atal hunanladdiad).

“Rwy'n meddwl mai'r hyn sydd angen i ni ei wneud yw codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r pethau hyn, o fod yn droseddau yn y lle cyntaf a dylem ddechrau mewn ysgolion ac ati” (budd-ddeiliad gorfodi'r DU).

Byddai hyn yn golygu bod pobl mewn sefyllfa well i adnabod ac adrodd am unrhyw weithgareddau anghyfreithlon sy'n ymwneud â WRC. Yn ogystal, awgrymodd cyfranogwyr y dylai'r Rhaglen **wella lles cyffredinol y gymuned a hyder yn yr heddlu.** Mae hyn yn awgrymu, oherwydd y Rhaglen, y byddai unigolion a chymunedau yn profi gwell ymdeimlad o ddiogelwch, ymddiriedaeth a boddhad yn eu rhyngweithio ag asiantaethau gorfodi. Mae hyn hefyd yn berthnasol i

gyfranogwyr budd-ddeiliad a ddywedodd eu bod yn fwy tebygol o ymgysylltu â phartneriaethau ystyrllon os oedd ganddynt ffydd yn yr ymateb gorfodi.

- 3.26 Er mwyn sicrhau gwell lles a hyder yn yr heddlu, amlygodd y dadansoddiad fod yn rhaid i **gymunedau gwledig brofi gostyngiad mewn niwed ac ofn trosedd**. Mae hyn yn golygu y dylai'r Rhaglen anelu at greu amgylchedd mwy diogel ar gyfer ardaloedd gwledig trwy leihau'r achosion gwirioneddol o droseddu a'r canfyddiad o ofn sy'n gysylltiedig â gweithgareddau troseddol. Trwy fynd i'r afael â'r pryderon hyn a'u lliniaru, awgrymwyd bod Rhaglen Gydgyssylltu WRC yn ceisio meithrin ymdeimlad o ddiogelwch a lles ymhlith trigolion cymunedau gwledig.

#### Effeithiau Polisi ac Arfer

- 3.27 Er bod cyfranogwyr wedi rhybuddio pwysigrwydd rheoli disgwyliadau'r Rhaglen a pheidio â mynd y tu hwnt i'w galluoedd, roeddent yn cytuno y dylai anelu yn y tymor hir at **gryfhau amddiffyniad cyfreithiol a gwella canlyniadau troseddau ar gyfer cymunedau gwledig a bioamrywiaeth**. Fel y pwysleisiodd un budd-ddeiliad: "Mae deddfwriaeth i ni yn brif flaenoriaeth" (budd-ddeiliad Corff Anllywodraethol Morol).
- 3.28 Nid yw'n fwriad i'r Rhaglen lobïo na dylanwadu ar bolisi, ac eto dangosodd y dadansoddiad y gall ac y mae'n darparu arbenigedd ar WRC, a pholisi ac ymatebion cysylltiedig. Mae'r Rhaglen hefyd yn ceisio sefydlu mecanweithiau cadarn ac effeithiol sy'n sicrhau gorfodi cyfreithiau a rheoliadau sy'n ymwneud â chymunedau gwledig, cynefinoedd a bywyd gwylt. Mae hyn yn cynnwys canlyniadau troseddau gwell i ddioddefwyr trwy ganfod, ymchwilio ac erlyn troseddau WRC yn well.
- 3.29 Canlyniad allweddol arall sy'n amlwg yn y dogfennau ac a drafodwyd gan gyfranogwyr yw datblygu **Strategaeth gynaliadwy sy'n hwyluso ymateb gwybodus, cydgysylltiedig a chydlynol i droseddau bywyd gwylt a chefn gwlad ledled Cymru a'r DU**. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod bod y Strategaeth, drwy feithrin cydgysylltu ymhlith budd-ddeiliaid amrywiol, gan gynnwys asiantaethau'r llywodraeth, sefydliadau cadwraeth, a chymunedau lleol, yn ceisio cynyddu effaith gyfunol ymatebion WRC.

- 3.30 **Rhaid i bartneriaethau cynaliadwy rhwng ac o fewn budd-ddeiliaid statudol, anstatudol a chymunedol** gael eu tanategu gan nodau a buddion cilyddol. Hynny yw, roedd cyfranogwyr yn awgrymu bod yn rhaid iddynt gredu yng ngwerth y Rhaglen o ran cyflawni nodau ar y cyd ac annibynnol. Roeddent hefyd yn dymuno cael partneriaethau cydnerth a fyddai'n parhau y tu hwnt i gyfnod y Strategaeth, gan sicrhau cynaliadwyedd y Rhaglen wrth fynd i'r afael â materion WRC a chyflawni nodau cadwraeth a rennir.
- 3.31 Mae **sefydlu dull gorfodi hyderus a gwydn sydd wedi'i gysoni ledled Cymru**, gyda swyddogion WRC penodedig, yn ganlyniad allweddol i'r Rhaglen ac yn ofyniad ar gyfer cyflawni'r canlyniadau eraill. Mae'r nod hwn yn golygu creu fframwaith gorfodi'r gyfraith sy'n ennyn hyder swyddogion ac yn rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r adnoddau angenrheidiol iddynt fynd i'r afael yn effeithiol â materion WRC.
- 3.32 Canlyniad arall sy'n ganolog i'r Rhaglen ac sy'n cyflawni'r effaith ddisgwyliedig yw **gwell monitro o droseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad, canlyniadau Rhaglen Gydgysylltu WRC a gorfodi a arweinir gan gudd-wybodaeth**. Pwysleisiodd yr holl gyfranogwyr fod yn rhaid i'r Rhaglen hwyluso data cywir a hygyrch ar WRC i gefnogi'r gwaith o dargedu ymdrech ac adnoddau'n effeithiol, a dangos tystiolaeth o effaith y rhaglen:
- “Mae angen i chi allu cael strategaeth gydlynol o gasglu data ledled Cymru sydd ar goll yn fy marn i” (budd-ddeiliad Cymdeithas Ffermio).

#### Effeithiau Amgylcheddol

- 3.33 Dylai canlyniadau Rhaglen Gydgysylltu WRC fod yn gydnaws â nodau amgylcheddol eraill Llywodraeth Cymru, drwy **wella lles anifeiliaid a lleihau colli bioamrywiaeth**.
- “Mae yna hefyd y ffaith bod bioamrywiaeth a bywyd gwyllt yn elwa o'r gwaith hwn oherwydd dyna'r canlyniad yn y pen draw ... gallwn ddisgwyl y bydd rhyw elfen ataliol yn digwydd.” (budd-ddeiliad LIC)
- 3.34 Byddai'r Rhaglen yn gwella lles anifeiliaid drwy liniaru ac atal troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad sy'n niweidio neu'n ecsbloetio anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â gweithgareddau anghyfreithlon fel potsio, masnachu mewn pobl, dinistrio cynefinoedd, troseddau ceffylau a da byw, a llygredd sy'n effeithio'n

uniongyrchol ar boblogaethau bywyd gwyllt. Drwy leihau'r troseddau hyn, byddai Rhaglen Gydgyssylltu WRC yn sicrhau bod anifeiliaid fferm a bywyd gwyllt yn cael eu hamddiffyn, gan wella lles pobl a phobl nad ydynt yn ddynol.

#### *Canlyniadau - tymor byr (un-tair blynedd)*

- 3.35 Mae'r canlyniadau hyn yn cyfeirio at effeithiau tymor byr y Rhaglen a'r newidiadau sy'n deillio o'r allbynnau. Yn unol â chyllid ar gyfer rôl Cydgysylltydd WRC, mae canlyniadau tymor byr yn edrych o fewn y cyfnod ariannu tair blynedd presennol, ac yn canolbwyntio ar gyfeiriad strategol, pobl a phartneriaethau, gallu ac adnoddau, a data a chudd-wybodaeth.

#### Cyfeiriad Strategol

- 3.36 Mae cyfeiriad strategol yn cyfeirio at arolygiaeth ac eglurder ar ffocws craidd y Rhaglen. Yn benodol, sicrhau y caiff **nodau ac amcanion Strategaeth WRC Cymru eu gweithredu'n llwyddiannus a gwell synergedd rhwng Rhaglen Gydgyssylltu WRC a strategaethau perthnasol eraill y DU** (NPCC, 2022, NWCU, 2022). Dadleuodd y cyfranogwyr y byddai hyn yn golygu diwallu anghenion cymunedau Cymru, tra hefyd yn cyfrannu at ymateb ehangach y DU. Gall synergedd rhwng y strategaethau hyn wella adnoddau, gwybodaeth ac arbenigedd y Rhaglen, gan arwain at ymateb mwy effeithlon ac effeithiol i WRC.
- 3.37 Drwy gydol y drafodaeth ar ganlyniadau, pwysleisiodd y cyfranogwyr yr angen i'r **Rhaglen addasu i amgylchiadau sy'n esblygu tra'n cynnal dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth**. Mae hyn yn cydnabod y gall fod angen i'r Rhaglen ymateb i ffactorau mewnol sy'n newid (e.e. deiliad rôl Cydgysylltydd WRC) ac allanol (e.e. newidiadau i WRC, ymgysylltu â budd-ddeiliad, newid polisi). Mae hefyd yn cyfleu awydd cyfranogwyr i wneud penderfyniadau gwybodus sy'n cael eu gyrru gan ddata wrth ymateb i newidiadau o'r fath (e.e. wrth ddewis PGs).
- 3.38 Canlyniadau allweddol eraill a amlygwyd gan gyfranogwyr oedd gwell dealltwriaeth gan randdeiliaid o strwythur llywodraethu, allbynnau a chanlyniadau Rhaglen Gydgyssylltu WRC. Bydd **strwythur llywodraethu cadarn, y bydd budd-ddeiliaid yn ei ddeall**, yn sicrhau bod rolau, cyfrifoldebau a phrosesau gwneud penderfyniadau clir yn cael eu sefydlu a'u cyfleu i bob parti cysylltiedig. Yn



gysylltiedig â hyn, dadleuodd y cyfranogwyr fod angen **budd-ddeiliaid hyddysg sy'n deall Rhaglen Gydgysylltu'r WRC a'i hallbynnau a'i chanlyniadau.**

Awgrymodd y cyfranogwyr y byddai'r ddau ganlyniad hyn yn meithrin tryloywder, atebolrwydd, gwell cydweithredu a dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a chyflawniadau'r Rhaglen. Fel yr eglurwyd yn yr adran Cyd-destun, nododd cyfranogwyr bwysigrwydd sianeli cyfathrebu clir i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cyrraedd budd-ddeiliaid.

- 3.39 Yn yr un modd, **dylid annog budd-ddeiliaid yn weithredol i ddarparu mewnwelediadau ac adborth i lywio cyfeiriad strategol y Rhaglen** fel rhan o'r strategaeth gyfathrebu.

“Os ydyn ni o ddifrif am gyfeiriad strategaeth yn dod gan fudd-ddeiliaid yna dyna beth sydd angen iddo fod. Mae angen i bob un ohonom nodi'r bylchau, y gwendidau a'r blaenoriaethau hynny ac yna dylunio canlyniadau sy'n gwbl fesuradwy ac sy'n hawdd eu deall gan bob budd-ddeiliad” (budd-ddeiliad Cymdeithas Ffermio).

- 3.40 Drwy gynnwys budd-ddeiliaid yn y broses o wneud penderfyniadau, mae Rhaglen Gydgysylltu WRC yn elwa o safbwyntiau amrywiol ac yn y pen draw yn meithrin ymateb cydweithredol i WRC.

#### Pobl a Phartneriaethau

- 3.41 Mae angen i'r Rhaglen sicrhau bod y bobl a'r sefydliadau cywir yn cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu'r Rhaglen. Nododd dadansoddiad o'r dogfennau a'r cyfranogwyr fod **cyflawni synergedd yn y dull gweithredu a'r ymateb i droseddau bywyd gwyllt a gwledig ymhlith heddluoedd sy'n gweithredu yng Nghymru**, yn ganlyniad allweddol. Mae'r canlyniad hwn yn canolbwyntio ar wella cydweithredu, cydgysylltu a chydweithredu ymhlith gorfodi i fynd i'r afael â'r heriau a'r bygythiadau unigryw a achosir gan WRC. Byddai hyn hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer rhannu gwybodaeth, hyfforddiant ar y cyd, a strategaethau gweithredol cydlynol. Fel y trafodwyd yn yr adran Cyd-destun, fodd bynnag, mae angen cydbwysedd i sicrhau hyblygrwydd i ymateb i gyd-destunau lleol.
- 3.42 Yn gysylltiedig â hyn, canlyniad tymor byr arall a nodwyd oedd pwysigrwydd sicrhau bod budd-ddeiliaid yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran darparu ymateb cytûn, cydgysylltiedig ac effeithiol. Roedd y dogfennau a'r cyfranogwyr yn dangos bod y Rhaglen yn llwyddo i gysylltu ystod amrywiol o fudd-ddeiliaid. Mae

effeithiolrwydd Rhaglen Gydgysylltu WRC yn dibynnu ar gynnal y lefel hon o ymgysylltu. Fel yr eglurodd un cyfranogwr, gall asiantaethau ddod yn ynysig yn eu hymateb i WRC heb gydgysylltu ac eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau:

“Mae budd-ddeiliaid yn deall eu rôl o fewn y darlun mawr, nid yn mynd ar ei ben ei hun, mae’n rhywbeth rydym yn amlwg wedi dod ar ei draws ac rydym yn delio ag ef, a gallech fesur gwelliant ar hynny” (budd-ddeiliad gorfodi’r DU).

- 3.43 Roedd pawb a gymerodd ran yn ystyried ei bod yn bwysig bod **uwch arweinwyr ym maes gorfodi ledled Cymru yn ystyried ac yn ymdrin â throeddau bywyd gwyllt a chefn gwlad yn flaenoriaeth**, yn ganlyniad tymor byr angenrheidiol a chanlyniadol. Fel y nododd un cyfranogwr:

“un o’n problemau yn bennaf yw ein bod ni [WRC] yn eistedd ar waelod y pentwr mewn perthynas â blaenoriaethau’r heddlu bron bob gradd ac mae hynny’n eithaf anodd” (budd-ddeiliad gorfodi’r DU).

- 3.44 At hynny, ystyriwyd bod hyn yn bwysig ar draws y strwythur rhengoedd gorfodi:

“Yn aml iawn, rydych chi’n cael cefnogaeth dda gan uchel i fyny’r gadwyn...mae’n ceisio ei werthu i’r rheolwyr canol, i’w galluogi i alluogi eu staff oddi tanynt, y swyddogion oddi tanynt, i gael yr amser i ddelio ag ef” (budd-ddeiliad gorfodi’r DU).

- 3.45 Cafodd anghenion dioddefwyr WRC eu hystyried hefyd gan gyfranogwyr a oedd yn dadlau y byddai’r Rhaglen yn arwain at **ddioddefwyr troeddau bywyd gwyllt a chefn gwlad yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a’u deall**. Mae’r canlyniad hwn yn pwysleisio pwysigrwydd darparu gwasanaethau cymorth ac adnoddau cynhwysfawr a phenodol i unigolion a chymunedau yr effeithir arnynt gan ddigwyddiadau sy’n ymwneud â WRC.

- 3.46 Gyda’i gilydd mae’r canlyniadau tymor byr hyn yn cefnogi’r canlyniad disgwylledig ehangach y byddai’r Rhaglen yn **atal digwyddiadau troeddau bywyd gwyllt a chefn gwlad rhag digwydd, cynyddu’r ymlid am droseddwyr sy’n ymwneud â bywyd gwyllt a gweithgareddau troeddau gwledig, a diogelu amgylcheddau sy’n agored i fygythiadau WRC**.

## Gallu ac Adnoddau

- 3.47 Mae capasiti ac adnoddau'n cyfeirio at y bobl hanfodol, yr adnoddau ffisegol a data a'r gallu sefydliadol sydd eu hangen i sicrhau bod Rhaglen Gydgysylltu'r WRC yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus.
- 3.48 Roedd y dogfennau a'r cyfranogwyr yn nodi y byddai Rhaglen Gydgysylltu WRC yn **cynyddu capasiti a gallu swyddogion gorfodi a budd-ddeiliaid i gyflawni amcanion Strategaeth WRC Cymru yn effeithiol**. Byddai gallu swyddogion a budd-ddeiliad yn cael eu datblygu drwy hyfforddiant, data cadarn a gwaith partneriaeth, er enghraifft. Wrth hyrwyddo a rhannu technoleg, nod y Rhaglen yw gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithgareddau gorfodi. Er enghraifft, nododd cyfranogwyr y gall apiau symudol a chyfryngau cymdeithasol ddarparu offer i swyddogion gorfodi ar gyfer rhannu gwybodaeth amser real, casglu data, a chyfathrebu, gan eu galluogi i ymateb yn brydlon i ddigwyddiadau neu fygythiadau posibl:
- “Mae yna gymysgedd da y gallwch chi ei gael gyda'r defnydd o dronau a'r defnydd o dechnoleg a LoRaWAN [rhwydwaith ardal eang ystod hir] a defnyddio Twitter a defnyddio pethau arloesol sy'n dod ar y farchnad” (budd-ddeiliad Llywodraeth Cymru).
- “O ran yr apiau, rwy'n gobeithio, o fewn strategaeth Cymru ac ati, eu bod wedi ymrwymo i'r system ddisg newydd sy'n cael ei chyflwyno mewn perthynas â throseddau bywyd gwyllt. Mae newydd ddod allan ond dyna ap arall y gallwch fynd ar eich ffôn a bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi” (budd-ddeiliad gorfodi'r DU).
- 3.49 Yn ail, roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn cydnabod gwerth y Rhaglen o ran sefydlu **Swyddogion WRC hyderus a gwybodus, wedi'u hintegreiddio i Dimau WRC cynaliadwy a gwydn**. Yn benodol, ystyriwyd bod datblygu swyddogion a thimau ymroddedig ac arbenigol yn hanfodol i ymateb i fygythiadau WRC a diogelwch a lles y gymuned.

## Data a Chudd-wybodaeth

- 3.50 Mae data a chudd-wybodaeth yn casglu'r gofynion data sy'n hanfodol i fesur WRC a gwerthuso effeithiolrwydd ymateb y WRC, Rhaglen Gydgysylltu'r WRC a Strategaeth WRC Cymru.
- 3.51 Yn hyn o beth, un o ganlyniadau tymor byr y Rhaglen a amlygwyd gan yr holl gyfranogwyr oedd **dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o natur a nifer yr achosion o WRC a chanlyniadau**. Byddai'r canlyniad hwn yn sefydlu mesuriad cywir o weithgareddau WRC yn y rhanbarth, gan ddarparu gwaelodlin ddibynadwy. Yn gysylltiedig â hyn, roedd yr angen canfyddedig am **well cudd-wybodaeth am WRC, sy'n chwarae rhan ganolog wrth lywio gweithrediadau ac ymatebion strategol, yn enwedig y rhai sy'n targedu troseddau difrifol a chyfundrefnol**. Byddai'r ddau ganlyniad hyn yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau, dyrannu adnoddau, a datblygu strategaethau gorfodi effeithiol. Byddai hyn yn grymuso asiantaethau gorfodi gyda'r wybodaeth i fynd i'r afael yn rhagweithiol â'r troseddau mwyaf niweidiol, gan gyfrannu at gymunedau mwy diogel.
- 3.52 Mae'r Rhaglen nid yn unig yn gofyn am **well data gweinyddol**, ond gallai hefyd **wella data'r WRC trwy bartneriaethau ag ysgolheigion a budd-ddeiliaid**. Drwy ymgysylltu â'r partneriaid hyn, byddai Rhaglen Gydgysylltu'r WRC yn defnyddio eu harbenigedd a'u hadnoddau i wella tystiolaeth empirig a dealltwriaeth o WRC. Rhoddir sylw pellach i bwysigrwydd hyn isod mewn gweithgareddau a mewnbynnau. Yn gysylltiedig â hyn mae'r **gwelliant o ran rhannu data ymhlith budd-ddeiliaid, wedi'i hwyluso drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU) a Chytundebau Rhannu Gwybodaeth (ISA)**. Teimlai llawer o gyfranogwyr y byddai hyn yn meithrin partneriaethau agosach rhwng asiantaethau gorfodi a budd-ddeiliaid ac felly'n cefnogi cydgysylltu.

“sichrau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, y llunwyr barn neu beth bynnag, o amgylch y bwrdd i gael y memorandwm dealltwriaeth hwnnw o'r hyn sydd ei angen arnom fel budd-ddeiliaid a'r hyn y gallant ei wneud mewn gwirionedd, a gwneud iddo ddigwydd” (budd-ddeiliad Corff Anllywodraethol Morol).

## Allbynnau

- 3.53 Allbynnau yw'r cynhyrchion a'r gwasanaethau diriaethol neu fesuradwy sy'n deillio o weithgareddau'r Rhaglen, sy'n helpu i bennu, yn y tymor byr, a yw canlyniadau'n cael eu cyflawni. Fel y nodwyd yn gynharach, roedd cyfranogwyr yn amharod i nodi niferoedd penodol i fesur yr allbynnau â nhw. Roeddent yn cydnabod y gallai llawer o newidynnau y tu allan i reolaeth y Rhaglen effeithio ar ddangosyddion a thargedau o'r fath. Er enghraifft, gallai newidiadau staff mewn sefydliadau gorfodi neu sefydliadau partner lesteirio cydweithredu a blaenoriaethu, a allai effeithio ar fetrigau data troseddau a mesuriadau ymgysylltu. Yn yr un modd, pe bai hyder gwell y cyhoedd neu hyfforddiant swyddogion yn arwain at well canfod ac adrodd am droseddau, byddai hyn yn ymddangos fel cynnydd mewn troseddau mewn data gweinyddol. Gellid dehongli hyn fel methiant yn yr ymateb gorfodi. O ganlyniad, ychydig o'r allbynnau sy'n manylu ar fetrigau penodol, yn hytrach na mesuriadau presennol, ac arfaethedig a drafodir yn yr adran Gwerthuso a Data isod. Mae allbynnau yn perthyn i bedwar categori: gweithredu strategol, pobl a phartneriaethau, gallu ac adnoddau, a data a chudd-wybodaeth.

### *Gweithredu Strategol*

- 3.54 Mae gweithredu strategol yn golygu troi'r fframwaith a'r strwythurau strategol yn gamau gweithredu ac allbynnau i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir. Er mwyn cyflawni canlyniadau Rhaglen Gydgysylltu WRC, rhaid i **fudd-ddeiliaid ddeall canlyniadau dymunol y Rhaglen a'r Strategaeth**. Nododd y cyfranogwyr fod allbwn mesuradwy yn pennu a oedd y rhain yn cael eu **cyfleu'n glir i'r holl fudd-ddeiliaid**. O ganlyniad, mae gorgyffwrdd sylweddol rhwng cyflawni gweithrediad strategol ac allbynnau pobl a phartneriaethau. Er enghraifft, roedd **lansiad llwyddiannus Strategaeth WRC Cymru (2023)** yn allbwn allweddol i gyfranogwyr, gan ei fod yn amlygu datblygiadau strategol, nodau, amcanion, darpariaeth, a ffocws (meysydd ac amcanion blaenoriaeth) i fudd-ddeiliaid.
- 3.55 Er mwyn cefnogi dealltwriaeth o'r Rhaglen, roedd y cyfranogwyr yn dymuno mwy o dryloywder **ar y sylfaen dystiolaeth a'r broses fesur a ddefnyddiwyd i nodi meysydd blaenoriaeth**. Fe benderfynon nhw hefyd fod **angen proses gwerthuso a oedd y grwpiau blaenoriaeth yn cyflawni eu hamcanion**. Dywedodd y cyfranogwyr eu bod yn teimlo y dylai'r grwpiau hyn ddarparu mwy na chyfnawid

gwybodaeth syml (e.e. allbynnau diriaethol megis casglu data yn well) ac roedd y farn yn amrywio ynghylch effeithiolrwydd PGs wrth ysgogi newid.

- 3.56 Mae eglurder ar weithrediad strategol yn hanfodol gan fod gwaith partneriaeth a chydweithio gyda budd-ddeiliaid yn ganolog i'r Rhaglen. Cadarnhaodd budd-ddeiliaid nad oeddent yn ymwneud â gorfodi eu bod am gyfrannu at y Rhaglen. Roedd allbwn angenrheidiol felly yn **ddolen adborth effeithiol rhwng budd-ddeiliaid a Chydgysylltydd WRC i sicrhau y llywiyd Rhaglen Gydgysylltu WRC gan eu hymgysylltiad**. Nodwyd gwahanol fathau o ymgysylltu â budd-ddeiliad, er enghraifft, mynychu digwyddiadau'r Rhaglen, mewnbwn i'r strategaeth gyfathrebu a'r defnydd ohoni, defnyddio a bwydo i mewn i hyfforddiant a PGs, a rhannu data.
- 3.57 Gwerthfawrogwyd rôl Cydgysylltydd WRC gan y cyfranogwyr am ddarparu un pwynt cyswllt ar gyfer cyngor a gwybodaeth arbenigol ar WRC i amrywiaeth o fudd-ddeiliaid. Tynnodd y cyfranogwyr sylw at bwysigrwydd yr allbwn hwn ar gyfer **hysbysu polisiâu a grwpiau strategol Llywodraeth y DU a Chymru**. Mae Cydgysylltydd WRC, er enghraifft, wedi darparu arbenigedd ar bolisi a deddfwriaeth i Bwyllgor Dethol Llywodraeth y DU (e.e. y Bil Anifeiliaid a Gadwyd, cynnig a oedd â'r nod, ymhlith mesurau eraill, i atal ymosodiadau gan gŵn ar dda byw yng Nghymru a Lloegr [Mae Llywodraeth y DU wedi gollwng y Bil ers hynny]), a fydd wedyn yn effeithio ar ganlyniadau erlyn a dedfrydu. Ar gyfer grwpiau strategol y DU, gallai hyn sicrhau bod y persbectif Cymreig yn cael ei ddeall a'i ymgorffori mewn datblygiadau polisi.
- 3.58 Er mwyn i Raglen Gydgysylltu WRC fod yn llwyddiannus, dadleuodd y cyfranogwyr fod angen i asiantaethau cyfiawnder troseddol a phartneriaid statudol eraill roi blaenoriaeth i WRC. Gellid cyflawni hyn drwy i'r asiantaethau hyn **alinio rhannau perthnasol o'u strategaethau mewnol â Strategaeth WRC Cymru** i sicrhau ymateb cydgysylltiedig a chyson ar draws y sector. Cadarnhaodd dau o bob tri o'r ymatebwyr i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru (2023a) fod gan eu sefydliad amcanion WRC (neu ddull datrys problemau penodol) wedi'u hymgorffori yn eu strategaeth neu ddull gweithredu; sy'n dangos bod yr allbwn hollbwysig hwn yn ehangu i fudd-ddeiliaid eraill. Dylanwadwyd ar y gwaith o nodi'r allbwn hwn, yn arbennig, gan yr erlyniad gwan a'r dedfrydu WRC a nodwyd gan gyfranogwyr, a oedd yn peryglu ymateb WRC.

“Yna rydym yn siarad am ganlyniadau yn y llys hefyd. Ni fydd llawer o'r pethau hyn byth yn cyrraedd y llys. Ddim er budd y cyhoedd ac ati” (budd-ddeiliad gorfodi'r DU).

### *Pobl a Phartneriaethau*

- 3.59 Mae pobl a phartneriaethau'n cyfeirio at allbynnau sy'n canolbwyntio ar gydweithio a chydgyssylltu â budd-ddeiliaid allweddol, sy'n ganolog i ganlyniadau Rhaglen Gydgyssylltu WRC. Mae Strategaeth WRC Cymru (Llywodraeth Cymru, 2023: 10) yn amlinellu **camau i gyflawni ymateb gorfodi troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad mwy cydlynol**. Mae'r Strategaeth yn cynnig gwneud hyn drwy ddatblygu rhwydweithiau effeithiol i rannu arfer gorau ac adnoddau a rhannu gwybodaeth ymhlith partneriaid ac asiantaethau gorfodi. Mae'r allbwn hwn yn cyfeirio at gefnogi dull gorfodi cydgysylltiedig ledled Cymru a'r DU yn ehangach, tra hefyd yn dadlau dros hyblygrwydd i ymateb i broblemau a chyd-destunau lleol (gweler hefyd risgiau).
- 3.60 Gan gydnabod na all y Rhaglen gael ei chyflwyno ar ei phen ei hun gan Gydgyssylltydd WRC ac asiantaethau gorfodi, tynnodd y cyfranogwyr sylw at bwysigrwydd a **dull budd-ddeiliaid cydgysylltiedig, gan gynnwys mentrau ar y cyd a arweinir gan fudd-ddeiliaid statudol ac anstatudol i wella cydweithredu**. Roedd y dogfennau a'r cyfranogwyr yn dangos yn glir yr awydd am, a gwerth a manteision gwaith partneriaeth i gyflawni canlyniadau'r Rhaglen. Byddai methu â chyflawni'r allbwn hwn yn arwain at danseilio ymdrechion ac adnoddau budd-ddeiliad a gorfodi:
- “Wrth geisio annog pobl i gofnodi trosedd o losgi bwriadol, rwy'n gorfod ailagor troseddau a'i anfon yn ôl atyn nhw [yr heddlu], ac nid ydynt yn ei ddeall o gwbl, a'r effaith ar gymunedau, diffoddwyr tân a'r safleoedd treftadaeth a SoDdGA hyn, mae'n drueni mewn gwirionedd. Mae'n drueni. Felly, gyda budd-ddeiliaid cefnogol, dyna'r peth cyntaf yno, rydym yn teimlo ychydig heb gefnogaeth ar hyn o bryd” (budd-ddeiliad grŵp treftadaeth).
- 3.61 Dywedodd deiliad rôl Cydgysylltydd WRC ei fod wedi cymryd rhan mewn gwaith mapio budd-ddeiliaid yn ystod blwyddyn beilot y Rhaglen, a arweiniodd at dynnu ynghyd nifer o fudd-ddeiliaid amrywiol ledled Cymru. Serch hynny, roedd cyfranogwyr yn cydnabod bod bylchau a allai effeithio ar flaenoriaethau'r Strategaeth:

“Dw i’n meddwl bod ‘na lot o’r bobol iawn yma [yng nghynhadledd flynyddol 2023], ond efallai’n wir fod yna fylchau amlwg. A oes unrhyw gynrychiolaeth gan, er enghraifft, gynghorau cymuned? Oherwydd mae’n debyg y byddan nhw’n cael clywed yn uniongyrchol am y materion go iawn a’r heriau yn eu hardal...Felly, mae’n bosibl iawn bod bylchau yn bodoli eisoes, ac efallai ein bod ni’n colli allan ar rai o’r blaenoriaethau yn y ffordd honno” (budd-ddeiliaid Cymdeithas Ffermio).

- 3.62 Teimlai llawer o gyfranogwyr fod lefel eu cyfranogiad yn briodol. Fodd bynnag, nododd rhai fod angen ymgysylltu â'u sefydliadau eu hunain a budd-ddeiliaid eraill ymhellach (e.e. Gwasanaeth Erlyn y Goron, y llysoedd, y gwasanaeth tân ac achub, Awdurdodau Lleol ac asiantaethau ac arbenigwyr amgylcheddol). Pwysleisiwyd bod cyfranogiad a chydweithrediad holl asiantaethau'r CJS yn hanfodol i wella effeithiolrwydd ymateb WRC. Roedd y rhan fwyaf o fudd-ddeiliaid yn ymgynghoriad LIC (2023) yn cydnabod rôl Cydgysylltydd WRC o ran hwyluso gwell partneriaethau. Mae hyn wedi cynnwys rhaglen arloesol gyda'r gwasanaeth prawf a pharciau.
- 3.63 Yn ganolog i ddatblygu dull cydweithredol yw allbwn **partneriaethau budd-ddeiliaid mwy gwybodus ac ag adnoddau gwell**. Gellid cyflawni (a mesur) budd-ddeiliaid mwy gwybodus, yn rhannol, trwy strategaeth gyfathrebu Rhaglen effeithiol sy'n targedu'r holl fudd-ddeiliaid (e.e. strategaeth, digwyddiadau, cylchlythyrau, cynadleddau, sesiynau ymwybyddiaeth dros dro, cyfryngau cymdeithasol). Mae partneriaethau budd-ddeiliaid llwyddiannus yn cynyddu effeithlonrwydd trwy gydnabod pwy sydd yn y sefyllfa orau i gymryd rhan mewn gweithgaredd, tra hefyd yn hwyluso croesbeillio arbenigedd ac adnoddau ymhlith sefydliadau lluosog.
- 3.64 Ceir tystiolaeth o **datblygiad chwe PG arbenigol** yn y dogfennau a ddadansoddwyd (Llywodraeth Cymru, 2023 – gweler hefyd Atodiad B). Ystyriwyd y datblygiad hwn fel allbwn pwysig ar gyfer cyflwyno'r Rhaglen gan yr holl gyfranogwyr. Roeddent hefyd yn dadlau y dylai'r allbwn hwn bwysleisio bod yn **rheid i'r PGs cynrychioli amrywiaeth ac arbenigedd budd-ddeiliaid, cyfarfod yn rheolaidd ac, yn bwysig, tystiolaethu bod yr amcanion PG penodedig yn cael eu cyflawni**.



- 3.65 Un allbwn allweddol sy'n ymwneud â chapasiti ac adnoddau a amlygwyd yn y dogfennau (Llywodraeth Cymru, 2023) a gan yr holl gyfranogwyr yw **darparu cymorth ac adnoddau priodol i fudd-ddeiliaid gyflawni nodau Rhaglen Gydgysylltu WRC**. Roedd sylwadau'r cyfranogwyr yn adleisio'r diffyg adnoddau a gydnabyddir yn eang mewn ymatebion i WRC yng Nghymru a'r DU yn ehangach (Cenhedloedd Unedig, 2021, gweler risgiau hefyd). Nododd y cyfranogwyr fod angen mwy o bobl, data ac adnoddau technolegol i gyflawni nodau'r Rhaglen (gweler hefyd yr adran Canlyniadau a Mewnbynnau isod). Nodwyd yn aml nad oedd yr adnoddau sylfaenol sy'n hanfodol ar gyfer gorfodi (ac a ddarperir ar gyfer swyddogion eraill) ar gael ar gyfer swyddogion WRC, gan atal gorfodi effeithiol. Byddai adnoddau priodol yn cynnwys digon o Swyddogion WRC pwrpasol gyda mynediad at ddata dibynadwy a dadansoddwyr data, ac adnoddau arbenigol (e.e. cerbydau tir gwledig, rhewgelloedd ar gyfer cadw tystiolaeth) i gyflawni rolau gorfodi allweddol. Roedd budd-ddeiliaid nad oeddent yn ymwneud â gorfodi hefyd angen mynediad at ddata ac arbenigedd gorfodi. Gellir cyflawni (a mesur) budd-ddeiliaid ag adnoddau priodol trwy fwy o weithgareddau ac allbynnau wedi'u hwyluso gan fynediad i adnoddau a rennir (e.e. technoleg, data, cudd-wybodaeth, arbenigedd).
- 3.66 Roedd y dogfennau a'r cyfranogwyr yn cydnabod yr anhawster wrth recriwtio a dargadw Swyddogion WRC (gweler hefyd risgiau). Roedd dau allbwn yn mynd i'r afael â'r pryder hwn. Yn gyntaf, **byddai gallu Swyddogion WRC yn cael ei wella gan hyfforddiant arbenigol a rhannu adnoddau ymhlith asiantaethau gorfodi**. Yn ail, byddai **codi proffil troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad ymhlith pob lefel o asiantaethau gorfodi** (o hyfforddeion, rheolwyr canol i uwch arweinwyr), yn **cefnogi recriwtio a dargadw swyddogion a phersonél troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad**. Tynnodd un cyfranogwr sylw at faint y broblem y bydd angen i'r Rhaglen ei hystyried gan gynnwys y safbwyntiau negyddol a brofwyd gan swyddogion:
- “Rwy'n meddwl ei fod bron i'r graddau mewn rhai heddluoedd, os ewch chi ymlaen i'r tîm troseddau gwledig, mae hynny'n cael ei ystyried yn dipyn o jôc ... Ydy codi adar marw yn waith go iawn?” (budd-ddeiliad gorfodi yn y DU).
- 3.67 Ar ben hyn, aethant ymlaen i awgrymu:

“Ie, mae ond pam fydden nhw’n ei ddeall, oherwydd pe baech chi’n edrych ar ddemograffeg heddluoedd...Yr un maes arbenigol nad ydyn ni’n mynd allan o’n ffordd i’w roi mewn heddluoedd yw pobol o gymunedau gwledig... yn eich canlyniadau byddai’n beth diddorol hyrwyddo cynhwysiant pobl o gymunedau gwledig yn ein heddluoedd yn gadarnhaol” (budd-ddeiliad gorfodi'r DU).

- 3.68 Allbwn cysylltiedig arall a nodwyd oedd **cydweithio ymhlith holl asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol i weithio tuag at ganlyniadau Rhaglen Gydgyssylltu WRC** i wella canlyniadau troseddau, megis amddiffyniad deddfwriaethol, gorfodi, dedfrydu. Byddai ymgysylltu o rannau eraill o'r CJS yn rhoi canlyniadau mwy llwyddiannus i swyddogion i'w gwaith, gan gynyddu hyder y gymuned mewn ymateb gorfodi a llesiant.

#### *Data a Chudd-wybodaeth*

- 3.69 Mae data a chudd-wybodaeth gadarn yn ganolog i allbynnau gallu ac adnoddau gwell, megis codi proffil WRC a rhoi adnoddau priodol i fudd-ddeiliaid yn eu rôl. Adleisiwyd y cyfyngiadau data toreithiog a gydnabyddir yn y llenyddiaeth gan gyfranogwyr:

“Mae’n debyg bod y problemau sydd gan wahanol heddluoedd yn adnabyddus i’r rhan fwyaf o amgylch y bwrdd, o ran casglu data a’r systemau gwahanol dan sylw. Felly er enghraifft, mae gan Heddlu De Cymru Niche, mae ganddo Niche o hyd. I chwilio am drosedd bywyd gwyllt mae'n rhaid iddo fod yn chwiliad allweddair oherwydd nid yw'n drosedd hysbysadwy felly mae'n anodd iawn dod o hyd i ...Mae problemau gyda gwneud hynny ac mae'n rhaid i mi fod yn greulon onest maen nhw'n broblemau eithaf anorchfygol hyd yn oed am dim ond pedwar heddlu yng Nghymru i ddod â hynny at ei gilydd. Mae’n broblem erchyll i Loegr hefyd. Dydw i ddim yn gwybod sut i fynd o'i chwmpas hi” (budd-ddeiliad corff anllywodraethol anifeiliaid).

- 3.70 Mae'r mater hwn yn tynnu sylw at hygyrchedd data WRC ar gyfer asiantaethau gorfodi. Hynny yw, hyd yn oed pan fydd y data'n cael ei gofnodi ar systemau'r heddlu, nid yw llawer o WRCs yn adnabyddadwy neu'n cael eu colli ymhlith troseddau cyfaint uchel, oherwydd nad oes ganddynt god adnabyddadwy priodol ac nad ydynt yn droseddau adroddadwy neu hysbysadwy (y gellir eu hadnabod yn hawdd ar y system). Mewn ymateb, nododd yr ymchwiler fod rhai heddluoedd yng

Nghymru wedi datblygu eu cronfa ddata bwrpasol eu hunain, arfer gorau y gellid ei fabwysiadu ledled Cymru.

- 3.71 A thrwy hynny, allbwn mesuradwy hanfodol fyddai **casglu a dadansoddi data troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad safonedig ar draws heddluoedd Cymru**. Wrth wneud hynny gellir sefydlu llinell sylfaen gywir mewn troseddau ac effaith WRC, y gall gwerthusiad Rhaglen yn y dyfodol ei defnyddio fel pwynt cymharu ar gyfer asesu effaith prosiectau. Byddai hyn hefyd yn gwella'r ymateb gorfodi ac yn dangos ei effeithiolrwydd. Mae'r data hwn, ochr yn ochr â **data monitro Rhaglen Gydgysylltu WRC**, hefyd yn ofynnol er mwyn gwerthuso canlyniadau'r Rhaglen (gweler yr adran Gwerthuso a Data isod).
- 3.72 Allbwn cyffredinol a gynigiwyd gan y cyfranogwyr oedd **mapio data budd-ddeiliad, mwy o ymchwil ysgolheigaidd a datblygu strategaeth casglu data Rhaglen Gydgysylltu WRC**. Mae ymgynghoriad Strategaeth WRC Cymru wedi cychwyn y broses mapio data trwy ofyn i gyfranogwyr a ydynt yn dal data yn ymwneud â WRC ac a fyddent yn fodlon rhannu'r data hwn. Dadleuodd y cyfranogwyr na all data gweinyddol (e.e. a gofnodwyd gan asiantaethau statudol) yn unig ddal natur a chyffredinolrwydd WRC nac effeithiolrwydd ymatebion. Awgrymodd cyfranogwyr nad ydynt yn ymwneud â gorfodi a Llywodraeth Cymru fod data budd-ddeiliad ac ymchwil ysgolheigaidd wedi'u defnyddio'n effeithiol i lywio strategaethau presennol y WRC.
- 3.73 Roedd cyfranogwyr hefyd yn cydnabod y byddai angen **rhannu data gwell a chyfrifol** ar gyfer yr uchod, y gellid ei gyflawni drwy Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a/neu ISA. Byddai'r rhain yn diffinio cwmpas a diben rhannu data a disgwyliadau a dderbynnir gan y ddwy ochr.

## **Gweithgareddau**

3.74 Gweithgareddau yw'r camau a gymerir a'r gwaith a gyflawnir i gyflawni allbynnau a chanlyniadau gosodedig. Cafodd y gweithgareddau a nodwyd yn y dogfennau ac a drafodwyd gan gyfranogwyr eu mapio i'r un pedwar categori allbwn: gweithredu strategol, pobl a phartneriaethau, gallu ac adnoddau, a data a chudd-wybodaeth. Mae llawer o'r gweithgareddau a nodwyd yn rhai sydd eisoes yn cael eu cyflawni fel rhan o'r Rhaglen. Felly, mae myfyrdodau cyfranogwyr yn rhoi sylwadau ar waith sydd eisoes yn cael ei gyflawni ac ar weithgareddau sydd eu hangen o hyd. Nodwyd bod Cydgysylltydd WRC yn cydlynu ac yn darparu gweithgareddau amrywiol fel rhan o'r Rhaglen, gan ddefnyddio sianeli a dulliau gwahanol ac amlochrog i gynhyrchu'r allbynnau. Trafodir cwestiynau a ofynnwyd gan gyfranogwyr ar gynaliadwyedd y nifer hwn a'r math o weithgareddau yn yr adran Cyd-destun a thrafodir ymhellach isod yn Risgiau. Mae Tabl 2 yn nodi ystod a graddfa'r gweithgareddau, y gweithredu, y cyfrwng a'r asiantaethau dan sylw, a'r lleoliad targed, fel y nodir yn y dogfennau a gan gyfranogwyr.

**Tabl 2: Gweithgareddau Cydgysylltydd Troseddau Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (WRC)**

Beth	Sut	Pwy	Ble
<p><b>Ymhlith y camau gweithredu:</b></p> <p>Cydweithio, cydlynu, arwain, hwyluso, addysgu, rhwydweithio, mentora, cynghori, hysbysu, datblygu, gwella, diweddarau, sefydlu, codi ymwybyddiaeth</p>	<p><b>Trwy ddulliau megis:</b></p> <p>Cyfarfodydd, strategaeth ysgrifenedig, aelodaeth grŵp strategol, hyfforddiant, gweithrediadau gorfodi arbenigol, cyfryngau cymdeithasol, ymgysylltu â'r cyfryngau, cynadleddau, digwyddiadau dros dro a digwyddiadau eraill, cylchlythyrau, adroddiadau (blynyddol ac eraill)</p>	<p><b>Gyda:</b></p> <p>PDG/PG, Llywodraeth, llunwyr polisi, cyrff statudol (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, NPCC), swyddogion gorfodi'r gyfraith, asiantaethau CJS gan gynnwys y gwasanaeth prawf, cadetiaid, grwpiau buddiant, cyrff anllywodraethol, cymunedau gwledig</p>	<p><b>Yn:</b></p> <p>Lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ledled Cymru a'r DU</p>

*Gweithredu Strategol*

- 3.75 Gyda lansiad diweddar Strategaeth WRC Cymru, ailadroddodd y cyfranogwyr fod **cydlynu a gweithredu'r Strategaeth** yn weithgaredd allweddol i Gydgyssylltydd WRC. Roedd yn amlwg mai un o'r prif dasgau a gyflawnwyd gan y Cydgysylltydd oedd datblygu a gweithredu dull cydgysylltiedig, cynhwysfawr ar gyfer **Cymru gyfan i fynd i'r afael â throseddau bywyd gwylt a chefn gwlad:**

“Rôl [Cydgysylltydd WRC] ... yw cydlynu gweithgaredd rhwng y pedwar Heddlu yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, a Chyfoeth Naturiol Cymru, sefydliadau statudol a gwirfoddol.” (Heddlu Dyfed Powys Police, 2021)

- 3.76 Nododd dogfennau pellach (Llywodraeth Cymru, 2023; Llywodraeth Cymru, 2023a) fod ymchwil diweddar i WRC yng Nghymru a strategaeth yr NPCC wedi darparu'r **dystiolaeth sy'n sail i'r meysydd blaenoriaeth troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad** a ddiffinnir yn benodol ar gyfer Cymru. Chwaraeodd y broses hon o gasglu tystiolaeth ran hollbwysig wrth lunio Rhaglen Gydgysylltu WRC. Fodd bynnag, roedd mewnwelediadau a gafwyd gan gyfranogwyr yn dangos bod angen tystiolaeth bellach i gyfiawnhau'r ymagwedd hon.

“Hoffwn weld sut y cawsant [PGs Rhaglen] eu nodi mewn gwirionedd a pha fodelau a ddefnyddiwyd i wneud hynny. Yn amlwg o fewn troseddau bywyd gwyllt, rydym yn defnyddio modelau penodol o nodi ardaloedd blaenoriaeth bywyd gwyllt, ac rwy'n meddwl tybed sut y cafodd ei nodi yng Nghymru mewn perthynas â hynny?” (budd-ddeiliad gorfodi'r DU)

- 3.77 Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod pwysigrwydd sefydlu dolen adborth rhwng Cydgysylltydd WRC a budd-ddeiliaid i feithrin ymdrechion cydweithredol gyda phartneriaid a budd-ddeiliaid i lywio datblygiadau Rhaglen Gydgysylltu WRC. Byddai'r dull cydweithredol hwn yn sicrhau bod y Rhaglen yn gynhwysfawr, yn wybodus, ac wedi'i halinio â blaenoriaethau ac anghenion yr holl bartïon cysylltiedig. Fel rhan o hyn, tynnodd cyfranogwyr LIC sylw at y ffaith bod Cydgysylltydd WRC yn **cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda chydweithwyr o Lywodraeth Cymru**<sup>15</sup>. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi llywio blaenoriaethau, allbynnau a chanlyniadau'r Rhaglen drwy rannu gwybodaeth. Roeddent hefyd yn rhan bwysig o strwythur llywodraethu'r Rhaglen a datblygiad a monitro ToC yn y dyfodol. Gweithiodd Cydgysylltydd WRC a Llywodraeth Cymru gyda'i gilydd i gysoni eu hymdrechion a sicrhau bod cyfeiriad a nodau'r Rhaglen yn cyd-fynd ag amcanion ehangach ymatebion Llywodraeth Cymru a'r DU i WRC. Fel y dadleuwyd gan un o fudd-ddeiliaid Llywodraeth Cymru:

“Mae wedi bod yn bwysig fy mod yn meddwl i [Cydgysylltydd WRC] ac i ni ein hunain ar gefn hynny, ei fod mewn gwirionedd yn cyfarfod â ni yn wythnosol, felly mae'n amlwg yn dal i fyny â'r hyn sy'n digwydd ar lefel lywodraethol o lefel

---

<sup>15</sup> Ar adeg yr adroddiad, mae'r cyfarfodydd hyn wedi bod yn cael eu cynnal ers i'r rôl Gydgysylltu ddechrau yn 2021.

weinidogol ac fe yna bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am yr hyn y mae wedi bod yn ei wneud.”

### *Pobl a Phartneriaethau*

- 3.78 Mae'r Rhaglen wedi cynnwys **partneriaeth agos ag asiantaethau gorfodi wrth iddynt gydweithio'n frwd i ddatblygu a gweithredu ymateb cydlynol a rhesymegol i droseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad** (Cynnig papur bwrdd cydweithio'r heddlu ar gyfer Cydgysylltydd WRC 2021). Nod y cydweithio hwn yw cefnogi strategaethau a chymau gweithredu cyson yr heddlu i fynd i'r afael yn effeithiol â heriau gorfodi. Mae arfer gorau, megis mabwysiadu cynllun yn cynnwys elfennau paratoi, atal, dilyn a diogelu, fel y nodir yn y Strategaeth, yn hwyluso ymateb cydlynol.
- 3.79 Mae gweithgareddau Cydgysylltydd WRC hefyd wedi cynnwys **cydweithio â PGs troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad allweddol cenedlaethol a phartneriaid yng Nghymru a'r DU**. Dywedodd y cyfranogwyr a'r ffynonellau wedi'u dogfennu fod Cydgysylltydd WRC yn chwarae rhan bwysig ac arweiniol wrth **hwyluso trafodaethau a monitro PGs Strategaeth WRC Cymru**, i gefnogi'r grwpiau hyn i **weithio'n llwyddiannus tuag at eu hamcanion allweddol** (Cydgysylltydd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru, 2022). Trwy olrhain cynnydd y Strategaeth yn agos, mae'r Cydgysylltydd yn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gyson â'r cyfeiriad strategol cyffredinol ac yn cyfrannu'n effeithiol at amcanion y Rhaglen.
- 3.80 Tynnodd y cyfranogwyr sylw at y ffaith bod angen i weithgareddau'r Rhaglen wella'r cydgysylltu ymhlith y budd-ddeiliaid allweddol yn bennaf. Mae Cydgysylltydd WRC yn chwarae rhan ganolog yn yr ymdrech hon drwy **drefnu digwyddiadau ymgysylltu a hwyluso prosesau sy'n meithrin rhwydweithio a chyfathrebu effeithiol ymhlith y budd-ddeiliaid hyn** (Heddlu Dyfed Powys, 2021). Mae'r Cydgysylltydd hefyd wedi **codi ymwybyddiaeth a darparu cymorth addysgol ar droseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad a Rhaglen Gydgysylltu WRC** trwy ledaenu gwybodaeth yn rheolaidd ac ymgysylltu â'r budd-ddeiliaid hyn. Wrth wneud hyn, mae gan y Cydgysylltydd ddealltwriaeth a gwybodaeth gynyddol o bwysigrwydd y Rhaglen, a'r materion sy'n ymwneud â WRC.

- 3.81 At hynny, cydnabuwyd bod **Cydgysylltydd WRC yn adnodd gwerthfawr, yn darparu pwynt cyswllt canolog ac arbenigedd ar gyfer cyfeirio swyddogion y llywodraeth, llunwyr polisi, asiantaethau CJS a budd-ddeiliaid eraill at wybodaeth a chynghor arbenigol ar faterion yn ymwneud â throseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad**. Drwy roi mynediad i arbenigedd i'r budd-ddeiliaid hyn, mae'r Cydgysylltydd yn chwarae rhan hanfodol wrth lywio deddfwriaeth a gwneud penderfyniadau sy'n llywio ymatebion WRC y tu hwnt i'r Rhaglen. Yn yr un modd, gall y gweithgareddau hyn **godi ymwybyddiaeth am droseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad a'i effaith ar gymdeithas ledled y CJS**.
- 3.82 Ar ben hynny, un gweithgaredd nodedig a gyflawnwyd gan y Rhaglen oedd **hyrwyddo allbynnau a chanlyniadau trwy bresenoldeb cyfryngau a strategaeth gyfathrebu sefydledig**. Nod y dull hwn yw ymgysylltu â'r holl fudd-ddeiliaid, gan gynnwys cymunedau gwledig, drwy drosoli amrywiol sianeli cyfathrebu. Roedd yn amlwg gan gyfranogwyr, fodd bynnag, y dylai'r dull cyfathrebu presennol nodi a chanolbwyntio ar y dulliau mwyaf effeithiol a dymunol. Mae'r sylwadau a ddarparwyd yn nodi'r angen i wneud y gorau o adnoddau, yn enwedig amser y Cydgysylltydd, trwy er enghraifft, ddatblygu strategaeth gyfathrebu Rhaglen.

*Gallu ac Adnoddau*

- 3.83 Nodwyd, yn y dogfennau a chan y cyfranogwyr, fod Cydgysylltydd WRC wedi bod wrthi'n **datblygu ac yn hwyluso pecyn hyfforddi cynhwysfawr**, wedi'i gynllunio i fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi hanfodol a phenodol Swyddogion WRC. Mae'r pecyn hyfforddi hwn wedi'i deilwra i fodloni'r gofynion a'r heriau unigryw sy'n wynebu gorfodi gwledig:
- “[Cydgysylltydd WRC] yw'r cydgysylltydd allweddol rhwng holl Heddluoedd Cymru, yr holl asiantaethau partner. [Mae wedi] cymryd rhan yn yr holl hyfforddiant, canolbwyntio ar yr holl hyfforddiant, [a chymhwyso] yr hyfforddiant.” (budd-ddeiliad Llywodraeth Cymru).
- 3.84 Yn bwysig, mae'r ymchwil yn pwysleisio na ddylai'r hyfforddiant hwn fod ar gyfer swyddogion rheng flaen yn unig, ond hefyd staff cymorth. Er enghraifft, cynigiodd y ddogfen Newyddion Cydgysylltydd Heddluoedd Gwledig a Bywyd Gwyllt Cymru – Adolygiad o 2022 ehangu hyfforddiant i bob tîm cadet a heddlu gwledig gan



gynnwys staff ystafell reoli'r heddlu ledled Cymru. Yn ogystal â hyfforddiant, mae **Cydgysylltydd WRC wedi datblygu cyfleoedd mentora ar gyfer swyddogion gorfodi troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad.** Gan gydnabod gwerth mentoriaeth mewn datblygiad proffesiynol, dywedodd un budd-ddeiliad o Lywodraeth Cymru mai nod Cydgysylltydd WRC oedd darparu arweiniad, cymorth a llwyfannau rhannu gwybodaeth ar gyfer y swyddogion hyn. Mae'r gweithgareddau presennol hyn yn rhoi cyfle yn y Rhaglen am gynllun mentora mwy ffurfiol sy'n llai dibynnol ar Gydgysylltydd WRC.

- 3.85 Yn olaf, amlygwyd pwysigrwydd rhoi'r offer angenrheidiol i swyddogion gan gyfranogwyr. Mae hyn wedi'i hwyluso gan weithgareddau'r Rhaglen a oedd yn **hyrwyddo cydweithio a mynediad i adnoddau a rennir ym maes cymuned gorfodi troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad.** Roedd hyn yn cynnwys **cefnogi rhannu cudd-wybodaeth ac arbenigedd ar gyfer gweithrediadau gorfodi wedi'u targedu.**

#### *Data a Chudd-wybodaeth*

- 3.86 Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae Cydgysylltydd WRC wedi **cynnal data a mapio budd-ddeiliad** (e.e. ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, 2023a) i nodi cyfleoedd ar gyfer rhannu data a chydweithio. Mynegodd y cyfranogwyr gonsensws cryf ar bwysigrwydd rhannu data a mynegwyd eu parodrwydd i gyfrannu at yr ymdrech hon:

“NWCU, mae ganddyn nhw'r gyllideb a'r adnoddau, y dadansoddwyr i ddechrau edrych ar y data, ond rydyn ni eisiau i Gymru fod yn rhan o hynny [casglu data trwy fwydo i] PDGs... Ac ar hyn o bryd yr hyn rydyn ni'n ei weld yw [Cydgysylltydd WRC] sydd mor dan bwysau fel bod angen i ni yng Nghymru gynrychiolaeth o'r holl grwpiau hynny o Adar Ysglyfaethus i Drais Domestig fod yn rhan o rai o'r PDGs a bwydo eu data i mewn ac yna mae'r data hwnnw'n cael ei sianelu i greu'r darlun cenedlaethol hwnnw. Dyna lle dwi'n ei weld yn mynd” (budd-ddeiliad Corff Anllywodraethol Anifeiliaid).

- 3.87 Mae'r sylw hwn hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd rhannu gweithgareddau'r Rhaglen ar draws budd-ddeiliaid, er mwyn sicrhau bod rôl Cydgysylltydd WRC yn canolbwyntio ar y tasgau mwyaf arwyddocaol. Er nad yw'r data diweddar a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru yn yr ymgynghoriad (2023a) wedi'i weithredu eto,

cydnabu'r cyfranogwyr fylchau mewn ymgysylltu â budd-ddeiliad, gan awgrymu bod angen mapio pellach fel rhan o weithgareddau'r Rhaglen.

- 3.88 Er mwyn hwyluso casglu data monitro, er mwyn annog a ffurfioli rhannu data asiantaethau partner, awgrymodd y cyfranogwyr y dylid **gweithredu MOUs ac ISAs**.
- 3.89 Mwyaf dybryd ymhlith y cyfranogwyr oedd **cyflwyno mesurau i wella cywirdeb arferion cofnodi data, adrodd a rhannu yn ymwneud â throseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad ar draws heddluoedd Cymru**. Deilliodd y cam gweithredu hwn o'r ddealltwriaeth bod data cadarn a dibynadwy yn hanfodol ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol, dyrannu adnoddau, a chynllunio strategol wrth frwydro yn erbyn WRC. Er mwyn cyflawni hyn, cydnabu'r cyfranogwyr yr angen i'r Rhaglen fynd ati i **godi ymwybyddiaeth ymhlith yr holl sefydliadau CJS a phartneriaid perthnasol** o bwysigrwydd data cywir a hygyrch wrth fynd i'r afael yn effeithiol â WRC.
- 3.90 Gyda'i gilydd, ystyriwyd bod ystadegau gweinyddol gwell y CJS, data budd-ddeiliad a **gwell ymgysylltiad â'r gymuned ysgolheigaidd** ac ymchwil yn cyfrannu at **gasglu data monitro dibynadwy, amserol a dilys sy'n angenrheidiol er mwyn gwerthuso perfformiad a chanlyniadau'r Rhaglen yn effeithiol**.

### **Mewnbynnau**

- 3.91 Mewnbynnau yw'r adnoddau ariannol, dynol a materol sydd wedi'u hymrwymo i'r Rhaglen. Mae'r categori hwn yn cynrychioli'r mewnbynnau hynny sydd ar waith ar hyn o bryd (gweler Ffigur 3 testun gwyrdd) a'r rhai a nodwyd yn ofynnol (testun coch) ar gyfer nodau'r Rhaglen. Trafodir effaith peidio â darparu'r adnoddau hyn yn yr adran Risgiau. Trafodir y mewnbynnau a amlygwyd yn y dogfennau a chan gyfranogwyr mewn pedwar categori tebyg i weithgareddau ac allbynnau: fframwaith a strwythurau strategol, cyllid ac adnoddau, pobl a phartneriaethau, data a chuddwybodaeth.

### *Fframwaith a Strwythurau Strategol*

- 3.92 Tair **strategaeth graidd yn amlinellu'r amcanion, y blaenoriaethau, a'r cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â throseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad**

**yn sail i Raglen Gydgysylltu'r WRC.** Darparodd Strategaeth NPCC 2022-25 ac Asesiad Strategol NWCU 2022 fframwaith ar gyfer Strategaeth WRC Cymru, sy'n helpu i gyflawni canlyniadau'r Rhaglen. Pwysleisiodd y cyfranogwyr y bydd synergedd rhwng y strategaethau hyn yn helpu i gydlynu'r ymateb i WRC yng Nghymru a thu hwnt. Mae Strategaeth WRC Cymru yn darparu ffocws hanfodol ar gyfer y Rhaglen er mwyn targedu'r materion mwyaf hanfodol a threiddiol yn WRC. Er mai ychydig o gyfranogwyr a roddodd sylwadau penodol ar fewnbwn deddfwriaeth a pholisi WRC, awgrymwyd bod y strategaethau hyn yn angenrheidiol i weithredu'n effeithiol, ac o bosibl hysbysu, deddfwriaeth a pholisi yn y dyfodol.

- 3.93 Rhoddodd cyfranogwyr hefyd bwyslais cryf ar bwysigrwydd **sefydlu strwythur llywodraethu Rhaglen cadarn sy'n lleoli Cydgysylltydd WRC o fewn Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â phedwar heddlu Cymru ac o fewn y rhwydwaith ehangach o asiantaethau gorfodi troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad y DU a grwpiau blaenoriaeth.** Dadleuwyd y byddai'r trefniant hwn yn cyfleu hygrededd, cyfreithlondeb ac awdurdod angenrheidiol Cydgysylltydd WRC yn effeithiol, gan sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau i gyflawni canlyniadau Rhaglen Gydgysylltu WRC.

#### *Pobl a Phartneriaethau*

- 3.94 Roedd yn amlwg bod llwyddiant Rhaglen Gydgysylltu WRC yn dibynnu ar recriwtio unigolyn ar gyfer swydd Cydgysylltydd WRC gyda'r hynafedd, yr arbenigedd, y profiad a'r rhwydwaith priodol. Dadleuodd y cyfranogwyr fod angen y cymwysterau a'r sgiliau hyn ar yr ymgeisydd a ddewiswyd i yrru Rhaglen Gydgysylltu WRC yn ei blaen yn effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys dealltwriaeth ddofn o faterion WRC, profiad perthnasol yn y maes, a rhwydwaith sefydledig o fudd-ddeiliaid a sefydliadau perthnasol. At hynny, fel y nododd un cyfranogwr, rhaid i'r rôl fod â hynafedd:

“Mae'n rhaid iddo fod yn rhywun uwch i fyny'r gadwyn, gyda thipyn bach o ddylanwad o fewn yr heddlu. Felly, os mai rôl y cydgysylltydd yw ceisio dylanwadu ar uwch reolwyr o fewn y gwasanaeth heddlu, yna dyna un ffordd ymlaen” (budd-ddeiliad gorfodi'r DU).

- 3.95 Yn y rôl hon, mae mewnbwn Cydgysylltydd WRC yn helpu i feithrin cydweithrediad agosach â budd-ddeiliad, pontio meysydd llywodraethu datganoledig (bywyd gwyllt,

anifeiliaid, yr amgylchedd) a meysydd llywodraethu heb eu datganoli (trosedd a CJS) yng Nghymru a blaenoriaethu cymunedau gwledig Cymru yn y CJS. Roedd y canfyddiadau'n dangos bod hyn wedi'i gyflawni gyda deiliad presennol y rôl. Fodd bynnag, nid yw'r radd bresennol a ddyrennir i'r rôl yn adlewyrchu'r lefel hon o arbenigedd a phrofiad. O ganlyniad, mynegwyd pryder am gynaliadwyedd y rôl, o ran cadw a recriwtio yn y dyfodol (gweler risgiau).

- 3.96 Gan fod cydweithredu a phartneriaeth yn ganolog i Raglen Gydgysylltu WRC, pwysleisiodd y cyfranogwyr rôl hollbwysig **budd-ddeiliaid allweddol sydd ag arbenigedd mewn troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad i ddarparu cymorth hanfodol, eiriolaeth, ac ystod amrywiol o sgiliau ac adnoddau i Raglen Gydgysylltu WRC** (e.e. Llywodraeth Cymru, PLU, heddluoedd, timau WRC, NPCC, NWCUC, CNC, NFU, grwpiau buddiant, grwpiau cymunedol, grwpiau busnes, cyrff anllywodraethol, cyfryngau). Mae cymorth gan y budd-ddeiliaid hyn wedi bod, a gall fod, ar wahanol ffurfiau, gan gynnwys rhannu arfer gorau, darparu arbenigedd technegol, cynnig adnoddau megis offer arbenigol, a eiriol dros ymatebion WRC. Mae cyfranogiad budd-ddeiliad wedi gwella effeithiolrwydd ac effaith y rhaglen yn fawr, gan sicrhau dull cydweithredol ac amlddisgyblaethol o frwydro yn erbyn WRC yng Nghymru. Rhaid i hyn hefyd gynnwys harneisio cydweithio â chymunedau gwledig, sy'n warcheidwaid cynefinoedd a'r dioddefwyr a thystion yn WRC.

#### *Cyllid ac Adnoddau*

- 3.97 Mae adnoddau ariannol a logistaidd yn dod i'r amlwg fel ffactor hollbwysig ar gyfer llwyddiant Rhaglen Gydgysylltu WRC. Bydd y **cyllid tair blynedd (2022 i 2025)** a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn hollbwysig wrth ddatblygu Rhaglen Gydgysylltu WRC. Yn ddiamau, mae adnoddau ariannol yn hanfodol i gynaliadwyedd rôl Cydgysylltydd WRC a'r Rhaglen. Er mwyn ymgysylltu'n effeithiol â budd-ddeiliaid ledled Cymru a'r DU, cydnabu'r cyfranogwyr fod **angen i Gydgysylltydd WRC gael ymreolaeth i wneud penderfyniadau a hyblygrwydd logistaidd**. Mae hyn yn golygu rhoi awdurdod i Gydgysylltydd WRC wneud penderfyniadau annibynnol a chymryd y camau angenrheidiol i gyflawni gofynion y rôl, gan gynnwys cyllid ar gyfer **teithio a chynhaliath**. Byddai cyllid digonol ac ymreolaeth yn y meysydd hyn yn galluogi deiliad y swydd i gynnal ymweliadau maes hanfodol, mynychu cyfarfodydd, a sefydlu partneriaethau effeithiol, gan sicrhau ymgysylltu a chydgyssylltu cynhwysfawr wrth frwydro yn erbyn WRC.

3.98 Tynnodd y cyfranogwyr sylw hefyd at yr angen i **wella cyllid ar gyfer personél i ddarparu cymorth angenrheidiol i Gydgysylltydd WRC**. Byddai hyn yn eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau yn fwy effeithiol o ran rheoli gwybodaeth, gwneud penderfyniadau, ac effeithlonrwydd gweithredol cyffredinol. Fel y trafodwyd uchod, dadleuodd y cyfranogwyr, gan fod rôl Cydgysylltydd WRC wedi ehangu ochr yn ochr â'r Rhaglen i ystod anghynaliadwy o weithgareddau a chyfrifoldebau, fel y nodwyd gan y sylw hwn gan fynychwr grŵp ffocws:

“Bydd [Cydgysylltydd WRC] yn ceisio llenwi, ond nid yw'n gweithio oherwydd ei fod o dan ormod o bwysau” (budd-ddeiliad Corff Anllywodraethol Anifeiliaid).

O ganlyniad, cynigiodd y cyfranogwyr y gallai cynorthwydd gefnogi Cydgysylltydd WRC gydag amrywiol dasgau gweinyddol a PG. Ymhellach, awgrymwyd y byddai angen i Gydgysylltydd WRC ddirprwyo personél i fynychu cyfarfodydd PG Cymru a'r DU (e.e. NWCU, Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol) a darparu dolen adborth ar gyfer y Rhaglen.

3.99 Nododd y cyfranogwyr fod **angen cyllid ychwanegol i gefnogi personél allweddol o fewn y CJS sy'n arbenigo mewn troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad**. Er enghraifft, dadansoddwyr data mewn asiantaethau gorfodi a allai gefnogi ymdrechion cynhwysfawr i gasglu a dadansoddi data WRC, a phersonél ymroddedig yn y CPS a'r llysoedd. Byddai dyrannu adnoddau ariannol i ddarparu hyfforddiant a gwella arbenigedd a chapasiti wrth ymdrin ag achosion o'r fath, yn cyfrannu at orfodi a chanlyniadau mwy effeithiol, angen hanfodol a nodwyd gan gyfranogwyr.

3.100 Nodwyd gofynion ariannu hefyd i gefnogi allbynnau a chanlyniadau allweddol eraill y Rhaglen a nodwyd uchod. Megis, **datblygu a gweithredu rhaglenni ymgysylltu wedi'u targedu, sefydlu rhwydweithiau cudd-wybodaeth cadarn, darparu hyfforddiant i bersonél gorfodi'r gyfraith, a hyrwyddo addysg gyhoeddus ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth**. Byddai cymorth ariannol yn hybu effeithiolrwydd cyffredinol y Rhaglen ac yn helpu i gyflawni amcanion Strategaeth WRC Cymru.

#### *Data a Chudd-wybodaeth*

3.101 **Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn rhoi mewnbwn gwerthfawr i'r Rhaglen** gan ei fod yn casglu profiadau budd-ddeiliaid wrth ymgysylltu â Rhaglen Gydgysylltu WRC. Mae hefyd yn dangos effaith gadarnhaol ac effeithiolrwydd rôl

Cydgysylltydd WRC, ym mis Ionawr 2023. Fel y nodwyd uchod, nodwyd argaeledd data a hygyrchedd a chynhyrchu cudd-wybodaeth fel her sylweddol wrth ymateb i WRC (gweler yr adran Cyd-destun am drafodaeth bellach ar rwystrau).

Pwysleisiodd y cyfranogwyr yr angen i **gofnodi digwyddiadau troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad yn effeithiol ac yn gyson ar draws gwahanol heddluoedd yng Nghymru, gan alluogi casglu a dadansoddi data mwy cynhwysfawr:**

“Data yw popeth. Dyma'r sylfaen mewn gwirionedd lle rydych chi'n seilio'ch penderfyniadau ac rydych chi'n dyrannu'ch adnoddau. Ac rwy'n sicr yn meddwl y dylai'r Rhaglen hon fod wedi ... mae angen i Gymru fod yn rhan o ymgyrch ar lefel y DU i wneud troseddau cofnodadwy, hysbysadwy” (budd-ddeiliad corff anllywodraethol anifeiliaid).

- 3.102 Yn ogystal, pwysleisiodd y cyfranogwyr yr angen am **gronfa ddata benodol ar gyfer troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad a fyddai'n gwella'r galluoedd dadansoddi a chudd-wybodaeth am droseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad.** Byddai'r gronfa ddata hon yn hwyluso rhannu data a chudd-wybodaeth ymhlith asiantaethau gorfodi Cymru, gydag asiantaethau cenedlaethol (e.e. NWCU), partneriaid statudol (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a budd-ddeiliad eraill (e.e. cyrff anllywodraethol). Fel y cadarnhaodd un cyfranogwr:

“Nid oes gan yr un ohonom systemau oni bai ein bod yn adeiladu ein rhai ein hunain sy'n fath o fandraulig, sef yr hyn a wnaethom yng Ngogledd Swydd Efrog. Nid oes gan yr un ohonom systemau a all fynd ag ef yn ôl i ystadegau ... Mapio ac ystadegau, dyna o ble y dylai'r holl benderfyniadau hyn ddod” (budd-ddeiliad gorfodi'r DU).

- 3.103 Yn ddelfrydol, byddai holl heddluoedd Cymru yn defnyddio cronfa ddata bwrpasol i ddarparu darlun rhanbarthol a chenedlaethol o WRC yng Nghymru:

“Mae Gogledd Cymru yn gweithio oddi ar system o'r enw ICAD lle mae hyn yn gweithio'n dda iawn. Mae De Cymru yn defnyddio STORM sy'n system wahanol. Mae gan Dyfed Powys Niche ac mae Gwent yn defnyddio rhywbeth arall, felly maen nhw i gyd ar systemau gwahanol... os oedd system gyfartal yr oedden nhw i gyd yn gweithio arni gallwn i ddweud yn iawn, gadewch i ni roi hyn i gyd ar waith a wyddoch chi beth? O fewn tua hanner diwrnod gallwn gael y cyfan yn ei le” (deiliad rôl Cydgysylltydd WRC).

- 3.104 **Mae ymchwil presennol a ddarperir gan gyrff anllywodraethol, busnesau, ysgolheigion, a chyrff y llywodraeth**, megis Asesiad Pecyn Cymorth y CU, yn hanfodol i ddangos pa mor gyffredin yw WRC, natur ac effaith y Cyngor, a thrwy hynny, mae'n sail i'r amrywiol Strategaethau. Roedd rhai cyfranogwyr yn cydnabod gwerth **ymchwil ysgolheigaidd pellach i wella dealltwriaeth o natur, mynychder, ac ymatebion effeithiol i droseddau bywyd gwylt a chefn gwlad**. Byddai cynnal astudiaethau ymchwil yn y maes hwn yn cefnogi ac yn gwella data gweinyddol ac yn cyfrannu at ddatblygu strategaethau ac ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan roi mewnwleidiad gwerthfawr i fynd i'r afael â WRC yn fwy effeithiol.
- 3.105 Mae'r adran hon wedi rhoi disgrifiad ac enghraifft gynhwysfawr o sut a pham y disgwylir i'r newid a ddymunir gan y Rhaglen ddigwydd, drwy fynegi'r broses newid sydd ei hangen i gyflawni ei hallbynnau a'i chanlyniadau. Mae'r adran ganlynol yn ystyried y tybiaethau a'r risgiau i'r ToC.

### **Tybiaethau**

- 3.106 Roedd yr ymchwil yn dadansoddi dogfennau ac yn gwahodd cyfranogwyr i roi sylwadau ar y damcaniaethau a'r tybiaethau sy'n cefnogi safbwyntiau ar sut roedd Rhaglen Gydgysylltu WRC yn gweithredu, a chryfder y dystiolaeth sy'n cefnogi'r tybiaethau hyn. Mae'n bwysig nodi bod rhai o'r tybiaethau hyn yn adlewyrchu barn cyfranogwyr ac efallai nad ydynt yn gydnaws â'r strwythur llywodraethu a'r pwerau sydd ar waith. Er enghraifft, mae'r Rhaglen yn dibynnu ar asiantaethau nad ydynt wedi'u datganoli ac nad ydynt yn adrodd i Lywodraeth Cymru, ac felly mae eu cyfranogiad yn wirfoddol. Y tybiaethau allweddol a amlinellir yw:
- cymunedau gwledig, amgylcheddau, anifeiliaid, a bioamrywiaeth yng Nghymru dan fygythiad o ganlyniad i WRC,
  - mae ymateb i WRC yn gofyn am fwy o amddiffyniad cyfreithiol i ddiodefwr troeddau dynol ac annynol a'r amgylchedd,
  - mae problem WRC yn eang ac amrywiol, ac yn cyflwyno heriau unigryw i'r asiantaethau statudol a'r budd-ddeiliaid sy'n gyfrifol am ymateb iddi o gymharu â mathau eraill o droseddau,

- byddai dull gorfodi cydgysylltiedig ledled Cymru yn cynyddu canfod ac atal WRC, diogelu bywyd gwylt a chymunedau gwledig, a gwella'r ymateb gorfodi cyffredinol,
- mae rôl Cydgysylltydd WRC yn bwynt cyswllt ac arbenigedd canolog pwysig, ac yn hwylusydd ar gyfer ymateb cydgysylltiedig,
- rhaid i fudd-ddeiliaid, gan gynnwys cymunedau gwledig, fod yn rhan o ymateb WRC i newid, mae budd-ddeiliaid yn fodlon cefnogi'r newid hwn,
- bydd cynrychiolaeth ac ymgysylltiad cyfartal gan holl heddluoedd Cymru yn cynyddu adnoddau, arbenigedd a dealltwriaeth, yn manteisio ar yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i ymateb i WRC, ac yn cyfyngu ar ddadleoli troseddau a datblygiad troseddwr difrifol a chyfundrefnol,
- bydd data mwy dibynadwy, dilysrwydd, hygyrchedd, gronynnedd, a rhannu yn arwain at Raglen Gydgysylltu WRC gadarn,
- nid yw'r lefelau presennol o flaenoriaethu a chyllid i ymateb i WRC mewn asiantaethau statudol yn adlewyrchu'r ymateb a'r canlyniadau gorfodi cadarn, a'r Swyddogion WRC hyderus a gwydn sydd eu hangen.

3.107 Mae angen profi'r rhagdybiaethau hyn fel rhan o werthusiad y Rhaglen.

### **Risgiau**

3.108 Wrth drafod y canlyniadau dymunol, allbynnau, gweithgareddau, a mewnbynnau, pwysleisiodd y cyfranogwyr risgiau niferus i gyflawni'r rhain. Roedd cynaliadwyedd Rhaglen Gydgysylltu WRC yn bryder craidd ac roedd y cyfranogwyr yn ystyried ei fod yn dibynnu ar rôl Cydgysylltydd WRC, personél gorfodi troseddau bywyd gwylt a chefn gwlad, cydweithio â budd-ddeiliad, a darparu adnoddau.

### *Risgiau sy'n ymwneud â dibynnu ar ddeiliad rôl Cydgysylltydd WRC*

3.109 Gan fod y Rhaglen yn **ddibynnol iawn ar arbenigedd ac effeithiolrwydd deiliad rôl Cydgysylltydd WRC**, ystyriwyd bod hyn yn agored i niwed arbennig: "rhan risg hyn oll yw ei fod yn ddibynnol ar [Cydgysylltydd WRC] a dyna'r risg i'r rhaglen" (budd-ddeiliad Llywodraeth Cymru).



3.110 Yn gysylltiedig â'r risg hon roedd **adnoddau rôl Cydgysylltydd WRC** (e.e. gradd cyflog, ymreolaeth ariannol, staff cymorth) a'r angen i sicrhau bod deiliaid rôl y dyfodol mor wybodus, galluog a chydweithredol. Fel y nodwyd uchod yn Gweithgareddau, byddai hyn yn cael ei effeithio gan y raddfa gyflog gyfredol, a nodwyd fel un is na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol ac na'r sefyllfa gyfatebol mewn manau eraill yn y DU (budd-ddeiliad Llywodraeth Cymru). Ar ben hynny, roedd llawer o gyfranogwyr yn credu bod Cydgysylltydd WRC dan bwysau (o ran gweithgareddau ac allbynnau), ac wrth i'r Rhaglen dyfu byddai hyn yn bygwth cyflawni.

3.111 Yn yr un modd, rhoddodd adborth cyfranogwyr ar y ToC drafft rybudd i **orgyrraedd y Rhaglen:**

“Mae'n strategaeth sydd am gyflawni popeth mewn cyfnod o dair blynedd pan, mewn gwirionedd, y rhan fwyaf o'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni, y byddech am ei ddangos dros amserlen lawer hirach” (budd-ddeiliad Cymdeithas Ffermio).

*Risgiau yn ymwneud ag adnoddau cyfyngedig*

3.112 O ganlyniad, ystyriwyd bod tymor byr yn ymwneud â chyllid a chymorth gwleidyddol yn risg i gynaliadwyedd y Rhaglen. Er enghraifft, cydnabu'r cyfranogwyr gefnogaeth a buddsoddiad y Gweinidog presennol, ond mynegwyd pryder ganddynt y gallai'r cylchoedd etholiadol sydd i ddod newid hyn. Byddai hyn yn arbennig o broblemus os na cheir tystiolaeth glir o ganlyniadau'r Rhaglen.

3.113 Nodwyd hefyd bod effaith **adnoddau cyfyngedig y Rhaglen**, naill ai wedi'u hariannu'n benodol gan y Rhaglen neu gan sefydliadau partner, yn peri risg i gyflawniad a chynaliadwyedd. Er enghraifft, mae'r ToC yn tynnu sylw at y ffaith bod diffyg cymorth i Swyddogion y Cyngor a Thimau'r WRC, o ran derbyn hyfforddiant a'r adnoddau i wneud eu gwaith, yn arwain at drosiant personél uchel, adnoddau'n cael eu gwastraffu, effaith ar les cymunedau gwledig, cyfyngiadau canlyniadau i ddiodefwr, a budd-ddeiliaid sydd wedi ymddieithrio.

*Risgiau sy'n ymwneud ag ymgysylltu â budd-ddeiliad a phartneriaeth*

3.114 Roedd **anghenion a blaenoriaethau cystadleuol budd-ddeiliaid** hefyd yn codi pryder ymhlith cyfranogwyr, oherwydd gallai hyn arwain at ffocws Rhaglen gwanedig ac ymddieithrio budd-ddeiliaid. Mae cynulleidfaoedd lluosog ag

anghenion a ffocws amrywiol (sy'n cysylltu'n ôl â mater diffiniad, ffocws a chynhwysiant) yn peri risg i'r Rhaglen os na chânt eu rheoli'n effeithiol. Yn y bôn, ni all y Rhaglen wneud popeth i bawb, fodd bynnag, mae'n rhaid i fudd-ddeiliaid weld yn fras anghenion eu sefydliad yn cael eu cynrychioli yn y Rhaglen ToC.

“Gallwn weld bod yna gynulleidfaoedd lluosog, ac mewn gwirionedd, mae anghenion y rheini'n amrywio ... i lawr i ffermwr unigol yn Sir Gaerfyrddin, hyd at sefydliadau strategol rydyn ni'n siarad amdany'n nhw yma (budd-ddeiliad Llywodraeth Cymru).

- 3.115 **Byddai diffyg ymgysylltu â'r Rhaglen gan bartneriaid a budd-ddeiliaid allweddol** yn amharu'n ddifrifol ar y canlyniadau. Gall cyfranogiad, ymhlith rhai budd-ddeiliaid allweddol, yn ôl cyfranogwyr, fod yn gyfyngedig oherwydd nad yw WRC yn cael ei flaenoriaethu gan asiantaethau a sefydliadau, adnoddau cyfyngedig, a diffyg dealltwriaeth o'u rôl wrth ymateb i WRC.
- 3.116 Wrth i'r ymateb i WRC newid dros amser, felly hefyd y budd-ddeiliaid y mae angen eu cynnwys. Nododd y cyfranogwyr **fylchau yn y gwaith o fapio budd-ddeiliaid a holwyd a oedd y budd-ddeiliaid 'cywir' yn cael eu cynnwys:**
- “Rhan o hynny [y ToC] yn ei hanfod yw mapio budd-ddeiliad. Gyda phwy ydych chi'n ceisio siarad? Gyda phwy ydych chi'n ceisio ymgysylltu? Pa rai yw'r rhai pwysicaf a pham ydych chi'n ceisio ymgysylltu â nhw, sy'n mynd yn ôl i fireinio'r pethau hyn i fod yn glir am y blaenoriaethau ac felly'n gorfod derbyn na allwch chi wneud popeth” (budd-ddeiliad corff anllywodraethol anifeiliaid).
- 3.117 **Ystyriwyd bod diffyg partneriaeth a chydweithio o fewn y CJS yn heriol.** Nododd y rhai a holwyd yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (2022), er enghraifft, nad oedd 78 y cant o ddigwyddiadau wedi arwain at euogfarnau. Mae adroddiad y Cenhedloedd Unedig (2021) yn cyfeirio at hyn fel cyfradd trosi wael o adrodd i ddedfrydu gydag ychydig iawn o achosion a adroddwyd yn arwain at erlyniad. Yn ogystal â'r effaith a gaiff hyn ar ddioddefwyr, gwarcheidwaid a'r rhai sy'n ymateb i WRCs, mae mesurau atal yn gyfyngedig iawn heb sicrwydd cosb.
- 3.118 Mae llawer o weithgareddau Cydgysylltydd WRC yn cynnwys cyfathrebu â'r budd-ddeiliaid amrywiol, ar bob lefel o sefydliadau a llywodraeth. Byddai **strategaeth gyfathrebu aneffeithlon** yn defnyddio adnoddau gwerthfawr, efallai na fyddai'n cael mynediad i'r holl fudd-ddeiliaid, yn creu cyfathrebu unigol ac yn arwain at negeseuon gwanedig (wrth deithio o'r gwaelod i'r brig ac i'r gwrthwyneb). Yn

gysylltiedig â hyn, nododd y cyfranogwyr yn glir y gallai **peidio â chyfathrebu tystiolaeth y Rhaglen yn effeithiol** arwain at ymddieithrio budd-ddeiliad, symbolaeth ac anghytgord.

*Risgiau yn ymwneud ag argaeledd data*

- 3.119 Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod yn unfrydol y risg o **ddata gwaelodlin gwael o ran troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad, a dibynadwyedd data, argaeledd, cysondeb, hygyrchedd, a dadansoddiad**. Nodwyd bod angen eglurder ar y Rhaglen ynghylch natur y WRC a'r bylchau mewn gwybodaeth i gefnogi gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau allweddol. Bydd diffyg data cadarn yn effeithio'n negyddol ar yr ymateb gorfodi, ymgysylltu â budd-ddeiliad a monitro'r Rhaglen o effaith diriaethol/mesuradwy. Yn gysylltiedig â hyn mae'r risg sy'n gysylltiedig â **monitro dibynadwyedd a dilysrwydd data sydd ar gael ac yn y dyfodol**:

“Ond y gwir amdani yw, a rhoddais fy nwylo i fyny at hyn, roedd y ffigurau'n cael eu trin (yr heddlu'n tangofnodi WRCs). Felly beth mae'n ei olygu ... a oes angen rhywun i edrych ar hyn a rhoi darlun cywir o'r hyn sydd mewn gwirionedd” (budd-ddeiliad corff anllywodraethol morol).

- 3.120 Mae'r pwynt hwn yn adlewyrchu'r cyfyngiadau mewn data gweinyddol a'r newidynnau niferus a allai effeithio ar gynnydd a gostyngiadau ymddangosiadol mewn ystadegau swyddogol. Rhybuddiodd y cyfranogwyr y byddai angen dehongli data ystadegol yn ofalus er mwyn osgoi niweidio'r Rhaglen, oherwydd gallai ymateb llwyddiannus, er enghraifft, gynyddu'r troseddau a gofnodwyd i ddechrau.

“Mae angen i rywun dynnu'r stigma oddi wrth hynny...strategaeth nad yw'n cosbi am adrodd gonest” (budd-ddeiliad Cymdeithas Ffermio).

- 3.121 Mae'r sylwadau hyn hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd atgyfnerthu data swyddogol gydag ymchwil budd-ddeiliad ac ysgolheigaidd.

- 3.122 Wrth ystyried y risgiau i'r ToC, amlygwyd heriau gwerthuso'r Rhaglen a data gan gyfranogwyr. Mae'r adran ganlynol yn trafod sut y gellir monitro canlyniadau ac allbynnau ToC, gan gynnwys ystyried dangosyddion a ffynonellau data perthnasol.

## Gwerthuso a Data

- 3.123 Dylid ystyried y ToC fel dogfen waith, y mae angen ei hystyried, ei diweddarau a'i monitro. Mae gwerthuso yn ganolog i'r broses ToC. Mae hyn yn gofyn am offer mesur sy'n addas at y diben a fydd yn cynnwys y newid a ddymunir yn y Rhaglen. Gofynnwyd i gyfranogwyr sut yr hoffent fonitro allbynnau a chanlyniadau'r Rhaglen, sy'n nodi ffynonellau data amrywiol a allai ddarparu rhai o'r offer sydd eu hangen. Fodd bynnag, wrth fapio'r data presennol i'r allbynnau a'r canlyniadau, ychydig o'r ffynonellau hyn a archwiliodd yn glir y cysylltiadau a'r llwybrau rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, a chanlyniadau, gan gyfyngu ar y graddau y gellir mesur y ToC yn empirig gan ddefnyddio ffynonellau data presennol. Roedd y cyfranogwyr yn cael trafferth nodi metrigau dilys a dangosyddion penodol (e.e. nifer neu ganran y swyddogion a hyfforddwyd, cynnydd canrannol yn y WRC a adroddwyd). Nid oedd ganddynt hyder yn nibynadwyedd a dilysrwydd y data hwn, yn enwedig y ddibyniaeth ar ddata troseddau ystadegol swyddogol a'u dehongliad: "Mae'n bwynt teg iawn oherwydd nid oes unrhyw bwynt data yn bodoli ar ei ben ei hun. Mae'n rhaid i chi edrych ar ddata yn ei gyfanrwydd fel y gallwch weld adlewyrchiad un yn erbyn y llall pan fo rhywbeth yn gyd-amrywiad ... Ni allwch edrych ar un eitem yn unig a dweud, "Rydym yn gwneud yn dda oherwydd X." Nid yw... felly mae angen rhywun i ddehongli'r data mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr ac mae'n rhaid gwneud hynny mewn ffordd eithaf soffistigedig fel nad ydych chi'n cael y math anghywir o ganlyniadau, mae'n debyg, mewn trafodaethau" (budd-ddeiliad Cymdeithas Ffermio).
- 3.124 Yn y bôn, mae'n anodd nodi beth sy'n achosi newidiadau yn nata WRC, oherwydd y ffactorau amrywiol sy'n dylanwadu ar y canlyniadau. Bydd ansawdd y dystiolaeth yn pennu i ba raddau y gellir sefydlu achosiaeth rhwng mewnbynnau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau. Mynegodd y cyfranogwyr bryder y gallai datblygu ToC, a'r dangosyddion cysylltiedig, gynyddu'r baich ar y Rhaglen a'r Cydgysylltydd yn ddi-fudd. Yr heriau craidd o ran monitro allbynnau a chanlyniadau'r Rhaglen oedd gwerthuso'r hyn a oedd yn realistig gyraeddadwy mewn cyfnod o dair blynedd, a'r angen hanfodol am ddata gwaelodlin dibynadwy er mwyn gallu barnu canlyniadau'r dyfodol.
- 3.125 Yng ngoleuni'r cyfyngiadau data a amlygwyd yn y canfyddiadau, mae'r adran hon yn ceisio manteisio ar ddata a mesuriadau presennol, a nodi cyfleoedd i wella'r broses o gasglu data. Datgelodd dadansoddiad o'r data sydd ar gael gan y tîm

ymchwil y gallai ddarparu sylfaen dystiolaeth rannol, y byddai angen ei chymhwyso'n ofalus i sicrhau dilysrwydd a dibynadwyedd. Mae Tabl 3 yn rhoi enghraifft o sut y gellid mesur yr Allbynnau penodol – gan gynnwys y dangosyddion a'r data y gellid eu defnyddio i'w mesur. Mae'r tabl yn egluro lle mae angen data empirig ychwanegol. Ni ellir nodi targedau penodol gan nad yw gwaelodlin yn hygyrch ar gyfer y rhan fwyaf o'r allbynnau. Gellid datblygu hyn fel rhan o strategaeth monitro data'r Rhaglen.

**Tabl 3: Dangosyddion a data ar gyfer monitro Allbynnau**

Allbynnau	Dangosydd	Data * angen data pellach
Strategaeth wedi'i lansio i fudd-ddeiliaid, budd-ddeiliaid yn deall canlyniadau'r rhaglen	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Nifer y budd-ddeiliaid yn bresennol yn y gynhadledd flynyddol</li> <li>➤ Nifer y budd-ddeiliaid sydd wedi derbyn/cyrchu'r Strategaeth</li> <li>➤ Adborth gan fudd-ddeiliaid ar y Strategaeth a'r Rhaglen</li> <li>➤ Bodolaeth sianeli/platfformau cyfathrebu i fudd-ddeiliaid gyrchu diweddariadau'r Rhaglen</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Rhestr presenoldeb y gynhadledd</li> <li>✓ Ffurflen adborth y gynhadledd</li> <li>✓ Metrigau cyrchu ar-lein (e.e. nifer yr ymweliadau â gwefannau, rhyngweithio cyfryngau cymdeithasol)</li> <li>✓ Arolwg budd-ddeiliad*</li> </ul>
Caiff y rhaglen ei llywio gan ymgysylltu â budd-ddeiliad ac adborth	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Nifer ac ystod y camau cyfathrebu (e.e. cylchlythyrau chwarterol, adroddiadau blynyddol, post wythnosol ar y cyfryngau cymdeithasol)</li> <li>➤ Ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol</li> <li>➤ Nifer a math yr ymatebion i'r Ymgynghoriad</li> <li>➤ Nifer y cyfarfodydd a budd-ddeiliaid a gymerodd ran mewn ymgysylltu â grŵp PG</li> <li>➤ Adborth gan randdeiliaid ar Strategaeth a Rhaglen, a dolen adborth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cofnod cydgysylltydd o gamau cyfathrebu</li> <li>✓ Dadansoddiad cyfryngau cymdeithasol (e.e. cliciau)</li> <li>✓ Data Ymgynghori LIC</li> <li>✓ Cofnod cydgysylltydd o gronfa ddata budd-ddeiliad</li> <li>✓ Cyfarfodydd PG a rhestr bresenoldeb</li> <li>✓ Arolwg budd-ddeiliad*</li> </ul>
Mae Rhaglen Gydgyssylltu WRC yn cynghori grwpiau polisi a strategol allweddol y DU a Llywodraeth Cymru, gan wella deddfwriaeth, polisi,	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Nifer yr ymgysylltiadau a gohebiaeth gyda'r DU a LIC GAD/PG/Gweithgorau</li> <li>➤ Nifer o weithiau y rhoddir cyngor arbenigol i'r Llywodraeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cofnod Cydgysylltydd WRC o ymgysylltiadau a gohebiaeth gyda pholisi a PG y DU a LIC</li> <li>✓ Data erlyn y CPS*</li> <li>✓ Data gorfodi*</li> </ul>

erlyn a chanlyniadau dedfrydu	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gwell cyfraddau trosi troseddau a mwy o erlyniadau</li> <li>➤ Mae ardaloedd heddlu yn cyflwyno data troseddau WRC i NWCU</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Goruchwylwyr Gwledig Heddlu Cymru PG</li> </ul>
Sail dystiolaeth glir a phroses fesur i nodi PGs a gwerthuso cynnydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Asesiad risg/bygythiad yn manylu ar PGs</li> <li>➤ Nifer y cyfarfodydd a budd-ddeiliaid a gymerodd ran mewn ymgysylltu â grŵp PG</li> <li>➤ Bodlonwyd amcanion gan grwpiau PG</li> <li>➤ Ymwybyddiaeth budd-ddeiliad a chanfyddiadau o gynnydd PG</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Data Cydgysylltydd WRC ar feysydd PG</li> <li>✓ Presenoldeb a chofnodion cyfarfod PG</li> <li>✓ Cofnod Cydgysylltydd WRC o werthusiad PG*</li> <li>✓ Arolwg budd-ddeiliad*</li> </ul>
Partneriaid cyfiawnder troseddol a statudol yng Nghymru yn cydnabod Strategaeth WRC Cymru yn eu strategaeth fewnol	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cyfeiriad at Strategaeth WRC Cymru mewn strategaethau mewnol</li> <li>➤ Partneriaid statudol yn ymgysylltu â Chydgyssylltydd WRC</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Strategaethau a gwefannau CJS a phartneriaid statudol</li> <li>✓ Cofnod Cydgysylltydd WRC o ymgysylltu â phartneriaid statudol a gohebiaeth*</li> </ul>
Ymateb cydlynol a threfnus i WRC ymhlith asiantaethau gorfodi, yn seiliedig ar arfer gorau cydnabyddedig	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cynllun 4P yn ei le ar draws pob PG Cymreig</li> <li>➤ Cydlyniant, cydlyniad, ac arfer gorau yr ymdrinnir â hwy gan PG Goruchwylwyr Gwledig Heddlu Cymru</li> <li>➤ Gweithrediadau yn mynd i'r afael â WRC trefniadol</li> <li>➤ Nifer y gweithrediadau gorfodi a rennir a chudd-wybodaeth</li> <li>➤ Nifer y digwyddiadau rhannu arfer gorau traws-asiantaethau gorfodi</li> <li>➤ Swyddogion yn adrodd am fwy o gydweithio a chanlyniadau gwell</li> <li>➤ Budd-ddeiliaid yn cydnabod mwy o gydlyniant a chydweithio o ran dull gorfodi a gwell canlyniadau WRC</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cofnodion cyfarfodydd Goruchwylwyr Gwledig Heddlu Cymru</li> <li>✓ Data grŵp PG*</li> <li>✓ Arolwg swyddogion WRC*</li> <li>✓ Arolwg budd-ddeiliad*</li> <li>✓ Data gweinyddol WRC a adroddwyd</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cymhariaeth ranbarthol o WRCs a gofnodwyd</li> </ul>	
Dull cydlynol o fudd-ddeiliaid gan gynnwys mentrau ar y cyd a arweinir gan fudd-ddeiliaid statudol ac anstatudol i wella cydweithio ac ymateb WRC	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Nifer y gweithrediadau arbenigol, cudd-wybodaeth a rhannu data ymhlith budd-ddeiliaid</li> <li>➤ Nifer y MOUs ac ISAs a ddefnyddiwyd</li> <li>➤ Budd-ddeiliaid WRC yn cydnabod mwy o gydlyniant a chydweithio, ac yn mentro data gweinyddol canlyniadau WRC</li> <li>➤ Budd-ddeiliaid statudol ac anstatudol yn arwain PGs</li> <li>➤ Presenoldeb budd-ddeiliaid statudol ac anstatudol mewn cyfarfodydd PG</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Data grŵp PG*</li> <li>✓ Cofnod Cydgysylltydd WRC o MOUs/ISAs</li> <li>✓ Arolwg budd-ddeiliad*</li> <li>✓ Cofnod Cydgysylltydd WRC o PGs</li> <li>✓ Rhestr presenoldeb PG</li> </ul>
PGs arbenigol, yn seiliedig ar feysydd blaenoriaeth Strategaeth WRC Cymru, yn cynrychioli amrywiaeth ac arbenigedd budd-ddeiliaid, sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn gweithio tuag at gyflawni amcanion penodedig.	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cyfarfodydd PG rheolaidd</li> <li>➤ Presenoldeb budd-ddeiliaid statudol ac anstatudol mewn cyfarfodydd PG</li> <li>➤ Cyflawnir amcanion gan PGs</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cofnod cyfarfod PG a rhestr presenoldeb</li> <li>✓ Cofnod Cydgysylltydd WRC o werthusiad PG*</li> </ul>
Partneriaethau budd-ddeiliad gyda gwell gwybodaeth ac adnoddau	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Budd-ddeiliaid yn adrodd am well gwaith partneriaeth, gwybodaeth a rhannu adnoddau</li> <li>➤ Nifer a math y sesiynau hyfforddi pwrpasol a ddarperir neu a hwylusir</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Arolwg budd-ddeiliad*</li> <li>✓ Cofnodion Cydgysylltydd WRC</li> </ul>
Cefnogaeth briodol ac adnoddau ar gael ar gyfer budd-ddeiliaid i gwrdd â nodau'r Strategaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gwell canlyniadau WRC [gall hyn gynnwys cynnydd neu ostyngiad mewn troseddau]</li> <li>➤ Gwell argaeledd a rhannu data WRC</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Data gweinyddol CJS</li> <li>✓ Arolwg budd-ddeiliad*</li> </ul>



<p>Capasiti uwch, hyfforddiant arbenigol a rhannu adnoddau ymhlith asiantaethau gorfodi</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Adnoddau a ddyrennir i asiantaethau gorfodi, gan gynnwys technoleg (e.e. CSAS, DISC, LoRaWAN)</li> <li>➤ Nifer y rhaglenni hyfforddi WRC pwrpasol a gynigir, cymhareb swyddogion gyda hyfforddiant arbenigol WRC</li> <li>➤ Nifer y swyddogion sy'n cwblhau hyfforddiant cenedlaethol (e.e. NWCU)</li> <li>➤ Lefel y cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau gorfodi</li> <li>➤ Nifer y mentrau cydweithredol (e.e. ymuno â thasglu)</li> <li>➤ Mabwysiadu technoleg newydd i wella rhannu data (e.e. cronfeydd data WRC safonol; platfformau cyfathrebu)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Data PG Goruchwylwyr Heddlu Cymru*</li> <li>✓ Cofnodion Cydgysylltydd WRC</li> <li>✓ Arolwg budd-ddeiliad*</li> </ul>
<p>Codir proffil WRC ymhlith asiantaethau gorfodi, gan hwyluso recriwtio a dargadw swyddogion a phersonél WRC</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Nifer o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth WRC</li> <li>➤ Cynnig hyfforddiant WRC i asiantaethau gorfodi</li> <li>➤ Cyfraddau recriwtio a dargadw uwch neu gymhareb Swyddogion WRC i swyddogion eraill</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cofnodion Cydgysylltydd WRC</li> <li>✓ Data PG Goruchwylwyr Heddlu Cymru*</li> <li>✓ Arolwg budd-ddeiliad*</li> </ul>
<p>Mae holl asiantaethau'r CJS yn cydweithio ac yn gweithio tuag at nodau Rhaglen Gydgyssylltu WRC</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Lefel y cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau gorfodi</li> <li>➤ Nifer y mentrau cydweithredol (e.e. tasgluoedd ar y cyd, data a rennir)</li> <li>➤ Nifer y personél o wahanol asiantaethau CJS sy'n mynychu rhaglenni hyfforddi</li> <li>➤ Argaeledd data WRC gan bob asiantaeth CJS</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cofnodion Cydgysylltydd WRC</li> <li>✓ Data PG Goruchwylwyr Gwledig Heddlu Cymru*</li> <li>✓ Data PG arall*</li> <li>✓ Rhestr o fynychwyr rhaglenni hyfforddi</li> <li>✓ Data troseddau a chanlyniadau gweinyddol CJS</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Datblygu a gweithredu rhaglenni hyfforddi ar y cyd</li> <li>➤ Mabwysiadu technoleg newydd i wella rhannu data (e.e. cronfeydd data WRC safonol; platfformau cyfathrebu)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Dogfennaeth CJS ar bolisi/strategaethau</li> </ul>
Strategaeth casglu data Rhaglen Gydgysylltu WRC wedi'i llywio gan ymarfer mapio data a rhannu data cyfrifol	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cronfa ddata mapio data</li> <li>➤ Strategaeth casglu data</li> <li>➤ Adborth gan fudd-ddeiliaid ar rannu data a hygyrchedd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cronfa ddata Cydgysylltydd WRC*</li> <li>✓ Cofnodion Cydgysylltydd WRC</li> <li>✓ Arolwg budd-ddeiliad*</li> </ul>
Strategaeth casglu a dadansoddi data WRC safonol ar draws ardaloedd heddluoedd Cymru	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Strategaeth casglu a dadansoddi data</li> <li>➤ Defnyddio system/cronfa ddata safonol</li> <li>➤ Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr</li> <li>➤ Arolwg Troseddau Gwledig Cenedlaethol [NRCN]</li> <li>➤ Adroddiad Troseddau Cefn Gwlad [NFU Mutual]</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cofnod Cydgysylltydd WRC ar ddatblygu strategaeth</li> <li>✓ Adroddiad blynyddol ar droseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad *</li> </ul>
Data monitro Rhaglen cadarn	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cynllun monitro data</li> <li>➤ Strategaeth casglu data</li> <li>➤ Gwell argaeledd a hygyrchedd data WRC</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cofnodion Cydgysylltydd WRC</li> <li>✓ Data PG</li> <li>✓ Data gweinyddol CJS</li> </ul>

3.126 Nododd y dadansoddiad o gynnwys a wnaed fel rhan o'r adroddiad hwn lawer o adroddiadau, cyfathrebu, ymgysylltu, gweithrediadau arbenigol, ffigurau hyfforddi, y gellid eu defnyddio fel rhan o sylfaen dystiolaeth. Er enghraifft, nododd adroddiad blynyddol Cydgysylltydd WRC (2022) fod 40 o Swyddogion y Cyngor wedi cael hyfforddiant arbenigol (gyda Choleg Gelli Aur) a nododd cyfranogwr o Lywodraeth Cymru fod mil o swyddogion dros gyfnod o chwe mis wedi'u hyfforddi i ymateb i gam-drin domestig. Fodd bynnag, mae angen rhagor o wybodaeth ac ymgysylltu â budd-ddeiliad ar gyfer yr ymchwiliad hwn er mwyn sefydlu ai dyma'r swm a'r math 'cywir' o hyfforddiant i ddod yn ddangosydd gwerthuso.

3.127 Yn amlwg, mae angen gwella argaeledd data i gefnogi gwerthusiad y Rhaglen. Yn y broses o fapio data a datblygu cynllun data i gefnogi canlyniadau'r Rhaglen a monitro, gall cyfleoedd godi i gysylltu â gweithgareddau ymchwil a chasglu data presennol neu arfaethedig (e.e. arolygon cenedlaethol, ymgynghoriadau cyhoeddus, data budd-ddeiliad). Yn unol ag Asesiad y Cenhedloedd Unedig (2021), dylai'r Rhaglen ystyried cynhyrchu adroddiad blynyddol WRC tebyg i'r un a gynhyrchir yn yr Alban ar droseddau bywyd gwyllt, sy'n coladu data CJS a budd-ddeiliad dibynadwy mewn un cyhoeddiad. Gallai'r adroddiad hwn ddarparu dadansoddiad gwerthfawr o batrymau a thueddiadau yn nata WRC.

## 4. Casgliadau

### Cyd-destun yr Ymchwil

- 4.1 I gloi, mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ganfyddiadau ymchwil sy'n anelu at ddatblygu Model Rhesymeg Theori Newid cynhwysfawr sy'n dangos y mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau a ragwelir ar gyfer y Rhaglen Gydgysylltu Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Rhaglen Gydgysylltu WRC). Mae'r model yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer deall sut mae'r Rhaglen yn gweithredu a'r effaith ddisgwyliedig ar fynd i'r afael â throseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad (WRC).
- 4.2 Nod y Rhaglen, fel y'i nodir yn Strategaeth WRC Cymru, yw datblygu ymhellach ymateb cydgysylltiedig ac effeithiol i Gymru gyfan i WRC, sydd wedi'i deilwra i anghenion Cymru. Cefnogir y nod hwn gan rôl Cydgysylltydd WRC a grëwyd gan Llywodraeth Cymru yn 2021 a'i hymestyn i 2025. Mae'r Rhaglen yn cyfrannu at nodau ehangach Llywodraeth Cymru a'u rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol sy'n helpu i ddiogelu cymunedau gwledig, anifeiliaid, a bioamrywiaeth.
- 4.3 Mae ymchwil sy'n bodoli eisoes yn cyfiawnhau'r angen am y Rhaglen hon drwy dynnu sylw at yr heriau a'r cyfleoedd niferus wrth ymateb i WRC yng Nghymru. Pwysleisiodd ymchwil y llywodraeth, er enghraifft, yr effeithiau eang a difrifol y mae'r troseddau hyn yn eu cael ar gymunedau, bywyd gwyllt, anifeiliaid eraill, a'r amgylchedd. Roedd adroddiadau eraill yn nodi cyfraddau cynyddol WRC (ar ôl dirywiad cychwynnol yn ystod pandemig Covid-19), diffyg ymddiriedaeth mewn plismona a lefelau uwch o ofn trosedd ymhlith cymunedau gwledig. Roedd y llenyddiaeth hefyd yn cydnabod yr heriau unigryw o blismona ardaloedd gwledig mawr ac WRCs amrywiol, gydag adnoddau cyfyngedig, cydgysylltu, hyfforddiant a data swyddogion, a llawer o flaenoriaethau gorfodi cystadleuol. Yn fwyaf diweddar, dangosodd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru effaith gadarnhaol rôl y Cydgysylltydd wrth ymateb i WRC.
- 4.4 Mae'r ymchwil yn cydnabod na all Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r heriau hyn ar ei phen ei hun. Mae'r Rhaglen wedi datblygu o amgylch y Cydgysylltydd a'r Strategaeth, ond mae'n dibynnu ar ymgysylltiad gwirfoddol gan asiantaethau statudol allweddol a budd-ddeiliaid. Er mwyn cefnogi datblygiad, monitro a gwerthuso'r Rhaglen, nododd Llywodraeth Cymru fod angen ToC.

4.5 Mae fframweithiau Theori Newid (ToC) wedi'u cynllunio i fod yn hyblyg ac yn addasadwy, a bwriedir eu haddasu ac adlewyrchu arnynt drwy gydol eu datblygiad a'u gweithrediad. Mae'r ToC yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r dogfennau presennol a data empirig (tri grŵp ffocws ac un cyfweiliad). Yn bwysig, mae'r gwerthusiad hwn wedi digwydd yn gynnar yn natblygiad y Rhaglen, wedi'i hysbysu gan fudd-ddeiliaid allweddol ac yn cael ei gefnogi'n frwd gan dîm rheoli a gweithredu Llywodraeth Cymru (LIC). Wrth ddehongli canfyddiadau a goblygiadau'r ymchwil mae'n bwysig ystyried cyfyngiadau'r astudiaeth. Roedd casglu data, er enghraifft, yn cyd-daro â lansio'r Strategaeth a'r symudiad tuag at y syniad o 'Raglen' o waith, a ddrysodd rhai cyfranogwyr. Tra'n darparu safbwyntiau gan amrywiaeth o fudd-ddeiliaid ar draws sectorau a rhanbarthau, ni allai'r gwaith maes gynnwys yr holl fudd-ddeiliaid parod.

### **Ffactorau cyd-destunol a nodwyd yn y canfyddiadau**

4.6 Roedd eglurder ar ffocws a nodau Rhaglen Gydgysylltu WRC yn ganolog i'r cyd-destun a'r rhwystrau a godwyd gan gyfranogwyr. Fel y dangoswyd gan y ToC, mae'r Rhaglen wedi tyfu'n gyflym i fod yn rhaglen waith gynhwysfawr, sy'n anelu at ddarparu ymateb cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar Gymru gyfan. Mae'n cefnogi asiantaethau gorfodi a phartneriaid statudol yn bennaf i ddarparu ymateb effeithiol a chynaliadwy sy'n gwarchod ac yn gwella cynefinoedd, bywyd gwyllt, a chymunedau gwledig. Ychwanegodd y cyfranogwyr at hyn, bwyslais ar bartneriaid a budd-ddeiliaid wrth gyflwyno'r Rhaglen a'r potensial am effaith ehangach ar newid gwleidyddol, sefydliadol a diwylliannol mewn agweddau ac ymatebion i WRC. Er bod cwmpas y Rhaglen yn cael ei lywio gan gyrhaeddiad LIC, gall serch hynny geisio ymgysylltu ag ystod eang o fudd-ddeiliaid a chefnogi'r nodau ehangach hyn.

4.7 Cytunodd y cyfranogwyr fod cwmpas eang y materion a amlygwyd yn WRC yn her. Yn benodol, cymhlethdod ymateb i niwed, troseddau a dioddefwyr mor amrywiol, a chydgyssylltu'r amrywiol budd-ddeiliaid dan sylw. Amlygodd y canfyddiadau ymgysylltiad llwyddiannus ystod eang o fudd-ddeiliaid. Mae'r budd-ddeiliaid hyn yn dod ag arbenigedd ac adnoddau hanfodol, ond hefyd, anghenion a disgwyliadau amrywiol, y mae'n rhaid eu rheoli'n effeithiol i sicrhau cydweithio. Roedd gan y budd-ddeiliaid a gymerodd ran safbwyntiau gwahanol ar feysydd grŵp blaenoriaeth y Strategaeth (PG) a gofynnwyd am well cyfathrebu ar y rhesymeg a'r asesiad risg i ddangos eu dewis. Dadleuodd rhai fod y diffyg synergedd rhwng Strategaeth WRC

Cymru a strategaethau a dulliau gweithredu presennol y DU wedi creu rhwystr i orfodi cadarn. Pwysleisiodd eraill yr angen am hyblygrwydd, i deilwra'r ymateb i anghenion cymunedau gwledig, ardaloedd gorfodi a chyd-destunau Cymreig.

- 4.8 Nodwyd y cyfyngiadau allweddol a nodwyd mewn ymchwil bresennol hefyd gan gyfranogwyr, gan gynnwys heriau i bobl a phrosesau, ac adnoddau a data. Mae cyfyngiadau data yn effeithio'n ddifrifol ar ganlyniadau a monitro'r Rhaglen. Er bod llawer o ffactorau'n cyfrannu at ddata a dadansoddiad WRC gwael, mae etifeddiaeth o leihau a diystyru WRC yn amlwg ar draws y CJS. Mae'r dystiolaeth yn dangos lefelau isel o ganfod ac adrodd am WRC, ochr yn ochr â chyfraddau erlyn a chanlyniadau dedfrydu gwael. Mae diffyg dealltwriaeth o'r niweidiau helaeth a difrifol a achosir gan WRC a phwysigrwydd ymateb cadarn sy'n cael ei yrru gan ddata a chydweithredol yn gyffredin ymhlith budd-ddeiliaid. Mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar y rhai sydd â'r dasg o ymateb i WRC ac mae wedi arwain at drosiant uchel o swyddogion WRC ac adnoddau cyfyngedig.

### **Model Rhesymeg**

- 4.9 Nododd y ToC ganlyniadau rhaglen hirdymor (tair+ blynedd) ag effaith gymdeithasol, amgylcheddol a pholisi ac ymarfer eang. Yn bwysig, roedd y rhain yn cynnwys lleihau niwed i gymunedau gwledig, anifeiliaid a bywyd gwylt, a chynyddu eu lles. Er mwyn cyflawni hyn, pwysleisiwyd deddfwriaeth gref, wedi'i gorfodi ledled Cymru gan swyddogion a thimau WRC hyderus a chadarn, wedi'i chydlynu a'i chefnogi gan bartneriaethau budd-ddeiliad cynaliadwy. Roedd data a chuddwybodaeth gadarn yn sail i bob un o'r canlyniadau hyn.
- 4.10 Gosodwyd y canlyniadau, allbynnau, gweithgareddau a mewnbynnau tymor byr disgwylidig a dymunol (un-tair blynedd) o amgylch pedwar categori allweddol: gweithredu strategol, pobl a phartneriaethau, gallu ac adnoddau, a data a chuddwybodaeth. Mae gorgyffwrdd naturiol rhwng y categorïau hyn, fodd bynnag, trafodir pob un yn ei dro i egluro'r canfyddiadau.
- 4.11 Ystyriwyd bod canlyniadau strategol yn hanfodol i arwain y Rhaglen a budd-ddeiliaid. Roedd y canlyniadau allweddol yn cynnwys:
- bodloni nodau ac amcanion Strategaeth WRC Cymru,
  - synergedd â strategaethau perthnasol eraill y DU,

- Rhaglen hyblyg sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gyda budd-ddeiliaid gwybodus ac ymgysylltiedig.

4.12 Byddai'r rhain yn cael eu cyflawni drwy allbynnau allweddol gan gynnwys:

- budd-ddeiliaid sy'n ymwneud â bwydo'r Rhaglen, sy'n llywio polisi ac yn cefnogi PGs ar WRC,
- lansio a chyfleu Strategaeth WRC Cymru yn glir i fudd-ddeiliaid, gan gynnwys cyfiawnder troseddol ac asiantaethau statudol sy'n ei chydabod yn eu strategaethau mewnol,
- Strategaeth gyda thystiolaeth o feysydd blaenoriaeth. Gall tystiolaeth gynnwys asesiadau risg a dadansoddiad o fygythiadau a fabwysiadwyd gan asiantaethau eraill.

4.13 Cefnogir yr allbynnau hyn gan dri gweithgaredd:

- Cydlynu a gweithredu Rhaglen Gydgysylltu WRC a Strategaeth WRC Cymru,
- casglu tystiolaeth i gefnogi asesiad bygythiad Strategaeth o feysydd blaenoriaeth,
- dolen adborth budd-ddeiliad i lywio datblygiadau'r Rhaglen

4.14 Mae'r mewnbynnau presennol yn cynnwys tair strategaeth a strwythur llywodraethu Rhaglen sy'n cysylltu Cydgysylltydd WRC â Llywodraeth Cymru, yr heddlu a PG/PDGs ehangach y DU a Chymru.

4.15 Mae pobl a phartneriaethau yn cyfeirio at nod allweddol y Rhaglen o gydweithio a chydweithredu ar draws budd-ddeiliaid. Yn y tymor byr, roedd y canlyniadau'n cynnwys:

- ymagwedd gyson at orfodi WRC ledled Cymru,
- rolau a chyfrifoldebau clir wrth gyflwyno ymagwedd gydgysylltiedig,
- blaenoriaethu WRC ymhlith budd-ddeiliaid allweddol,
- dioddefwyr yn teimlo eu bod yn cael eu deall a'u cefnogi.

Ategwyd y canlyniadau hyn gan allbynnau, gan gynnwys:

- ymateb gorfodi mwy cydlynol a chydlynol (a gefnogir gan y cynllun 4P) wedi'i gydlynu ar draws meysydd gorfodi Cymru, ac wedi'i atgyfnerthu gan ymgysylltu â budd-ddeiliad,

- PGs arbenigol ac effeithiol,
- budd-ddeiliaid mwy gwybodus ac adnoddau gwell.

Gallai gweithgareddau rhaglen gyflawni'r allbynnau hyn drwy:

- hwyluso cydlyniant a chydweithio ymhlith ardaloedd heddlu, PGs, a budd-ddeiliaid,
- galluogi cyfleoedd rhwydweithio, ymgysylltu a chyfathrebu rhwng budd-ddeiliaid,
- darparu arweinyddiaeth.

Ar ben hynny, roedd budd-ddeiliaid a fynychodd PGs a gweithio tuag at eu hamcanion gosodedig yn weithgaredd angenrheidiol i gyflawni canlyniadau'r Rhaglen. Y mewnbynnau allweddol i gefnogi'r canlyniadau, allbynnau a gweithgareddau hyn a nodwyd oedd Cydgysylltydd WRC a budd-ddeiliaid arbenigol a chymunedol.

4.16 Mae Capasiti ac Adnoddau yn dal nod y Rhaglen o gefnogi Cydgysylltydd WRC, swyddogion gorfodi a budd-ddeiliaid. Roedd y canlyniadau tymor byr yn cynnwys:

- swyddogion a budd-ddeiliaid gyda mwy o gapasiti a gallu,
- Swyddogion WRC hyderus, gwybodus a gwydn.

I gyflawni hyn, roedd yr allbynnau'n cynnwys:

- cymorth ac adnoddau priodol ar gael i fudd-ddeiliaid,
- hyfforddiant arbenigol a rhannu adnoddau ymhlith Swyddogion WRC,
- cydweithio gan asiantaethau cyfiawnder troseddol (CJS),
- prosesau recriwtio a dargadw personél gorfodi cadarn.

Mae angen dau weithgaredd penodol ar yr allbynnau hyn:

- datblygu a hwyluso hyfforddiant swyddogion WRC,
- gwaith partneriaeth sy'n cefnogi rhannu adnoddau.

Disgwylir i'r gweithgareddau gael eu hariannu gan:

- cyllid presennol ar gyfer rôl y Cydgysylltydd,
- cefnogaeth personél dymunol,
- cyllid i gefnogi'r gweithgareddau a'r allbynnau a nodwyd.



4.17 data a chudd-wybodaeth yn cyfeirio at y dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi holl ganlyniadau a monitro'r Rhaglen. Yn y tymor byr, mae hyn yn cynnwys canlyniadau megis:

- data gwaelodlin WRC cywir,
- rhannu data cyfrifol rhwng budd-ddeiliaid,
- cynhyrchu cudd-wybodaeth,
- data gweinyddol ehangach WRC wedi'i gyfoethogi gan ddata ysgolheigaidd a budd-ddeiliad.

Hwylusodd tri allbwn y canlyniadau hyn:

- strategaeth casglu data a oedd yn cynnwys data budd-ddeiliad ac ysgolheigaidd.
- casglu a dadansoddi data WRC gorfodi safonol,
- data monitro cadarn.

I gyflawni hyn, roedd gweithgareddau allweddol yn cynnwys:

- codi ymwybyddiaeth budd-ddeiliaid o gyfyngiadau a chyfleoedd data,
- mapio budd-ddeiliad a data,
- hwyluso gwell data gorfodi a monitro,
- defnyddio ymchwil ysgolheigaidd.

Y mewnbynnau a nodwyd i gyflawni canlyniadau ar gyfer data a chudd-wybodaeth oedd:

- Ymgynghoriad Strategaeth WRC Cymru,
- data budd-ddeiliad ac ymchwil ysgolheigaidd,
- cofnodi a dadansoddi data CJS mewn modd dibynadwy a chyson.

## **Tybiaethau**

4.18 Rhaid deall y cyd-destun, y rhwystrau a'r Model Rhesymeg a nodwyd trwy'r rhagdybiaethau sy'n amlwg mewn dogfennau a barn ategol y cyfranogwyr ar sut y dylai Rhaglen Gydgyssylltu WRC weithredu. Tybiwyd bod WRC yn niweidiol i gymunedau gwledig, bywyd gwylt, anifeiliaid eraill, a bioamrywiaeth, a'i fod yn eang ac amrywiol gyda heriau unigryw i gymdeithas a'r rhai sy'n ymateb iddo. O ganlyniad, deallir bod yn rhaid i ymateb cadarn gynnwys gwell amddiffyniad cyfreithiol i ddiodefwyr, wedi'i orfodi drwy ymateb CJS cydgysylltiedig, sy'n ymgysylltu â budd-ddeiliaid allweddol. O ystyried cymhlethdod ymateb i WRC a darparu ymateb cydgysylltiedig a chynhwysol, ystyriwyd bod pwynt cyswllt canolog - Cydgysylltydd WRC - yn hollbwysig. Yn yr un modd, roedd disgwyl i gynrychiolaeth gyfartal o holl ardaloedd heddlu Cymru fanteisio ar yr adnoddau cyfyngedig oedd ar gael a lleihau cyfleoedd i droseddu. Credwyd bod budd-ddeiliaid yn bartneriaid parod ac yn hanfodol i ymateb effeithiol. Eto i gyd, rhagdybiwyd cyfyngiadau o ran blaenoriaethu a chyllid sydd eu hangen i frwydro yn erbyn WRC o fewn asiantaethau statudol. Tybiwyd bod newid mewn agwedd yn cefnogi ymateb effeithiol. Ymhellach, credwyd bod yn rhaid i ymateb cadarn gael ei danategu gan ddata a dadansoddiadau gweinyddol, budd-ddeiliad ac ymchwil cadarn, nad oes eu hargaeledd a'u coladu ar hyn o bryd.

## **Risgiau**

4.19 Gwelwyd bod sawl risg yn effeithio ar gynaliadwyedd rhaglenni, mae angen monitro rhai ac eraill yn cael eu dileu er mwyn cyflawni canlyniadau. Roedd dibyniaeth y Rhaglen ar eu cyfraniadau yn dystiolaeth o werth Cydgysylltydd WRC. Ar hyn o bryd mae cyflwyno'r rhaglen yn dibynnu ar allu'r Cydgysylltydd i jyglo amrywiol rolau a chyfrifoldebau gydag adnoddau cyfyngedig. Yn yr un modd, mae'r Rhaglen mewn perygl o or-ymestyn yn ei hymgais i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau amrywiol budd-ddeiliaid amrywiol a chymhlethdod ymateb i WRC. Ac eto, heb ymgysylltu cadarnhaol â budd-ddeiliad ni ellir cyflawni canlyniadau. Dangosodd yr ymchwil y gallai methu â chyfathrebu'n effeithiol â budd-ddeiliaid arwain at ymddieithrio neu symbolaeth, a byddai'n gwastraffu cyfleoedd ac adnoddau gwerthfawr. Ystyriwyd bod data WRC a dadansoddiad gwael yn bygwth pob agwedd ar y Rhaglen, gan gynnwys ei chynaliadwyedd y mae'n rhaid ei hategu gan WRC dibynadwy a data monitro.

## Monitro a Gwerthuso

4.20 Byddai arferion cofnodi, adrodd a dadansoddi troseddau presennol yn ei chael hi'n anodd cefnogi nodau'r Rhaglen ac effaith tystiolaeth yn effeithiol. Mae heriau data yn ymddangos ar bob pwynt yn y ToC ac, ym marn un cyfranogwr, maent yn "anorchfygol". Caiff y Rhaglen ei herio gan ei chwmpas eang (e.e. budd-ddeiliaid, troseddau), data cyfyngedig (e.e. dibynadwyedd, gronynnedd, hygyrchedd) ac amharodrwydd cyfranogwyr i gytuno ar ddangosyddion monitro priodol. Mae dadansoddiad o'r data sydd ar gael yn dangos bod cyfleoedd i ddarparu sylfaen dystiolaeth rannol, fodd bynnag, byddai angen cymhwyso hyn yn ofalus ac yn ystyriol er mwyn sicrhau dilysrwydd a dibynadwyedd y dystiolaeth yn unol â chanlyniadau'r Rhaglen. Mae cyfleoedd i greu data newydd; mae Adroddiad Troseddau Bywyd Gwyllt Blynyddol yr Alban yn dangos bod casglu<sup>16</sup> data troseddau bywyd gwyllt yn ddibynadwy yn bosibl.

---

<sup>16</sup> Er y cydnabyddir bod cyfyngiadau a bylchau yn y data a ddarparwyd, byddai adroddiad tebyg yn gwella data ystadegol troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad Cymru yn fawr a gallai wneud y gorau o ddata budd-ddeiliad.

## 5. Argymhellion

Mae'r adran hon yn amlinellu argymhellion allweddol yr adroddiad, yn seiliedig ar y canfyddiadau ymchwil a drafodwyd. Mae hyn yn cynnwys sylw i'r rhagdybiaethau a'r risgiau a nodwyd, a'r categorïau allweddol a nodir yn y Model Rhesymeg.

### *Strategol*

1. Dylai tîm gweithredu Rhaglen Gydgysylltu Troseddau Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (WRC) Llywodraeth Cymru ailedrych ar y ToC o bryd i'w gilydd a gwerthuso'r Rhaglen er mwyn:
  - a. nodi cyfleoedd, rhwystrau a risgiau pellach,
  - b. profi'r tybiaethau sy'n sail i ddatblygiad y Rhaglen,
  - c. nodi diweddariadau perthnasol i fewnbynnau, gweithgareddau, a chanlyniadau, gyda'r nod o osgoi gorgyrraedd Cydgysylltwyr a Rhaglen WRC.
2. Egluro cwmpas a gweledigaeth y Rhaglen a chyfleu hyn yn glir i fudd-ddeiliaid, gan gynnwys ystyried cyrhaeddiad daearyddol a chydweithio, ymgysylltu â holl asiantaethau'r CJS,
3. Darparu tryloywder pellach i fudd-ddeiliaid ar y dystiolaeth sy'n sail i fesur risg meysydd blaenoriaeth.

### *Pobl a Phartneriaethau*

1. Canolbwyntio ar gynhwysiant budd-ddeiliaid i adeiladu'r Rhaglen. Gall eu mewnbwn amrywiol, adborth, diddordebau, a phryderon arwain at wneud penderfyniadau cynhwysol, mewnwleidiad i risgiau posibl, cyfleoedd, a heriau posibl, ac felly mwy o debygolrwydd o lwyddiant i'r Rhaglen,
2. Nodi sut y gall y Rhaglen helpu i herio normau sefydliadol o ddad-flaenoriaethu WRC a phwysleisio ar yr un pryd bwysigrwydd ymateb i WRC a hyrwyddo rolau gorfodi,
3. Canolbwyntio ar gydweithio ar draws y CJS sy'n cefnogi datblygiad ymateb WRC cadarn ymhlith yr holl asiantaethau, ac yn hwyluso adolygiad cyfnodol o ddata a chyfraddau trosi,
4. Datblygu strategaeth gyfathrebu sy'n sicrhau bod yr holl fudd-ddeiliaid perthnasol a sianeli effeithiol yn cael eu nodi a'u defnyddio i wneud y mwyaf o

- adnoddau. Dylai'r strategaeth gynnwys cynllun ar gyfer lledaenu data ac allbynnau'r Rhaglen a nodi bylchau a chyfleoedd,
5. Dylai Cydgysylltydd WRC a Llywodraeth Cymru gynnal ymarfer mapio budd-ddeiliad i nodi bylchau yn ymgysylltiad budd-ddeiliad â'r Rhaglen,
  6. Gweithredu PG Goruchwylwyr Gwledig Heddlu Cymru i nodi chyfleoedd i safoni'r ymateb gorfodi ledled Cymru.

#### *Cyllid ac Adnoddau*

1. Dyrannu cyllid ar gyfer adnoddau sy'n cefnogi rôl Cydgysylltydd WRC a gweithgareddau ac allbynnau'r Rhaglen am gyfnod y canlyniadau tymor byr, a chynllunio ar gyfer anghenion ariannu Rhaglen hirdymor,
2. Cynnal adolygiad o fodel hyfforddi presennol WRC ar gyfer Cymru a chroeswrio â hyfforddiant a ddarperir gan sefydliadau partner (e.e. NWCU, NPCC) ar gyfer synergedd a dyblygu,
3. Sefydlu rhaglen fentora sy'n cynnwys uwch swyddogion sy'n cefnogi timau WRC.

#### *Data a Chudd-wybodaeth*

1. Defnyddio'r Rhaglen i yrru'r fenter ar waith i wneud holl droseddau WRC yn gofnodadwy ac yn hysbysadwy, gyda chodau troseddau arwahanol i gynorthwyo gyda manylder a dadansoddi data,
2. Gweithio gyda'r pedair ardal heddlu yng Nghymru i gyflwyno mesurau i hwyluso arferion cofnodi, adrodd, rhannu data a dadansoddi data WRC mwy cywir a chyson, gan gynnwys hyfforddiant i'r rhai sy'n delio â galwadau a gweithredwyr ac archwilio'r defnydd o gronfeydd data WRC pwrpasol.
3. Dylid cynnal ymarfer mapio data i nodi data perthnasol presennol ac sydd ar gael, bylchau yn y data a'r data sydd ar gael, a chyfleoedd i rannu data â budd-ddeiliaid (gall hyn, yn rhannol, gael ei ddal yn yr Ymgynghoriad Strategaeth a gellid ei gysylltu ymhellach â'r uchod. ymarfer mapio budd-ddeiliaid),
4. Dylunio a datblygu cynllun ymchwil a gwerthuso gyda'r nod o wella data a dadansoddiadau WRC a monitro rhaglenni. Gallai hyn gynnwys mapio data budd-ddeiliad, polisi rheoli data, perchnogaeth data a rheoli ansawdd data, cynllun ar gyfer casglu a dadansoddi data yn y dyfodol, dangosyddion a data

monitro'r rhaglen, a'r saernïaeth sydd ei hangen i goladu a dadansoddi'r data sy'n berthnasol i WRC,

5. Rhoi MOUs ac ISAs ar waith gyda budd-ddeiliaid i annog rhannu data budd-ddeiliaid a hygyrchedd.

## Cyfeirnodau

- Bozkurt, Y. (2018) 'Face to face versus online focus group interviews – when, where, with whom, for what, which one', in Nuran Öze (arg.) *Current Debates in Public Relations & Communication Studies*, tud 33-46. Llundain: IJOPEC Publication.
- Braun, V. a Clarke, V. (2006). Using thematic analysis in psychology. *Qualitative Research in Psychology*, 3, tud. 77-101.
- Bryman, A. (2021). *Social Research Methods*. 6ed arg. Efrog Newydd: Oxford University Press Inc.
- [Ceccato, V., Abraham, J. \(2022\). Crime and Safety in Rural Areas](#). In: *Crime and Safety in the Rural*. Springer Briefs in Criminology. Springer, Cham. [cyrchwyd 08.07.23]
- Copes, H. a Miller, J. (2015). *The Routledge Handbook of Qualitative Criminology*. Llundain: Routledge.
- Cydgysylltydd Troseddau Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad Cymru (2022). *Adroddiad Blynyddol Cydgysylltydd Cefn Gwlad Cymru: Mehefin 2021 - Mehefin 2022*.
- Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (2018). *Rural Affairs Strategy: Strengthening Safe and Prosperous Communities*. Ar gael yn: [NPCC-Rural-affairs-Strategy-2018-2021.pdf \(nwcu.police.uk\)](#) [cyrchwyd 28.03.23]
- [Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu \(2022\). Rural and Wildlife Crime Strategy 2022-2025](#). [cyrchwyd 01.03.23]
- [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#). Ar gael yn: [cyrchwyd 20.03.23]
- Department for Environment, Farming and Rural Affairs (2022). *Statistical Digest of Rural England*. Ar gael yn: [Rural crime statistics - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#). [cyrchwyd 10.07.23]
- De Silva, M. a Lee, L. (nd) *Using Theory of Change in the development, implementation and evaluation of complex health interventions: A practical guide*. The Centre for Global Mental Health at the London School of Hygiene & Tropical Medicine and The Mental Health Innovation Network. Ar gael yn: [MHIN Using ToC A Practical Guide 0.pdf \(mhinnovation.net\)](#) [cyrchwyd 08.05.23]
- Heddlu Dyfed Powys Police (2021). *Short Business Case following the Five Case Model*.

Heddlu Gogledd Cymru (2023). Troseddau Cefn Gwlad. Ar gael yn: [Troseddau cefn gwlad | Heddlu Gogledd Cymru](#) [cyrchwyd 03.07.23]

Link (2021). Wildlife Crime in 2020: A Report on the Scale of Wildlife Crime in England and Wales. Ar gael yn: [WCL Wildlife Crime Report Nov 21.pdf](#) [cyrchwyd 12.02.23]

Llywodraeth Cymru (2008). 'Cymru Wledig' - diffiniadau a sut i ddewis rhwyg hwy. Bwletin Ystadegol. Ar gael yn: [Cymru wledig: diffiniadau a sut i ddewis rhwyg hwy | LLYW.CYMRU](#) [cyrchwyd 10.07.23]

Llywodraeth Cymru (2023). Strategaeth Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 2023-2025. Ar gael yn: [Strategaeth troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad: 2023 i 2025 | LLYW.CYMRU](#) [cyrchwyd 12.12.23]

Llywodraeth Cymru (2023a). Ymgynghoriad - Ymatebion wedi'u Crynhoi (PRIF DDOGFEN).

NFU Cymru & NFU Mutual (2017). *Combatting Rural Crime*. Ar gael yn: [rural-crime-manifesto-digital-w-inserts-july-17.pdf \(nfu-cymru.org.uk\)](#) [cyrchwyd 12.06.22]

[NFU Mutual \(2022\). Ready for the Returning Threat: Rural Crime Report 2022](#). Ar gael yn: [cyrchwyd 01.02.23]

Noebels, M., Moran, S., a Orford, K. (2021) Ymchwil y Senedd: Bioamrywiaeth. Ar gael yn: [Bioamrywiaeth \(senedd.cymru\)](#) [cyrchwyd 10.07.23]

Norris, G., a Morris, W. (2022). *Rural and Farm Crime in Wales*. Ar gael yn: [Rural and Farm Crime in Wales — Aberystwyth Research Portal](#) [cyrchwyd 01.02.23]

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022). *Crime Survey for England and Wales (CSEW) estimates of personal and household crime, anti-social behaviour, and public perceptions, by police force area, year ending September 2022*. Ar gael yn: [Crime Survey for England and Wales \(CSEW\) estimates of personal and household crime, anti-social behaviour, and public perceptions, by police force area, year ending September 2022 - Office for National Statistics](#) [cyrchwyd 20.12.22]

Scottish Government (2023). Taskforce report on SSPCA powers: Scottish Government response. Ar gael yn: [Taskforce report on SSPCA powers: Scottish Government response - gov.scot \(www.gov.scot\)](#) [cyrchwyd 22.08.23]



Social Research Association (2021). Research Ethics Guidance. Ar gael yn: [SRA Research Ethics guidance 2021.pdf \(the-sra.org.uk\)](https://www.sra.org.uk/resources/ethics-guidance/ethics-guidance-2021.pdf) [cyrchwyd 14.10.21]

Wincup, E. (2017). *Criminological Research: Understanding Qualitative Methods*. Llundain: SAGE Publications.

Y Cenhedloedd Unedig (2021). *Wildlife and Forest Crime Analytic Toolkit Report: United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland*. Ar gael yn: [UK Toolkit Report.pdf \(unodc.org\)](https://www.unodc.org/publications/analytic-toolkit-report) [cyrchwyd 22.01.23]

Y Rhwydwaith Troseddau Gwledig Cenedlaethol (2018). *National Rural Crime Survey*. [Ar-lein]. Ar gael yn: [National-Rural-Crime-Survey-2018-Report-and-Recommendations.pdf \(nationalruralcrimenetwork.net\)](https://www.nationalruralcrimenetwork.net/2018-report) [cyrchwyd 18.01.23].


Yr Uned Troseddau Bywyd Gwyllt Cenedlaethol (2017). *A Review of the Prevention and Investigation of Wildlife Crime in Wales 2017*. NWCUC.

Yr Uned Troseddau Bywyd Gwyllt Cenedlaethol (2022). Strategic Assessment – UK Wildlife Crime 2020-2022. Ar gael yn: [Strategic-Assessment-UK-Wildlife-Crime-November-2020-public-version.pdf \(nwcuc.police.uk\)](https://www.nwcuc.police.uk/strategic-assessment-uk-wildlife-crime-november-2020-public-version.pdf) [cyrchwyd 18.12.22]

Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR) (2021). GSR Professional Guidance: Ethical Assurance for Social and Behavioural Research in Government. Ar gael yn: [2021-GSR Ethics Guidance v3.pdf \(publishing.service.gov.uk\)](https://www.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/97822/2021-GSR-Ethics-Guidance-v3.pdf) [cyrchwyd 12.01.23]

## Atodiad A

Map yn dangos Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, yn amlygu ardaloedd gwledig yng Nghymru (gan ddefnyddio diffiniad gwledig SYG, 2013)<sup>17</sup>



<sup>17</sup> [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(diweddariad llawn i'r mynegai gyda graddfeydd\): 2014 | LLYW.CYMRU](#)

## Atodiad B

### Cymharu Grwpiau Blaenoriaeth Strategaeth Cymru (LIC, 2023) a'r DU (NPCC, 2022)

#### Allwedd Lliwiau

Gwyrdd: Ardaloedd cyffredin

Glas: Ardaloedd unigryw

	Llywodraeth Cymru	NPCC y DU	
	Strategaeth WRC Cymru	NRCU	NWCU
Blaenoriaethau Troseddau Bywyd Gwyllt	<b>Mamaliaid a Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop</b> ✓ Ystlum ✓ Ceirw ✓ Moch Daear ✓ CITES ✓ Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop ✓ Hela Anghyfreithlon		CITES (Confensiwn ar gyfer y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau Mewn Perygl)
			Troseddau Ystlumod
			Troseddau Moch Daear
			Potsio
	<b>Troseddau Adar</b> ✓ Pob aderyn ✓ Mamaliaid Arfordirol		Troseddau Adar Ysglyfaethus
			Misglod Perlog Dŵr Croyw
Blaenoriaethau Troseddau Cefn Gwlad	Troseddau Fferm	Dwyn Peiriannau, Offer a Cherbydau Fferm	
		Dwyn Tanwydd	
		Troseddau Da Byw	
		Troseddau Ceffylau	

	<b>Cynefinoedd</b> ✓ <b>Tipio Anghyfreithlon</b>	<b>Tipio Anghyfreithlon</b>
		<b>Potsio</b>
		<b>Hela Ysgyfarnogod</b>
	<b>Cynefinoedd</b> ✓ Troseddau Treftadaeth ✓ Difrod i Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ✓ Planhigion a Rhywogaethau Ymledol ✓ Gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd	
	<b>Iechyd Meddwl a Chamdriniaeth Rywiol</b>	
	<b>Heddlu Cymru</b> <b>Goruchwylwyr Gwledig</b>	
<b>Themâu Trawsbynciol</b>		<b>Troseddau Difrifol a Threfniadol</b>
		<b>Troseddau bywyd gwyllt a alluogir gan seiber</b>